RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
35/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/062018

# Gwerthusiad o Raglen Esgyn

## Adroddiad Cam 3: Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Rhaglen Esgyn

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol 978-1-78937-348-6

Gwerthusiad o Raglen Esgyn: Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Rhaglen Esgyn

Awdur(on) / Cwmni
Oliver Allies
Dr Andrew Engeli

wavehill
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Siân Williams
Yr Is-Adran Gymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 025 3991
Ebost: Sian.Williams50@gov.cymru

**Tabl cynnwys**

Tabl cynnwys ........ 1
Rhestr tablau ........ 1
Rhestr ffigyrau ........ 2
Geirfa ........ 4
1. Cyflwyniad/Cefndir ........ 5
2. Y Dull Methodolegol ........ 9
3. Rhaglen Esgyn ........ 16
4. Perfformiad y Rhaglen – Effeithiolrwydd y Model Gweithredu ........ 27
5. Teithiau'r Cyfranogwyr a Chanlyniadau i'r Hirdymor ........ 44
6. Asesu Effaith ........ 59
7. Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion ........ 73
Adran Cyfeiriadau ........ 80
Atodiad A: Model Rhesymeg Rhaglen Esgyn ........ 82
Atodiad B: Offer Ymchwil ........ 83
Atodiad C: Rhagdybiaethau Dadansoddi Cost a Budd ........ 96
Atodiad D: Y Gofynion Casglu Data a Awgrymir ........ 98
Atodiad E: Dadansoddiad Technegol Adroddiad Esgyn ........ 100

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Ardaloedd Gweithredu Esgyn ........ 5
Tabl 2.1: Tonnau Arolwg y Cyfranogwyr ........ 10
Tabl 2.2: Arolwg Cyfranogwyr – Nifer yr Ymatebwyr ........ 11
Tabl 3.3: Newid yn nifer yr Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn ôl hyd hawlio ........ 23
Tabl 4.1: Dadansoddiad Demograffig Cyfranogwyr Rhaglen Esgyn yn ôl Ardal Gyflenwi ........ 27
Tabl 4.2: Cyfraddau Symud Cyfranogwyr Esgyn i Gyflogaeth yn ôl hyd bod yn ddi-waith ........ 40
Tabl 4.3: Cyfraddau Symud Cyfranogwyr Esgyn i Gyflogaeth yn ôl Cymhwyster Uchaf ........ 40
Tabl 5.1: Dadansoddi sgôr (allan o ddeg) ynghylch pa mor agos neu bell y teimlai cyfranogwyr Esgyn eu bod o allu dod o hyd i swydd i'r rheini nad oeddent yn gweithio adeg yr ail gyfweliad ........ 48
Tabl 5.2: Canran yr Ymatebwyr yn dewis 'yn eithaf gwir' neu 'yn gwbl wir' i gyfres o osodiadau ynghylch Hunaneffeithiolrwydd Cyffredinol ........ 52
Tabl 5.3: Canran yr Ymatebwyr yn dewis 'yn eithaf gwir' neu 'yn gwbl wir' i gyfres o osodiadau ynghylch Agwedd tuag at Gyflogaeth ........ 53
Tabl 6.1: Dadansoddi Effeithiolrwydd Cost ........ 60

Tabl 6.2: Newid yn y Gyfran o Oedran Gwaith sy’n Hawlio Budd-daliadau sy’n gysylltiedig â chyflogaeth – 2013 yn erbyn 2016 (cyfartaledd pedwar chwarter) .......... 64
Tabl 6.3: Cost a budd Rhaglen Esgyn ac i bwy .......... 66
Tabl 6.4: Amcangyfrif cost a budd Rhaglen Esgyn i Gyfranogwyr Esgyn o dan Ragdybiaethau Gwaelodlin (wedi’u talgrynnu i’r £50 agosaf) .......... 71
Tabl 6.5: Amcangyfrif cost a budd Rhaglen Esgyn o dan ragdybiaethau senarios amgen .. 72
Tabl E.1: Sampl cyfweliad/ail gyfweliad, data cyflawn .......... 100
Tabl E.2: Gadael Rhaglen Esgyn yn gynnar, yn ôl ton arolwg .......... 101
Tabl E.3: Cysylltiad rhwng camu ymlaen yn y farchnad lafur a gadael cynnar .......... 102
Tabl E.4: Lles, y cyfweliad cyntaf yn erbyn yr ail gyfweliad .......... 105
Tabl E.5: Atchweliad yn y cynnydd mewn lles fel newidyn dibynnol .......... 107

**Rhestr ffigyrau**

Ffigwr 3.1: Y Model Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Esgyn .......... 18
Ffigwr 3.2: Canran yr Aelwydydd Heb Waith yng Nghymru yn ôl ardal Awdurdod Lleol (2012 a 2016) .......... 22
Ffigwr 3.3: Cyfradd Diweithdra (ILO) pobl 16 i 64 mlwydd oed .......... 22
Ffigwr 3.4: Nifer Hawlwyr JSA yn ôl hyd hawlio fel canran o gyfanswm Hawlwyr JSA .......... 24
Ffigwr 4.1: Hanes Cyflogaeth Cyfranogwyr Esgyn ar adeg eu cofrestru .......... 29
Ffigwr 4.2: Lefelau Cymwysterau (Cyfwerth ag NQF) Cyfranogwyr Esgyn ar adeg Cofrestru .......... 30
Ffigwr 4.3: Tueddiadau yn Llwyth Achosion Cynyddol Cyfranogwyr dros amser .......... 31
Ffigwr 4.4: Sut daethoch chi i wybod am Raglen Esgyn? .......... 33
Ffigwr 4.5: Canlyniadau Rhaglen Esgyn (Cronnus) 2014-Medi 2017 .......... 34
Ffigwr 4.6: Canlyniadau Rhaglen Esgyn yn ôl Math fel Cyfran o Gyfanswm y Canlyniadau .......... 35
Ffigwr 4.7: Canran y Canlyniadau a frocerwyd yn Genedlaethol yn ôl Math y Canlyniad .... 36
Ffigwr 4.8: Teipoleg Cyfranogwyr Esgyn yn seiliedig ar Bellter o’r Farchnad Lafur .......... 41
Ffigwr 4.9: Cyfraddau Symud i Gyflogaeth yn ôl “Grŵp” Cyfranogwyr .......... 42
Ffigwr 5.1: Beth yw eich sefyllfa ar hyn o bryd (Cyfweliad cyntaf) .......... 44
Ffigwr 5.2: Cymharu sefyllfaoedd Cyfranogwyr Esgyn – adeg y Cyfweliad Cyntaf a’r Ail .... 46
Ffigwr 5.3: Ar ôl cael cymorth drwy Raglen Esgyn, pa mor hyderus ydych chi’n teimlo ynghylch: (ymatebwyr cyflogedig yn unig) .......... 47

Ffigwr 5.4: Dadansoddi Ymatebion i "Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch dod o hyd i waith cyflogedig?" ymysg y cohort a gymerodd ran yn yr ail gyfweliad ac a oedd yn dal heb waith ....49
Ffigwr 5.5: Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch cadw'r swydd gyflogedig honno? (Cyfranogwyr heb waith yn unig) ....50
Ffigwr 5.6: Ymatebion i Gwestiynau Lles ONS (sgôr allan o 10) ....53
Ffigwr 5.7: Cynnydd cyfartalog mewn lles rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail yn ôl grwpiau cymdeithasol-ddemograffig ....54
Ffigwr 5.8: Y tebygolrwydd a ragwelir o gamu ymlaen yn y farchnad lafur i'r rheini sy'n cwblhau'r Rhaglen o'i gymharu â'r rhai sy'n gadael yn gynnar ....56
Ffigwr 5.9: Cynnydd mewn hyder ynghylch dod o hyd i swydd rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail ....57
Ffigwr 5.10: Cynnydd mewn hyder o aros mewn swydd rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail ....58
Ffigwr 6.1: Y canran yn mynd i gyflogaeth ar ôl pedwar chwarter, cymharu Esgyn â'r QLFS ....62
Ffigwr 6.2: Yr amser (mewn chwarteri) a gymerir i gael cyflogaeth, cymharu Esgyn â QLFS (cyflogedig ar ôl pedwar chwarter yn unig) ....65
Ffigwr E.1: Atchweliad logistaidd lluosnominal yn rhagweld camu ymlaen yn y Farchnad Lafur (Improg) ....103
Ffigwr E.2: Rhagfynegi symud ymlaen yn erbyn peidio symud ymlaen, yn ôl gadael yn gynnar ....104
Ffigwr E.3: Histogram o gynnydd/lleihad mewn lles rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail ....105

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniadau | Cyfieithiad |
|---|---|---|
| CaW | Cymunedau am Waith | Communities for Work |
| CBA | Dadansoddi Cost a Budd | Cost Benefit Analysis |
| CEA | Dadansoddiad Effeithiolrwydd Cost | Cost Effectiveness Analysis |
| CyG | Cymunedau yn Gyntaf | Communities First |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau | Department for Work and Pensions |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop | European Social Fund |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol | National Health Service/NHS |
| ILO | Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol | International Labour Organization |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith | Jobcentre Plus |
| JSA | Lwfans Ceisio Gwaith | Jobseekers Allowance |
| LSOAs | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is | Lower Layer Super Output Area |
| NQF | Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol | National Qualifications Framework |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Office for National Statistics |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth | Parents Childcare and Employment |
| PSM | Cydweddu Sgorau Tueddiad | Propensity Score Matching |
| QLFS | Arolwg Chwarterol o’r Llafurlu | Quarterly Labour Force Survey |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Ym mis Mawrth 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad o Raglen Esgyn (‘Lift’ yn Saesneg). Roedd Rhaglen Esgyn wedi’i chynllunio i ymateb i’r ymrwymiad a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi (yn 2013) i gynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth erbyn diwedd 2017 i bobl sy’n byw ar aelwydydd heb waith yn yr hirdymor.

1.2 Gweithredai’r Rhaglen mewn naw ardal, yn seiliedig ar 12 o glystyrau[1] Cymunedau yn Gyntaf (CyG) ledled Cymru. Roedd yr ardaloedd a ddewiswyd i gynnal Esgyn ynddynt yn fwriadol amrywiol (o ran maint, dwysedd poblogaeth [trefol/gwledig] a natur yr amddifadedd a geir yno) er mwyn gallu rhoi model Esgyn ar brawf mewn ystod o leoliadau gwahanol. Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd lle cynigir Rhaglen Esgyn yn seiliedig ar un Clwstwr, mae tair ardal yn y Rhaglen — sef Blaenau Gwent, Caerffili a Sir y Fflint[2] — yn cynnwys dau Glwstwr yr un.

**Tabl 1.1: Ardaloedd Gweithredu Esgyn**

| Ardal gyflenwi (Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf) | Awdurdod Lleol |
|---|---|
| Ynys Môn | Ynys Môn |
| Dwyrain a Gorllewin Sir y Fflint | Sir y Fflint |
| Cwm Afan | Castell-nedd Port Talbot |
| Gogledd-orllewin Abertawe | Abertawe |
| Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| Ebwy Fawr a Thredegar | Blaenau Gwent |
| Basn Caerffili a Chwm Rhymni Uchaf | Caerffili |
| Dwyrain Caerdydd | Caerdydd |
| Gorllewin Taf | Rhondda Cynon Taf |

[1] Mae 52 Clwstwr sy’n gweithredu yn y cymunedau mwyaf difreintiedig (10%) yng Nghymru.
[2] Ymunodd Sir y Fflint ac un o ardaloedd Caerffili â Rhaglen Esgyn yn ddiweddarach.

1.3 Ym mhob ardal yn y Rhaglen roedd timau bach o Froceriaid/Mentoriaid Swyddi (y cyfeirwyd atynt maes o law fel Mentoriaid ac fel rheol gyda dau ym mhob ardal) wedi'u recriwtio i gynorthwyo oedolion o oedran gweithio oedd yn byw ar aelwydydd heb waith yn hirdymor (sef cartrefi oedd wedi bod heb waith ers o leiaf chwe mis). Roedd cyfranogwyr cymwys yn ymuno â'r Rhaglen yn wirfoddol, gyda'r Mentoriaid yn asesu eu dyheadau i gael swydd, yn pennu eu hanghenion hyfforddiant neu addysg ac yn eu cynorthwyo i lunio cynlluniau (gweithredu) datblygu personol er mwyn rhoi strwythur iddynt symud tuag at gyflogaeth. Câi cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth addas wedyn eu canfod.

1.4 Byddai'r Mentoriaid yn chwilio am gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yn lleol. Ar lefel genedlaethol cafodd adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac eraill eu gwahodd i ehangu eu cronfa o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a allai fod yn addas yn lleol i bobl heb waith yn y tymor hir. Roedd y rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a chyfleoedd mewn Rhaglenni Sgiliau ac Addysg oedd yn bodoli eisoes.

1.5 Roedd yr ardal gyntaf i weithredu Rhaglen Esgyn wedi dechrau ar ei gwaith ym mis Ionawr 2014 a dechreuodd yr olaf o'r naw ardal weithredu yn ystod haf y flwyddyn honno. Yn 2016, cytunodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar gyllideb i'r Rhaglen ar gyfer 2016-17 a 2017-18 er mwyn galluogi'r Rhaglen i barhau hyd at fis Mawrth 2018.[3]

1.6 Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd yr Ysgrifennydd dros Gymunedau a Phlant gynlluniau ar gyfer dull newydd o adeiladu cymunedau gwydn. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar gyflogaeth, y blynyddoedd cynnar a grymuso ac mae'n cynnwys dileu graddol ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn ogystal, cyhoeddwyd lansio grant cyflogadwyedd newydd o £12 miliwn y flwyddyn (o fis Ebrill 2018) i gefnogi'r rhai hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae Cymunedau am Waith a Mwy (gynt o dan yr enw 'Grant Cyflogadwyedd') wedi'i gynllunio i adeiladu ar y dysgu o raglenni Esgyn, Cymunedau am Waith a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE); mae rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiadau hyn yn Adran 3.

[3] Er y cytunwyd ar gyllideb ar gyfer y Rhaglen hyd at fis Mawrth 2018, dylid nodi fod cyflawni yn erbyn y targedau i ddigwydd erbyn diwedd Rhagfyr 2017 ac mai cyfnod dwyn i ben oedd y misoedd oedd yn weddill.

**Cwmpas ac Amcanion y Gwerthusiad**

1.7 Dyma ddwy nod gyffredinol y gwerthusiad:

- Asesu sut y cafodd y Rhaglen ei sefydlu ym mhob un o'r naw ardal a sut y câi ei gweithredu yno; a
- Rhoi syniad o'i heffeithiolrwydd wrth helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i waith neu i wneud gweithgareddau a fyddai'n rhoi hwb sylweddol i'w rhagolygon swydd.

1.8 Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri cham, a phob cam yn rhoi ffocws penodol ar elfennau allweddol gwahanol y Rhaglen. Yr adroddiad hwn yw diwedd yr ymchwil a wnaed fel rhan o Gam 3. Cyhoeddwyd adroddiadau Cam 1 a 2 ar wefan Llywodraeth Cymru.[4]

*Cam 1 – Rhesymeg Model Esgyn*

1.9 Ffocws y cam cyntaf hwn yn y gwerthusiad oedd deall y model rhesymeg oedd wrth wraidd rhaglen Esgyn, hynny yw, profi i ba raddau yr oedd Esgyn yn seiliedig ar 'Theori Newid' gredadwy ac i ba raddau yr oedd y Rhaglen yn cydymffurfio â'r model hwn yn yr ardaloedd oedd yn ei gweithredu.

*Cam 2 – Strwythur ac Arferion Gweithredu Esgyn*

1.10 Roedd Cam 2 yr astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad manwl o sut y cafodd y Rhaglen ei sefydlu ym mhob ardal a'r prosesau a ddefnyddid wrth ei gweithredu. Roedd y cam hwn hefyd yn archwilio pa mor ddigonol oedd y systemau monitro ac adrodd ym mhob ardal y gweithredwyd y Rhaglen ynddi.

*Cam 3 – Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Esgyn*

1.11 Yng Ngham 3 yr astudiaeth, sef cam presennol y gwerthusiad, aethpwyd ati i adolygu pa mor effeithlon ac effeithiol oedd y Rhaglen wrth gyflawni ei deilliannau bwriadedig. Roedd yn cynnwys dadansoddi cost a budd i gyfranogwyr y Rhaglen, yn ogystal ag edrych ar effeithlonrwydd ymarferol y Rhaglen ac a oes lle i wella'r cynllun.

[4] http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-programme/?lang=cy

### Strwythur yr Adroddiad hwn

1.12 Mae trefn gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn amlinellu'r dull methodolegol a ddefnyddiwyd yng ngham presennol yr ymchwil.
- Yn **Adran 3** ceir trosolwg byr o Raglen Esgyn, gan ailystyried y rhesymeg wreiddiol a oedd yn cyfiawnhau ei gweithredu a diweddaru'r cyd-destun polisi yng Nghymru mewn perthynas â Rhaglen Esgyn.
- Mae **Adran 4** yn tynnu ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cam hwn y gwerthusiad i asesu effeithiolrwydd model gweithredu Esgyn.
- Yn **Adran 5** edrychir ar daith cyfranogwyr Esgyn trwy'r Rhaglen trwy ddadansoddi tystiolaeth a gasglwyd o wahanol donnau'r arolygon ar gyfranogwyr.
- Mae **Adran 6** yn asesu effeithiau Rhaglen Esgyn ar y farchnad lafur, gan ganolbwyntio ar effeithiau net a dadansoddiad o'r gwerth am arian o ran yr adnoddau a fuddsoddwyd yn y Rhaglen gan Lywodraeth Cymru.
- Mae **Adran 7** yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r cam hwn ac yn rhoi cyfres o argymhellion ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.

## 2. Y Dull Methodolegol

2.1 Roedd cam cyntaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar esbonio'r model rhesymeg sy'n sail i Raglen Esgyn. Edrychodd ar weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau disgwyliedig y Rhaglen ochr yn ochr â'r rhagdybiaethau cysylltiedig a wnaed mewn perthynas â sut mae'r elfennau hyn yn cysylltu â'i gilydd (a elwir yn aml yn theori newid). Arweiniodd yr ymchwil at ddatblygu theori newid (gweler Atodiad A[5]).

2.2 Roedd Cam 2 y gwerthusiad yn canolbwyntio ar adolygu gweithredu Esgyn yn ymarferol, gan ganolbwyntio ar y prosesau a ddefnyddiwyd a phrofiadau wrth ei gweithredu a sut yr amrywiai'r rhain ar hyd yr ardaloedd cyflenwi.

**Dull Methodolegol Cam 3**

2.3 Mae Cam 3 y gwerthusiad yn bennaf wedi adolygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Rhaglen Esgyn gan ddefnyddio'r dulliau a amlinellir isod. Mae'r deunydd ymchwil a ddefnyddwyd i'w gweld yn Atodiad B.

*Cyfweliadau â Rheolwyr y Rhaglen*

2.4 Cafodd tîm rheoli'r Rhaglen (sef dau aelod o staff Llywodraeth Cymru ynghyd â'u rheolwr llinell) eu cyfweld (wyneb yn wyneb) ar ddechrau cam hwn y gwerthusiad ac unwaith eto ar ddiwedd y cam (dros y ffôn) i drafod gweithredu'r Rhaglen, gwersi a ddysgwyd ac etifeddiaeth y Rhaglen. Yn ogystal, mynychodd tîm Wavehill sawl cyfarfod Bwrdd Esgyn i gyflwyno'r canfyddiadau a godai ac i gasglu adborth a barn ynghylch cynnydd a llwyddiant y Rhaglen o safbwynt strategol.

*Cyfweliadau â Rheolwyr Clystyrau*

2.5 Cafodd saith o'r naw Rheolwr Clwstwr[6] gyfweliadau lled-strwythuredig dros y ffôn, ac yn y rheiny trafodwyd y newid i'r ffordd o weithredu Esgyn yn ystod y 12 mis blaenorol a chynnig cyfle i adfyfyrio ar fodel Esgyn, gan nodi elfennau arferion da a gwersi a ddysgwyd. Roedd y cyfweliadau hefyd wedi archwilio etifeddiaeth Esgyn a'r rôl y dylai ei chwarae wrth lunio Cymunedau am Waith a Mwy.

---

[5] Cyflwynir y model hwn hefyd ar dudalen 10 yr adroddiad ar Gam 1, a gellir ei weld yn http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-Programme/?lang=cy tudalen 10

[6] Nid oedd gan y ddwy ardal gyflenwi arall Reolwr Clwstwr ar adeg cynnal yr ymchwil

*Cyfweliadau â Mentoriaid Esgyn*

2.6 Gwahoddwyd Mentoriaid Esgyn i gymryd rhan mewn cyfweliadau lled-strwythuredig dros y ffôn. Yn y pen draw, cyfwelwyd 13 Mentor (o 16 posibl) i gynrychioli pob ardal y Rhaglen. Defnyddiodd y cyfweliadau strwythur tebyg i gyfweliadau'r Rheolwyr Clwstwr, gan archwilio sut roedd y model wedi esblygu ym mhob ardal gyflenwi dros y 12 mis blaenorol (sef y cyfnod cyn cynnal y cyfweliadau ym mis Mehefin 2017), pa heriau a gododd yn ystod y cyfnod hwn a pha elfennau yng nghynllun Rhaglen Esgyn y dylid eu datblygu mewn rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol.

*Arolwg Cyfranogwyr dros y Ffôn*

2.7 Cafodd cyfranogwyr Esgyn eu samplu ar hap o blith y cyfranogwyr hynny a oedd wedi ymwneud â'r Rhaglen am y tro cyntaf yn ystod y chwe mis blaenorol. Defnyddiwyd cynllun ail gyfweliad, sef bod yr arolwg cyntaf yn sefydlu'r waelodlin ar gyfer cymhariaeth ddilynol, a'r ail gyfweliad wedyn yn dangos cynnydd dros amser. Cynhaliwyd yr arolwg o gyfranogwyr Esgyn mewn sawl ton ac mae'n ailadrodd y dull a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 a Cham 2 (gweler Tabl 2.1 isod)

**Tabl 2.1: Tonnau Arolwg y Cyfranogwyr**

| | **Mai 2016 (Cam 1)** | **Rhag 2016-Ion 2017 (Cam 2)** | **Meh-Gorff 2017 (Cam 3)** |
|---|---|---|---|
| Ton 1 | Cyfweliad | Ail gyfweliad | |
| Ton 2 | | Cyfweliad | Ail gyfweliad |
| Ton 3 | | | Cyfweliad |

2.8 Dechreuwyd holi cyfranogwyr Rhaglen Esgyn ym mis Mai 2016, gan gynnal arolygon pellach rhwng mis Rhagfyr 2016 ac Ionawr 2017 (cyfweliadau cyntaf ton 2 ac ail gyfweliadau ton 1) ac unwaith eto ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2017 (cyfweliadau cyntaf ton 3 ac ail gyfweliadau ton 2).

2.9 Roedd y cyfweliad cyntaf yn holi cyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu am y tro cyntaf yn Rhaglen Esgyn yn ystod y chwe mis blaenorol, ac ymchwilwyd i'w cefndir, eu proses ymgysylltu, a'u profiad o gymorth Esgyn hyd hynny. Ledled gwerthusiad y Rhaglen cynhaliwyd 381 o gyfweliadau cyntaf dros dair ton, gan gynrychioli cyfradd ymateb o 43 y cant o'r sampl o 892 y cysylltwyd â hwy.

2.10 Roedd yr ail gyfweliadau yn fwy crynodol eu natur, gan archwilio canlyniadau cyfranogwyr ac i ba raddau y priodolir y rheiny i'r gefnogaeth a gafwyd. Mae Tabl 2.2 isod yn dangos nifer yr ymatebion gan gyfranogwyr a gafwyd ym mhob ton o ran y cyfweliad cyntaf a'r ail. Yn ystod y ddwy don, cafodd cyfanswm o 164 o gyfranogwyr eu hail gyfweld, gan roi cyfradd ymateb o 55 y cant.

**Tabl 2.2: Arolwg Cyfranogwyr – Nifer yr ymatebwyr**

| | Nifer yn gymwys i gael eu cyfweld[7] | Nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd | Cyfradd ymateb | Nifer yr ail gyfweliadau a gynhaliwyd | Cyfradd ymateb yr ail gyfweliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Ton 1 | 244 | 105 | 43% | 62 | 59% |
| Ton 2 | 412 | 195 | 47% | 102 | 52% |
| Ton 3 | 236 | 81 | 34% | amherthnasol | amherthnasol |
| **Cyfanswm** | **892** | **381** | **43%** | **164** | **55%** |

*Cyfweliadau â Chyflogwyr*

2.11 Ailadroddwyd y dull a ddefnyddiwyd yng nghyfnod blaenorol y gwerthusiad, sef cynnal cyfweliadau lled-strwythuredig dros y ffôn gyda 24 o gyflogwyr a oedd yn ymwybodol eu bod wedi rhoi lleoliadau profiad gwaith neu swyddi cyflogedig yn eu sefydliadau i gyfranogwyr Esgyn. Roeddynt yn gymysgedd o gyflogwyr lleol yr oedd timau'r ardaloedd cyflenwi wedi cysylltu â nhw a chyflogwyr cenedlaethol a anogwyd i gymryd rhan yn y Rhaglen a darparu nifer darged o gyfleoedd i gyfranogwyr Esgyn. Bwriad yr arolwg oedd gweld sut y daeth cyflogwyr i wybod yn gyntaf am Raglen Esgyn a'u profiadau o ymgysylltu a chyflogi cyfranogwyr Esgyn.

*Cyfweliadau ag Asiantaethau Atgyfeirio*

2.12 Cynhaliwyd cyfweliad â thri chynrychiolydd o'r Ganolfan Byd Gwaith mewn cyfweliadau ffôn lled-strwythuredig er mwyn casglu eu barn am y broses atgyfeirio i Raglen Esgyn ac am effeithiolrwydd tybiedig model Esgyn.

[7] Roedd y boblogaeth gymwys yn cynnwys cyfranogwyr Esgyn a oedd wedi cymryd rhan am y tro cyntaf yn Rhaglen Esgyn yn ystod y chwe mis cyn i'r samplu ddigwydd.

*Dadansoddi Data Monitro*

2.13 Ym mhob ardal y Rhaglen, roedd timau Esgyn, ar ran eu Cyrff Cyflawni Arweiniol, yn ymgymryd â rôl 'rheolwr data'. Roedd hyn yn golygu bod gofyn iddynt gasglu a storio'r holl ddata am y buddiolwyr oedd yn gysylltiedig â'r Rhaglen. Yn ystod cam cyntaf y gwerthusiad, nodwyd bod pob tîm wedi dylunio ei system a'i ffurf ei hun o gasglu data perthnasol ar gyfer pob cyfranogwr. Cynhaliwyd asesiad manylach wedyn gan y tîm gwerthuso yn ystod ail gam y gwerthusiad i nodi'r canlynol:

- pa ddata penodol oedd yn cael ei gasglu ac ar ba bwynt yn y broses y caiff y data hwn ei gasglu?
- sut mae'r wybodaeth honno yn cael ei storio?
- i ba raddau y mae modd creu cyswllt rhwng y data a gesglir ar gyfer pob cyfranogwr er mwyn dilyn trywydd taith a chanlyniad y cyfranogwr hwnnw?

2.14 Roedd yr adolygiad yn cynnwys sawl trafodaeth â staff Esgyn ym mhob ardal gyflenwi, gan wedyn gynnal adolygiad ar systemau i sicrhau y byddai'r data a gesglir trwy fonitro yn ddigonol i gynnal dadansoddiad trylwyr o ddata cyfranogwyr ochr yn ochr ag asesiad effaith.

2.15 Yn y cam olaf hwn yn y gwerthusiad, casglwyd data monitro o bob ardal gyflenwi am y cyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu â Rhaglen Esgyn o fis Ionawr 2016 ymlaen. Dewiswyd yr amserlen hon ar gyfer data cyfranogwyr yn sgil gwelliannau i natur y data monitro a gâi ei gasglu gan yr ardaloedd cyflenwi. Cyn y dyddiad hwn, roedd anghysonderau yn y wybodaeth fonitro a gasglwyd gan yr ardaloedd cyflenwi ac o ganlyniad nid oedd yn bosibl dadansoddi'r wybodaeth hon ledled y rhaglen, sef tystiolaeth a gasglwyd cyn mis Ionawr 2016.

2.16 Roedd y data a gasglwyd yn galluogi cynnal asesiad manwl o broffil yr unigolion oedd wedi ymgysylltu â Rhaglen Esgyn ers Ionawr 2016 yn ogystal â rhoi modd cynnal dadansoddiad trylwyr o unrhyw batrymau oedd yn gysylltiedig â'r mathau o gyfranogwyr a gâi ganlyniadau cyflogaeth drwy'r Rhaglen.

*Asesu Effaith*

2.17 Profwyd y gwrthffeithiol (beth fyddai wedi digwydd heb Raglen Esgyn) trwy gydol cam hwn y gwerthusiad trwy ddefnyddio'r dull 'data cyfatebol'. Ar y dechrau ymchwiliom i ddefnyddio Cydweddu Sgorau Tueddiad (Propensity Score Matching/PSM) i lunio grŵp cymharu drwy ddata yn yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu (QLFS).[8,9] Cafodd y grŵp cymharu a'r 'grŵp triniaeth' (sef y rhai oedd yn cael cymorth trwy Raglen Esgyn) eu cyfateb yn seiliedig ar gyfres o nodweddion tebyg, sy'n bwysig yn cynnwys newidynnau sy'n pennu a yw unigolion yn gymwys i'w dewis (mae manylion pellach yn Adran 6 am y dull a ddefnyddiwyd).

2.18 Mae'r QLFS yn cyfweld unigolion dros bum chwarter yn olynol ac yn rhoi modd llunio hanes unigolion yn y farchnad lafur, gan gynnwys cyfnodau blaenorol o fod yn ddi-waith y gellir eu defnyddio i gyd-fynd â sampl Esgyn. Fodd bynnag, un o brif gyfyngiadau'r QLFS yw ei fod yn cynnwys hanes yn y farchnad lafur y mae'r bobl dan sylw eu hunain wedi'i adrodd, a dangoswyd bod hyn yn llai dibynadwy na data a godwyd o ddata gweinyddol (a arsylwyd).

2.19 Oherwydd cyfyngiadau ar y data a oedd yn cyfyngu ar nifer y newidynnau ac achosion i'w cynnwys mewn Cydweddu Sgorau Tueddiad (PSM), daethom i'r casgliad nad oedd y dull yn ddigon cadarn i ganiatáu cymhariaeth ystadegol ystyrlon. Yn dilyn hynny, nodwyd *sampl hewristig* – sef un a gâi ei gyfateb drwy ddefnyddio meini prawf dethol syml yn seiliedig ar werth arwynebol newidynnau hanes unigolion yn y farchnad lafur (yn ddi-waith yn yr hirdymor) o'r QLFS, a dyma a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad a nodir isod.

[8] Yn hyn o beth, rydym yn dilyn y dull cyffredinol a ddefnyddiwyd gan Lindley et al. yn eu gwerthusiad o raglen Want2Work fel y trafodwyd yn eu hadolygiad llenyddiaeth; gweler Lindley, McIntosh, Roberts, Murray, ac Edlin, (2015) "Policy evaluation via a statistical control: A non-parametric evaluation of the 'Want2Work' active labour market policy", *Economic Modelling*, cyfrol 51, tt. 635-645.

[9] Mae'r Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu (Quarterly Labour Force Survey/QLFS) yn arolwg chwarterol ledled y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio diffiniadau rhyngwladol o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd. Mae'r arolwg yn cynnwys elfen hydredol (*longitudinal*) sy'n recriwtio panel o ymatebwyr i gael eu cyfweld am bum chwarter yn olynol.

## Cyfyngiadau Methodolegol

2.20 Dylid cadw cyfres o gyfyngiadau mewn cof wrth ddod i gasgliadau o'r ymchwil hwn.

2.21 Roedd diffyg cysondeb wrth gasglu a storio data monitro drwy gydol y Rhaglen a hynny wedi tanseilio'r gallu i gynnal dadansoddiad o effeithiolrwydd ac effaith (casglwyd llawer o'r wybodaeth mewn sawl ffordd a'i storio drwy ddefnyddio cymysgedd o fformatau electronig a chopi caled). O ganlyniad, yn sgil adolygu'r dulliau casglu data, cytunwyd y byddai'r holl ddata a oedd yn ofynnol i ddadansoddi effeithiolrwydd y Rhaglen mewn perthynas â gweithgarwch o fis Ionawr 2016 ymlaen yn cael ei storio'n ddigidol, ac y byddai'r data hwn ar gael i'r tîm gwerthuso, ddwy flynedd ar ôl i Raglen Esgyn gychwyn. Dewiswyd yr amserlen hon gan yr ystyrid y byddai olrhain cyn y dyddiad hwn yn afresymol o feichus ar adnoddau a byddai hefyd yn cyd-fynd â'r cyfweliad cyntaf â chyfranogwyr a oedd wedi'i gynnal drwy gydol y gwerthusiad. Yn ei dro, mae'r amserlen dynn i gynnal dadansoddiad llawn o'r wybodaeth reoli yn cyfyngu ar nifer cyfranogwyr Esgyn a allai fod yn rhan o'r dadansoddiad hwnnw. Yn anffodus, mae hyn wedi tanseilio'r gallu i gymharu llwyddiant ardaloedd yn ôl math / cefndir cyfranogwyr.

2.22 Gan mai ardaloedd lleol oedd y perchnogion ar y data a oedd yn gysylltiedig â Rhaglen Esgyn, roedd yn rhaid i'r tîm gwerthuso ddatblygu dull a fyddai'n rhoi digon o gyfle i dimau cyflenwi (ag adnoddau cyfyngedig) gasglu data cyfranogwyr a'i rannu ar gyfer gwaith yr arolwg. Teimlwyd y byddai chwe mis ar ôl cofrestru yn ddigonol ar gyfer casglu a rhannu data cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y garfan hon o gyfranogwyr eisoes wedi cael rhywfaint o gefnogaeth Rhaglen Esgyn yn ystod y cyfnod hwnnw. Gan y gallai'r cysylltiad hwn wedi digwydd cyn y cyfweliad cyntaf, mae'n bosibl fod y cyfweliad gwerthuso hwnnw wedi cipio rhai o effeithiau cadarnhaol y Rhaglen ac felly ni ellir ei ystyried yn wir waelodlin (cyn y rhaglen). Dryswch arall oedd bod 15 y cant o gyfranogwyr (56/378) eisoes wedi mynd i gyflogaeth cyn y cyfweliad cyntaf. Felly, er y gellir defnyddio'r ail gyfweliad i ddal effeithiau hydredol 'y pellter a deithiwyd', ni ddylid ystyried y rhain yn 'effeithiau rhaglen' y gellid fod wedi eu cipio mewn gwir ddyluniad 'cyn ac ar ôl'.

2.23 Roedd cyfyngiadau adnoddau ar gyfer y gwerthusiad yn golygu bod cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil cychwynnol wedi cael eu holrhain am chwe mis (sef 12 mis fel rheol ers cofrestru am y tro cyntaf ar y Rhaglen). O gofio natur grŵp y cyfranogwyr a'r pwyslais ar gael cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yrfa, byddai'n werth olrhain cyfranogwyr yn erbyn y grŵp cymharu dros y tymor hwy. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau adnoddau ynghyd â chyfraddau gadael tebygol (a fyddai'n debygol o arwain at ostyngiadau pellach yn y garfan ymateb) wrth olrhain y grŵp ymyrraeth, yn ogystal â'r ffaith bod y QLFS hydredol ond yn cadw unigolion am 5 chwarter yn unig, yn cyfyngu ar yr amser y gellid olrhain y naill grŵp neu'r llall er gwaethaf gwerth posibl y broses hon.

2.24 Un opsiwn posibl at ddibenion gwerthuso yn y dyfodol fyddai cynyddu nifer y pwyntiau olrhain ar gyfer cyfranogwyr rhaglen (e.e. yn chwarterol yn hytrach na phob chwe mis) er mwyn cyd-fynd yn well â data arolwg o'r QLFS. Fodd bynnag, nid yw hynny'n datrys diffygion hanes unigolion yn y farchnad lafur yn hunanadrodd yn y grŵp gwrthffeithiol (QLFS). Maes arall i'w archwilio fyddai'r gallu i gael gafael ar ddata gweinyddol DWP ar gyfer y grwpiau buddiolwyr a gwrthffeithiol. Dyma'r ffordd orau gan y byddai'n cynyddu cadernid y data ar gyfer y grŵp gwrthffeithiol, yn datrys unrhyw broblemau pan nad yw data yn cyfateb (e.e. defnyddio categorïau a dosbarthiadau gwahanol), ac yn lleihau ymyrraeth y gwerthusiad ar fuddiolwyr y rhaglen. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol archwilio dulliau gwrthffeithiol posibl i fesur canlyniadau 'meddal' yn eu herbyn, sef canlyniadau sydd y tu hwnt i hanes ffurfiol unigolion yn y farchnad lafur (e.e. hunaneffeithiolrwydd, hyder, parodrwydd i waith yn ôl eu hasesiad eu hunain.)

2.25 Roedd cyfyngiad arall i'r fethodoleg yn gysylltiedig â'r ymchwil gyda chyflogwyr. Roedd y dull yn dibynnu ar yr ardaloedd cyflenwi yn darparu cysylltiadau â chyflogwyr lleol ac felly mae'n bosibl y bydd tuedd systematig (h.y. heb fod ar hap) yn gysylltiedig â dulliau casglu data penodol a hynny'n unigryw i bob ardal.

# 3. Rhaglen Esgyn

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg byr o Raglen Esgyn trwy ailystyried y rhesymeg a oedd wedi bod yn sail i'w gweithredu, a rhoi'r diweddaraf ar y cyd-destun polisi yng Nghymru mewn perthynas â'r Rhaglen.

## Rhaglen Esgyn

3.2 Roedd Rhaglen Esgyn yn weithredol mewn naw o ardaloedd cyflenwi ledled 12 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan dderbyn £4.1m o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth o'i lansio yn 2014 hyd at ei diwedd yn 2017. Roedd defnyddio Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf fel cyfrwng cyflenwi yn seiliedig ar y dybiaeth bod seilwaith y Clystyrau yn cynnig rhyw radd o effeithlonrwydd, gan alluogi gweithredu'r gwasanaeth gydag adnoddau cyfyngedig. Mae llawer o effeithiolrwydd y model hwn, serch hynny, yn dibynnu ar Raglen Esgyn yn cysylltu â ffurfiau eraill o gymorth, neu'n manteisio arnynt.

*Nodi Ardaloedd i gyflenwi'r Rhaglen*

3.3 Aeth Llywodraeth Cymru ati i nodi Clystyrau posibl a'u gwahodd i gymryd rhan yn y Rhaglen.

3.4 Roedd y meini prawf dethol terfynol yn cynnwys (i) i ba raddau yr oedd gan y Clystyrau hanes llwyddiannus o gyflenwi rhaglen bresennol Cymunedau yn Gyntaf, a (ii) yr angen i dreialu'r model mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol o dan y dybiaeth y byddai daearyddiaeth, dwyseddau poblogaeth a chyflogaeth, a seilwaith, yn dylanwadu ar effeithiolrwydd y Rhaglen.

3.5 Roedd y gyllideb ddechreuol ar gyfer pob ardal gyflenwi (2013/14-2015/16) yn amrywio o ryw £190,000 i £390,000, gan adlewyrchu lefel y cyllid y gofynnwyd amdani ac y darparwyd tystiolaeth ar ei chyfer gan bob Corff Cyflawni Arweiniol. Roedd y cyllid a'r adnoddau ehangach (yn ariannol ac yn ymwneud â phersonél / ymyriadau) wedi cynnig cryn hyblygrwydd o ran natur y cymorth oedd ar gael i'r cyfranogwyr i'w helpu i oresgyn rhwystrau i gael swydd. Yn wahanol i lawer o raglenni eraill yng Nghymru, ni chafodd y Rhaglen ei hariannu trwy Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop (ESF), gan felly gynnig rhywfaint o hyblygrwydd na chafwyd mohono mewn gweithgareddau a ariannwyd gan yr ESF. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn tybio y byddai'r hyblygrwydd hwn yn galluogi gwahanol

gyfranogwyr mewn sefyllfaoedd amrywiol i ymateb yn gadarnhaol ac i ymwneud yn weithredol ag Esgyn.

3.6 Roedd y cyllid hwn yn cynnwys Cronfa Rwystrau leol, a honno'n adnodd hyblyg i Fentoriaid i'w cynorthwyo (pan nad oedd adnodd arall ar gael) i oresgyn unrhyw rwystrau sylweddol yr oedd unigolyn yn eu hwynebu wrth gael gwaith neu symud tuag at waith. Dyrannwyd cyfran o'u cyllid i bob ardal gyflenwi ar ffurf Cronfa Rwystrau; fel arfer, roedd hyn ar gyfartaledd rhwng £20,000 ac £30,000 y flwyddyn fesul ardal gyflenwi.

3.7 Roedd pob ardal gyflenwi a nodwyd wedi penodi o leiaf ddau aelod o staff[10] (dau Frocer/Mentor) i weithredu Rhaglen Esgyn. Roedd y cwota staffio ar y cyfan yn gyfwerth â'r adnoddau ariannol oedd ar gael ac yn seiliedig ar y dybiaeth bod y lefel hon o adnoddau staffio yn ddigonol i gyflenwi Rhaglen Esgyn, er bod risg y galli hynny ddod i ben pe byddai aelodau staff ddim ar gael.

*Rheoli a Llywodraethu'r Rhaglen*

3.8 Rheolwyd y gwaith o weithredu'r Rhaglen gan ddau aelod o staff Llywodraeth Cymru (gyda chymorth rheolwr llinell) a chyda chymorth gweinyddol ychwanegol ar y dechrau. Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen,[11] a oedd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, i roi gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i'r tîm yn y meysydd canlynol:

- materion a risgiau strategol a thrawsbynciol a allai effeithio ar y Rhaglen
- effeithiolrwydd y cyfathrebu
- i ba raddau yr oedd trefniadau llywodraethu yn ddigonol a chywir
- cyflawni'r deilliannau a'r buddion
- datrys materion strategol a gweithredol o safbwynt strategol.

**Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Rhaglen Esgyn**


*Y Model Gweithredu*

3.9 Roedd model Esgyn yn ddull oedd â phum cam iddo ac wedi'i greu ar sail cymorth unigol a hyblyg a oedd yn bennaf yn gefnogaeth un-i-un. Roedd y model yn rhoi modd i gyfranogwyr symud ymlaen yn gyflym neu i elwa o gymorth dwysach ar hyd cyfnod hirach os oedd rhwystrau ac anghenion mwy sylweddol.

[10] Recriwtiwyd trydydd brocer/mentor ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Chaerdydd.
[11] Bwrdd Gweithredu Esgyn – Cylch Gorchwyl

Mae Ffigwr 3.1 yn amlinellu'r model gweithredu a gyflwynir yn y cynllun busnes ac, er bod pob ardal gyflenwi wedi addasu'r model hwn i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol, parhau'n gyson fwy neu lai ledled yr holl ardaloedd wnaeth y prif gamau o ran atgyfeirio ac ymgysylltu, meithrin ymddiriedaeth, cynllunio'r gweithredu (yn ei ystyr ehangaf), a symud tuag at gyflogaeth ac yna yn y pen draw cael cyflogaeth gynaliadwy. Mae'r paragraffau dilynol yn crynhoi casgliadau Cam 2 y gwerthusiad a oedd wedi adolygu'r dull o weithredu Esgyn ym mhob ardal gyflenwi.

**Ffigwr 3.1: Y Model Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Esgyn[12]**




*Ymgysylltu/Atgyfeirio*

3.10 Gwelwyd yn ail gam y gwerthusiad hwn[13] fod dyluniad Esgyn yn dibynnu'n drwm ar atgyfeiriadau gan sefydliadau eraill. Roedd y berthynas ag asiantaethau atgyfeirio allweddol, megis y Canolfannau Byd Gwaith lleol, Clystyrau CyG a CaW yn dibynnu'n drwm ar lwyddiant y Rhaglen yn ymgysylltu â chyfranogwyr. Fodd bynnag, canfuwyd bod nifer yr atgyfeiriadau yn dibynnu ar gysylltiadau unigol, a hynny'n amrywio'n fawr rhwng y Canolfannau Gwaith gwahanol yn ogystal â rhwng yr Hyfforddwyr Gwaith gwahanol.

[12] Llywodraeth Cymru (2013), *Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith - Briff* Llywodraeth Cymru.
[13] http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-lift-programme/?lang=cy

3.11 Ffactor arall a welwyd oedd yn helpu'r ymgysylltu ac atgyfeiriadau oedd y ffaith fod Esgyn wedi'i lleoli yn y gymuned. Pan oedd timau Esgyn yn rhan o gyfleusterau a gynigiai ystod o wasanaethau ac wedi'u lleoli mewn mannau amlwg gyda nifer fawr o bobl yn cerdded heibio, gwelwyd mai hwy oedd yn elwa fwyaf o ymgysylltu ad hoc trwy gael pobl yn galw heibio neu'n hunanatgyfeirio.

*Meithrin Ymddiriedaeth*

3.12 Canfu ymchwil a wnaed ar gyfer Cam 2 hefyd yr ystyrid bod meithrin ymddiriedaeth yn hanfodol i lwyddiant y Rhaglen a soniodd pob mentor fod hynny'n flaenoriaeth iddynt wrth greu cyswllt cychwynnol â chyfranogwyr. Teimlid bod y cysylltiad â Chlwstwr, y diffyg cysylltiad â darpariaeth gwasanaethau prif ffrwd, a natur wirfoddol yr ymgysylltu oll o gymorth yn hyn o beth.

3.13 Roedd mynd ati i ddatblygu ymddiriedaeth hefyd yn gyson iawn â'r arfer o ddefnyddio dull o ganolbwyntio ar yr unigolyn. O safbwynt cyfranogwr, canfu'r ymchwil ar gyfer Cam 2 fod hyn yn cael ei werthfawrogi, ac felly hefyd allu'r Mentoriaid i ymwneud â hwy mewn ffordd anffurfiol.

*Cynllunio Gweithredu*

3.14 Mewn rhai ardaloedd, gwelwyd bod cynlluniau gweithredu yn elfen ganolog o fodel cyflenwi Esgyn; mewn ardaloedd eraill, roedd yn elfen fwy ymylol. Teimlai rhai Mentoriaid ei fod yn rhoi gormod o bwysau ar gyfranogwyr, tra bod eraill yn teimlo ei fod yn hanfodol er mwyn nodi amcanion. Dywedodd sawl ardal fod rhywfaint o hyblygrwydd ym mhwysigrwydd y broses o gynllunio gweithredu (yn dibynnu ar sefyllfa'r cleient) gyda llai o bwyslais ar gynllunio gweithredu wrth ymgysylltu â'r rheiny oedd bellaf o'r farchnad lafur ac oedd â rhagor o rwystrau i gyflogaeth).

*Cyfleoedd Hyfforddiant a Chyflogaeth*

3.15 Roedd cyfranogwyr Rhaglen Esgyn yn aml angen cefnogaeth am 12 mis neu fwy i'w helpu i symud ymlaen tuag at gyflogaeth. Canfu adroddiad Cam 2 fod y cyfranogwyr hyn yn aml wedi'u cyfyngu gan nifer o rwystrau i gyflogaeth. Roedd tystiolaeth fod integreiddio â darpariaethau lleol eraill wedi galluogi'r Mentoriaid i froceru i systemau cymorth eraill, ehangach pe byddai blaenoriaethau / rhwystrau uniongyrchol angen eu datrys cyn y byddai modd archwilio cyfleoedd gwaith, hyfforddiant neu wirfoddoli.

3.16 Yn ôl yr hyn a ganfu Cam 2, unwaith y byddai'r cyfranogwyr mewn sefyllfa i symud tuag at gyflogaeth, byddai'r ardaloedd cyflenwi yn sefydlu llwybrau addas i gyflogaeth a hyfforddiant. Ardaloedd oedd yn fwy anghysbell yn ddaearyddol, neu â chyfyngiadau hygyrchedd, oedd y rhai oedd yn fwyaf tebygol o sôn am heriau wrth ganfod cyfleoedd addas i'w cyfranogwyr.

3.17 Rhoddwyd gwerth mawr ar y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol yn y mannau hynny lle buont yn arwyddocaol a rhaglenni eraill yn ôl y sôn yn eiddigeddus ohonynt. Fodd bynnag, tueddent i fod yn fwyaf amlwg yn yr ardaloedd mwyaf hygyrch lle, yn baradocsaidd, roedd cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth lleol i'w cael fynychaf. Gwelwyd bod hyn yn arwain at sefyllfa lle roedd rhai ardaloedd yn teimlo'n orlawn â chyfleoedd, gydag ofn cysylltiedig y byddai llawer yn parhau heb eu llenwi, tra bod ardaloedd eraill yn wynebu heriau wrth ganfod nifer ddigonol o gyfleoedd addas i'w cyfranogwyr.

*Cyflogaeth Gynaliadwy: Cymorth Ar Ôl Cael Gwaith*

3.18 Yn ôl ymchwil a wnaed ar gyfer Cam 2, nid oedd y cymorth i gyfranogwyr ar ôl iddynt gael lleoliad gwaith ac/neu gyflogaeth wedi'i ddiffinio, yn rhannol o ganlyniad i heriau cysylltu â chyfranogwr ar ôl iddynt gael eu swyddi. Canfuwyd bod cyfyngiadau oedd yn gysylltiedig â chapasiti wedi dylanwadu ar faint o gefnogaeth ôl-gyflogaeth a roddwyd trwy'r Rhaglen i gyfranogwyr Esgyn a chyflogwyr lleol.

**Sail Resymegol dros yr Ymyrraeth**

3.19 Mae trechu tlodi yng Nghymru wedi bod yn un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cymru. Yn 2012, roedd mwy nag un aelwyd mewn pump (21.5 y cant) yng Nghymru oedd â rhywun o oedran gweithio ynddi heb waith (o'i gymharu â 18.1 y cant ledled y Deyrnas Unedig); roedd hyn yn cyfateb i fwy na 200,000 o aelwydydd ledled y wlad.[14]

3.20 Roedd y dystiolaeth oedd ar gael ar lefel awdurdodau lleol yn ystod dechrau Rhaglen Esgyn yn dangos fod diweithdra wedi'i ddosbarthu'n anwastad oherwydd, yn ôl data 2012, roedd ymron un o bob tri o bob cartref ym Mlaenau Gwent (lle mae 23 y cant o LSOAs[15] yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig) heb waith, o'i gymharu â llai nag un o bob saith aelwyd yn Sir Fynwy (lle nad oes

[14] Llywodraeth Cymru, *Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd, 2012* - Bwletin Ystadegol, 4 Medi 2013
[15] Fel arfer mae LSOAs - sef ardaloedd cynnyrch ehangach haen is - yn ardaloedd lleol sydd â phoblogaeth breswyl o tua 1,500

unrhyw ardal yn yr awdurdod ymysg y 10 y cant mwyaf difreintiedig). Ymhellach, ar lefel y gymdogaeth, amcangyfrifwyd bod bron i ddau draean yr aelwydydd ag oedolion o oedran gweithio yn rhai heb waith mewn rhai cymdogaethau yn ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.[16]

3.21 Mae twf aelwydydd un oedolyn wedi cael cryn effaith ar nifer a chyfradd yr aelwydydd heb waith yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o'r garfan hon yn cynnwys oedolion sengl heb blant; ond mae hefyd yn cynnwys oedolion sengl sydd â phlant. Er nad oes data ar gael sy'n benodol i Gymru, awgryma ystadegau'r Deyrnas Unedig bod o leiaf dau draean y plant mewn cartrefi heb waith yn byw gyda rhiant unigol.[17]

3.22 Mae Esgyn yn targedu aelodau aelwydydd sydd wedi bod heb waith ers chwe mis neu fwy oherwydd byddai'n debygol y bydd cyfnodau hwy o fod heb waith yn cynyddu'r siawns o brofi tlodi ac amddifadedd dwys a pharhaus, iechyd a llesiant gwael, a'r arfer o drosglwyddo risgiau ac anfanteision penodol o'r naill genhedlaeth i'r llall.

3.23 Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor yn gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau niweidiol, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn amddifadedd materol, dirywiad mewn lles meddyliol a chorfforol (cyfrannu at lefelau uwch o straen ac iselder), dileu cefnogaeth gymdeithasol, ac allgáu cymdeithasol ehangach, sydd gyda'i gilydd yn gallu lleihau'r tebygolrwydd o ddod o hyd i swydd gyflogedig ac aros ynddi.[18]

**Bwrw golwg eto ar y Rhesymeg**

3.24 Yn y blynyddoedd diwethaf, er bod cyfran amcangyfrifedig yr aelwydydd y credir eu bod yn ddi-waith yng Nghymru wedi gostwng o 21.6 y cant yn 2012 i 17.8 y cant yn 2016,[19] parhau y mae'r gwahaniaethau mawr yn lleol yng nghyfradd yr aelwydydd di-waith (Ffigwr 3.2 drosodd).


[16] Dadansoddi data Cyfrifiad 2011 gan y Tîm Cymunedau yn Gyntaf yn Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011 yn seiliedig ar gyfran yr aelwydydd lle nad oedd unrhyw oedolyn (dros 15 oed) mewn cyflogaeth yn y cartref yn ôl ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA)

[17] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Teuluoedd yn y Farchnad Lafur / Families in the Labour Market, Arolwg o'r Llafurlu / Labour Force Survey*; ONS

[18] Crowther et al. (2000) 'Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review', BMJ http://www.bmj.com/content/322/7280/204


[19] Ystadegau Cymru (2017) *Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd, 2017*, cyheoddwyd 13 Rhagfyr 2017, Llywodraeth Cymru.

**Ffigwr 3.2: Canran yr Aelwydydd Heb Waith yng Nghymru yn ôl ardal Awdurdod Lleol (2012 a 2016)[20]**




3.25 Dengys tueddiadau mewn diweithdra ledled Cymru batrymau gostyngiad tebyg, gyda'r gyfradd yn gostwng o 8.7 y cant o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio yn chwarter cyntaf 2013 i 4.2 y cant ym mis Mehefin-Awst 2017; fodd bynnag ers hynny mae tystiolaeth yn dod i'r fei fod y gyfradd yn dechrau dringo unwaith eto.

**Ffigwr 3.3: Cyfradd Diweithdra (ILO) pobl 16 i 64 mlwydd oed[21]**




[20] Ibid.
[21] Arolwg o'r Llafurlu – data cenedlaethol (wedi'i addasu ar gyfer tymhorau) cyfartaledd pedwar chwarter o Ionawr 2013 i fis Tachwedd 2017– wedi'u codi o wefan Nomis: https://www.nomisweb.co.uk/

3.26 Pan ddadansoddir nifer yr unigolion sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith (sef mesur diweithdra yn y ffordd hanesyddol yn ôl nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau), daw'n amlwg rhwng Ionawr 2013 a Mawrth 2017[22] fod y nifer oedd yn hawlio lwfans ceisio gwaith wedi gostwng dros 65 y cant. Fodd bynnag, pan fydd hyd y cyfnod y mae'r hawlydd wedi hawlio'r lwfans ceisio gwaith yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, mae'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y rhai sy'n hawlio'r lwfans yn cuddio amrywiad mewn perfformiad. Dengys Tabl 3.3, er bod cyfanswm nifer yr hawlwyr wedi gostwng 65 y cant, mae nifer yr hawlwyr lwfans ceisio gwaith sydd wedi hawlio am hirach na phum mlynedd wedi cynyddu 604 y cant dros yr un cyfnod.

**Tabl 3.3: Newid yn nifer yr Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn ôl hyd hawlio[23]**


| | Nifer yr hawlwyr Ionawr 2013 | Nifer yr hawlwyr Mawrth 2017 | Canran y newid i nifer yr hawlwyr – Ionawr 13-Mawrth 17 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr hawlwyr | 81,329 | 28,328 | -65% |
| Y cyfanswm yn hawlio JSA am dros 6 mis | 33,545 | 13,670 | -59% |
| Y cyfanswm yn hawlio JSA am fwy na 2 flynedd | 7,935 | 5,525 | -30% |
| Y cyfanswm yn hawlio JSA am fwy na 5 mlynedd | 275 | 1,935 | +604% |

3.27 Mae Ffigwr 3.4 isod yn dangos sut mae'r amrywiad hwn mewn perfformiad wedi dylanwadu ar gyfran y nifer sy'n hawlio JSA yn ôl hyd y cyfnod maent wedi hawlio, gan ddangos cynnydd yn y nifer oedd wedi hawlio ers mwy na phum mlynedd – sef cynnydd o 0.3 y cant o'r holl hawlwyr ym mis Ionawr 2013 i 6.8 y cant o'r hawlwyr ym mis Mawrth 2017.

[22] (pan fo dylanwad y newid i Gredyd Cyffredinol o'r pwynt hwnnw ymlaen, ystyria'r ONS ei fod o bosibl yn gynrychiolaeth gamarweiniol o'r farchnad lafur) https://www.ons.gov.uk/news/statementsandletters/publicationarrangementsfortheclaimantcount adalwyd ar - 03/11/17

[23] Cyfraddau Lwfans a Data Cyfrannau Ceisiwyr Gwaith ONS – wedi'u codi o wefan Nomis: https://www.nomisweb.co.uk/

**Ffigwr 3.4: Nifer Hawlwyr JSA yn ôl hyd hawlio fel canran o gyfanswm Hawlwyr JSA**[24]




### Tlodi mewn Gwaith

3.28 Er bod cyfraddau diweithdra a chyfraddau'r aelwydydd sydd heb waith yn parhau i ostwng, mae'n amlwg bod y rheiny sydd mewn tlodi yn gynyddol yn byw ar aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio. Yn 2014, roedd 67 y cant o blant mewn tlodi incwm ledled y Deyrnas Unedig yn byw ar aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn gweithio, sydd yn gynnydd o'r gyfradd o 54 y cant yn 2003. [25] Amcangyfrifir y byddai dileu'r holl aelwydydd sydd heb waith (ar sail ffigyrau 2014-15) yn lleihau tlodi incwm mewn aelwydydd sydd â phlant o 28 y cant i 23 y cant[26] yn unig, gan awgrymu bod angen i bolisi symud tuag at ansawdd swyddi, cyflogau ac oriau cyflogaeth.

3.29 Yn y cyd-destun hwn, roedd Rhaglen Esgyn yn rhoi cryn bwyslais ar ansawdd y swyddi a gaed i gyfranogwyr (yn benodol drwy froceru cyfleoedd gwaith yn genedlaethol). Roedd hefyd yn annog cynnig cymorth yn y gwaith i gyfranogwyr ar ôl iddynt gael cyfleoedd gwaith.

[24] Ibid.
[25] Belfield, C. et al. (2016) *Living standards, poverty and inequality 2016*, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.
[26] Ibid.

3.30 O ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf, mae rhesymeg glir dros Esgyn fel polisi ymyrraeth; roedd yn ceisio lleihau diweithdra mewn ardaloedd o amddifadedd gan fod â'r nod o ddarparu cyfleoedd cyflogaeth o safon, a thrwy hynny fynd i'r afael â'r cynnydd mewn tlodi mewn gwaith sydd i'w weld ledled y Deyrnas Unedig.

**Y Diweddaraf am Bolisïau**

3.31 Mae mynd i'r afael â thlodi yn parhau i fod yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru. Ers etholiad Llywodraeth Cymru yn 2016, mae'r ymateb polisi wedi'i osod yn y *Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen,*[27] sydd am sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac yn weithgar, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig ac yn gysylltiedig. Mae *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* yn symud yr ymrwymiadau hynny ymlaen trwy bum blaenoriaeth drawsbynciol sydd wedi codi i fod â'r cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant a lles hirdymor, sef Blynyddoedd Cynnar, Tai, Gofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl, ac efallai y mwyaf perthnasol i Raglen Esgyn, Sgiliau a Chyflogadwyedd. Ymrwymodd y strategaeth i gyhoeddi "cynllun cyflogadwyedd" newydd i Gymru, un sy'n canolbwyntio ar anghenion amrywiol unigolion, ac yn ymatebol i anghenion sgiliau penodol pob rhan o'r wlad, cyhoeddwyd hwn ar 20 Mawrth 2018.[28] At hynny, mae'r gwerthusiad integredig yn rhoi pwyslais ar y strategaeth genedlaethol trwy ddarparu:

> 'gwasanaeth allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y bobl hynny sy'n wynebu nifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio. Byddwn yn sefydlu dull cyffredin o nodi anghenion yr unigolyn a fydd yn rhan o ffordd newydd o weithredu ym maes cyflogadwyedd, gan adnabod yr unigolion hynny y mae arnynt angen cymorth cyflogaeth mor gynnar â phosibl a chan sicrhau bod y broses atgyfeirio yn un ddi-dor ac yn llai brawychus i bobl.'[29]

[27] Rhaglen Lywodraethu, gwefan Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy
http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?lang=cy
[28] Llywodraeth Cymru (2017) 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol – Symud Cymru Ymlaen', Llywodraeth Cymru
[29] Llywodraeth Cymru (2017) 'Arfarniad Integredig Strategol – Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol', Llywodraeth Cymru

3.32 Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd yr Ysgrifennydd dros Gymunedau a Phlant gynlluniau ar gyfer dull newydd o adeiladu cymunedau gwydn a oedd yn canolbwyntio ar gyflogaeth, y blynyddoedd cynnar a grymuso. Ar yr un pryd, cyhoeddodd ei benderfyniad i ddiddymu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol.

3.33 I hwyluso'r diddymu graddol ar Cymunedau yn Gyntaf, rhoddwyd cyllid ar gyfer 70 y cant o ddyraniad blwyddyn ariannol 2016/17 i raglen CyG tan fis Mawrth 2018 ochr yn ochr â chronfa etifeddiaeth o £6m y flwyddyn a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2018 i alluogi rhai o brosiectau mwyaf effeithiol y rhaglen i barhau.

3.34 Yn ychwanegol, cyhoeddwyd lansio grant cyflogadwyedd newydd o £12 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r rhai hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn cael ei gynllunio i adeiladu ar y dysgu o raglenni Esgyn, Cymunedau am Waith a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Bydd y grant yn galluogi awdurdodau lleol i wella'r gefnogaeth sydd wedi'i thargedu at y bobl hynny sy'n aml yn wynebu rhwystrau cymhleth ac sydd bellaf o'r farchnad lafur. Yn wahanol i Esgyn a Chymunedau yn Gyntaf, bydd y grant yn galluogi cefnogaeth y tu hwnt i ffiniau daearyddol sydd â diffiniadau llym, gan fod hynny wedi'i ystyried yn gyfyngiad yn y ddarpariaeth bresennol. Bydd Cymunedau am Waith a Mwy hefyd yn bwydo i 'gynnig cyflogadwyedd' ehangach Llywodraeth Cymru (y rhaglen cyflogadwyedd a sgiliau newydd) dan arweiniad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

3.35 Bydd y rhaglen cyflogadwyedd a sgiliau newydd 'Cymru'n Gweithio' yn cynnwys tair elfen i'w gweithredu o fis Ebrill 2019, gan weithio gydag oedolion y gellid disgwyl iddynt ddychwelyd i weithio o fewn 12 mis, sef Oedolion (18 oed neu hŷn), Ymgysylltu ag Ieuenctid (16-17 oed sydd bellaf o'r farchnad lafur) a Hyfforddi Ieuenctid (16-17 oed sy'n nes at y farchnad lafur). Mae'n cyfuno nifer o raglenni presennol, sef ReAct III, Twf Swyddi Cymru II, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd a Hyfforddeiaethau, a bydd yn gweithio ochr yn ochr â Chymunedau am Waith yn ogystal â Chymunedau am Waith a Mwy. Caiff elfennau o'r dull ei dreialu yn ardal Tasglu'r Cymoedd.

# 4. Perfformiad y Rhaglen – Effeithiolrwydd y Model Gweithredu

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r adran hon yn adolygu perfformiad Rhaglen Esgyn ac yn ystyried yr adborth o'r cylch diweddaraf o gyfweliadau â'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud â goruchwylio, rheoli a gweithredu'r Rhaglen ochr yn ochr â dadansoddi gwybodaeth rheoli'r Rhaglen ac arolygon y cyfranogwyr.

## Proffiliau'r Cyfranogwyr

4.2 Mae gwybodaeth rheoli Rhaglen Esgyn yn nodi bod 3,375 o gyfranogwyr wedi ymwneud yn weithredol â'r Rhaglen. Mae Tabl 4.1 isod yn cyflwyno dadansoddiad o broffil y cyfranogwyr hyn. Mae'n dangos bod mwy o ddynion na merched wedi bod yn rhan o'r Rhaglen ledled y mwyafrif o'r ardaloedd cyflenwi a bod yna hefyd gryn dipyn o wahaniaeth wrth ddadansoddi'r rhywiau rhwng yr ardaloedd cyflenwi. Yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, roedd bron i ddwy ran o dair o'r cyfranogwyr (63 y cant) yn ddynion, o'i gymharu â dim ond 43 y cant yng Nghaerffili. Mae proffil oedran y cyfranogwyr yn dangos bod pobl 25 oed neu hŷn yn cynrychioli pedwar o bob pump o'r cyfranogwyr, ond yn RhCT, roedd cyfran y cyfranogwyr rhwng 16 a 24 oed yn fwy na thraean (35 y cant) o holl gyfranogwyr Esgyn.

**Tabl 4.1: Dadansoddiad Demograffig Cyfranogwyr Rhaglen Esgyn yn ôl Ardal Gyflenwi[30]**

| Ardal | Nifer y Cyfranogwyr | Rhyw: Dynion | Rhyw: Menywod | Oed 16-24 | Ethnigrwydd Gwyn Prydeinig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwm Afan | 327 | 61% | 39% | 22% | 99% |
| Ynys Môn | 321 | 55% | 45% | 25% | 99% |
| Ebwy Fawr a Thredegar | 520 | 58% | 42% | 22% | 96% |
| Basn Caerffili a Chwm Rhymni Uchaf | 470 | 43% | 57% | 23% | 98% |
| Dwyrain Caerdydd | 533 | 51% | 49% | 14% | 86% |
| Llanelli | 352 | 64% | 36% | 11% | 88% |
| Dwyrain a Gorllewin Sir y Fflint | 271 | 58% | 42% | 16% | 97% |

[30] Llywodraeth Cymru: Data Olrhain Cyfranogwyr (cronnus) hyd at Chwarter 1, 2017/18. Cyfeiriwyd at ardaloedd cyflenwi trwyddi draw yn ôl yr Awdurdodau Lleol y maent wedi'u lleoli ynddynt.

| Ardal | Nifer y Cyfranogwyr | Rhyw | | Oed | Ethnigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dynion | Menywod | 16-24 | Gwyn Prydeinig |
| Gorllewin Taf | 218 | 50% | 50% | 36% | 100% |
| Gogledd-orllewin Abertawe | 363 | 52% | 48% | 25% | 89% |
| **Cyfanswm** | **3,375** | **54%** | **46%** | **21%** | **94%** |


4.3 Disgrifiodd 79 y cant o gyfranogwyr Esgyn eu hunain i fod yn sengl (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr o 35 y cant).[31] Roedd y gweddill yn cyd-fyw (13 y cant), wedi priodi (7 y cant) neu mewn partneriaeth sifil (1 y cant). Mae statws priodasol a threfniadau byw cyfranogwyr Esgyn o ddiddordeb oherwydd i fod yn gymwys i'r Rhaglen rhaid oedd i'r cyfranogwr fod yn byw ar aelwyd ddi-waith. Mae ymchwil[32] wedi nodi mai un o'r prif ddylanwadau ar gyfanswm nifer yr aelwydydd di-waith yw'r cynnydd mewn cartrefi ag un person yn byw ynddynt gyda thystiolaeth o 2010 yn awgrymu bod 43 y cant o aelwydydd un rhiant a 31 y cant o aelwydydd ag un oedolyn heb blant dibynnol yn aelwyd heb waith, o'i gymharu ag 16 y cant o'r holl aelwydydd o oedran gweithio.[33] Roedd arolwg y cyfranogwyr hefyd yn holi ynghylch statws aelwydydd yr ymatebwyr; yn ystod y cyfweliad cyntaf, dywedodd 32 y cant (51/157) o ymatebwyr eu bod yn byw ar eu pennau eu hunain, a hynny'n codi i 35 y cant (55/157) o ymatebwyr yn ystod yr ail gyfweliad, tra bod 28 y cant yn dweud eu bod yn byw gyda phartner neu fel rhan o deulu. Disgrifiodd 17 y cant (27/157) eu hunain yn rhiant sengl/gofalwr. Mae'n bosib felly fod y meini prawf cymhwyster yn anfwriadol wedi ffafrio'r rhai a oedd yn byw ar eu pen eu hunain.

4.4 Mae Ffigwr 4.1 isod yn dadansoddi faint o amser y bu cyfranogwyr Esgyn yn ddi-waith cyn ymuno â'r Rhaglen. Dengys y ffigwr nad oedd 10 y cant o holl gyfranogwyr Esgyn erioed wedi gweithio a bod 60 y cant o'r cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith ers dros ddwy flynedd. Mae rhywfaint o amrywiant yn amlwg ledled pob ardal gyflenwi; er enghraifft, yng Nghaerffili roedd 56 y cant o'r cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith ers o leiaf bum mlynedd (neu nid oeddent erioed wedi gweithio o gwbl), ond yng Nghastell-nedd Port Talbot roedd dros

[31] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl statws priodasol a threfniadau byw, Cymru a Lloegr 2016 (Gorffennaf 2017).
[32] Ibid.
[33] http://www.poverty.org.uk/50/index.shtml - yn seiliedig ar ddadanosddi'r Arolwg o'r Llafurlu (2011)

hanner y cyfranogwyr (55 y cant) wedi bod yn ddi-waith ers rhwng chwe mis a blwyddyn.


**Ffigwr 4.1: Hanes Cyflogaeth Cyfranogwyr Esgyn ar adeg eu cofrestru[34]**




4.5 Mae Ffigwr 4.2 isod yn dadansoddi lefelau cymwysterau uchaf cyfranogwyr Esgyn ar adeg eu cofrestru. Ar draws y Rhaglen gwelir bod tua thraean o’r cyfranogwyr (31 y cant) yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau, tra bod gan ddwy ran o dair gymwysterau Lefel 1 NQF neu is. Mae lefelau cymwysterau cyfartalog y boblogaeth oedran gweithio ledled Cymru hefyd wedi’u cynnwys i gymharu. Ystyrir yn gyffredinol mai NQF Lefel 2 yw’r targed gwaelodol ar gyfer sgiliau sylfaenol ymhlith oedolion ac, o gofio mai dim ond un rhan o dair o gyfranogwyr Esgyn a oedd wedi cyrraedd y lefel hon, ymddengys fod y Rhaglen wedi bod yn hynod effeithiol wrth ymgysylltu â’r cyfranogwyr oedd â’r rhwystrau mwyaf arwyddocaol i sicrhau cyflogaeth, yn enwedig wrth groesgyfeirio yn erbyn data ynghylch hyd bod yn ddi-waith.

[34] Llywodraeth Cymru: Data Olrhain Cyfranogwyr (cronnus) hyd at Chwarter 1, 2017/18

**Ffigwr 4.2: Lefelau Cymwysterau (Cyfwerth ag NQF) Cyfranogwyr Esgyn ar adeg Cofrestru[35][36]**




**Ymgysylltu â'r Rhaglen Esgyn**


*Atgyfeiriadau a Llwyth Achosion*

4.6 Cyfeiriodd Mentoriaid at ostyngiad mewn atgyfeiriadau ac, o ganlyniad, llwyth achosion ysgafnach ar draws yr holl ardaloedd cyflenwi yn y misoedd yn arwain at y cyfweliadau yn ystod haf 2017. Mae dadansoddiad o'r llwyth achosion cronnus ar gyfer y Rhaglen i'w gael yn Ffigwr 4.3 isod ac mae'n dangos peth tystiolaeth o hyn (gyda'r cynnydd mwyaf yn nifer y cyfranogwyr yn ymgysylltu yn hydref 2015 cyn cael gostyngiad yn 2016 a gostyngiad pellach yng ngwanwyn 2017). Roedd ymdeimlad ymhlith y rhan fwyaf o'r ardaloedd cyflenwi fod y prif reswm dros y gostyngiad yn y niferoedd yn ymwneud â'r ffaith fod Cymunedau am Waith (CaW) wedi dod yn gynyddol weithgar yn yr ardaloedd targed. Mewn rhai lleoliadau, roedd canfyddiad bod y Ganolfan Byd Gwaith yn atgyfeirio yn uniongyrchol i'w staff eu hunain ar CaW yn hytrach nag i Esgyn. Soniodd sawl lleoliad hefyd at gyflwyno'r model Brysbennu a oedd yn gysylltiedig â rhaglen

[35] Ibid.
[36] Ffigyrau cyfartalog ar gyfer Cymru yn deillio o gyfartaledd pedwar chwarter yn yr arolwg blynyddol ar y boblogaeth Ion-Rhag 2016 – wedi'u codi o wefan Nomis www.nomisweb.co.uk

CaW, gan deimlo bod hyn wedi gwthio Rhaglen Esgyn i'r ymylon ac arwain at atgyfeiriadau yn cael eu hailgyfeirio fwyfwy oddi wrth ddarpariaeth Esgyn i CaW. Wedi dweud hynny, nid oedd hynny'n wir bob tro gan fod ardaloedd cyflenwi eraill wedi datblygu cydweithio llwyddiannus gyda CaW a'r model Brysbennu yn enwedig.

**Ffigwr 4.3: Tueddiadau yn Llwyth Achosion Cynyddol Cyfranogwyr wedi'u hatgyfeirio i Raglen Esgyn[37] dros amser[38]**




4.7 Roedd disgwyl i'r gwaith o gyflwyno model Brysbennu fod o fudd i Raglen Esgyn yn ogystal â CaW trwy ddod yn llwybr atgyfeirio allweddol i'r Rhaglen. Fodd bynnag, cymerodd prosesau CaW fwy o amser i sefydlu'n effeithiol nag a ragwelwyd a hynny wedi arwain at ddiffyg cysondeb rhwng yr ardaloedd cyflenwi.

4.8 Er gwaethaf y problemau a grybwyllir uchod, dylid nodi, mewn sawl ardal gyflenwi, yr ystyrid bod cyflwyno CaW wedi gwella'r arlwy bresennol trwy roi modd i'r ddarpariaeth ymateb i gasgliad ehangach, mwy amrywiol o anghenion cyfranogwyr. Hwyluswyd hyn trwy weithredu'r system brysbennu yn effeithiol, gan arwain at atgyfeirio cleientiaid at naill ai CaW neu Esgyn yn dibynnu ar natur eu hanghenion ac/neu ofynion cymorth. Dywedodd Mentoriaid fod cael Rhaglen Esgyn a CaW ar gael wir wedi cryfhau ehangder yr hyn a gynigid i'r cyfranogwyr, gan gynnwys trwy godi nifer y cyfranogwyr a fynychai, ac felly'r galw am,

[37] Mae'r siart hwn yn cynnwys unigolion a gafodd eu hatgyfeirio ac a gofrestrodd ar Raglen Esgyn ond a wnaeth wedyn adael cyn manteisio ar gyfle, felly mae'r cyfanswm yn fwy na'r 3,375 o gyfranogwyr a gymerodd ran weithredol yn Rhaglen Esgyn (fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon
[38] Gwybodaeth Reoli Llywodraeth Cymru – Data Canlyniadau.

ddarpariaeth hyfforddiant trwy dynnu ar gyfranogwyr o'r ddau gynllun, a hynny'n rhoi grŵp digon o faint i'r hyfforddiant ddigwydd.

4.9 Yn holl ardaloedd gweithredu Esgyn, waeth beth oedd yr ymdeimlad ynghylch effeithiolrwydd proses Brysbennu neu faint o gydweithrediad a gafwyd â CaW, roedd yr atgyfeiriadau yn dangos tuedd ar i lawr, a hynny'n wir hefyd (yn ôl Mentoriaid Esgyn a'r Rheolwyr Clwstwr) yn achos CaW. Teimlai rhai fod y gostyngiad yn y niferoedd o bosibl yn adlewyrchu lefel lai (lefelau is o ddiweithdra) yn y farchnad lafur.


4.10 Wrth ystyried yr adborth o bob ardal gyflenwi, pan oedd Rhaglen Esgyn wedi integreiddio'n agos â thîm Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf mae'n amlwg yn y mwyafrif o achosion fod gweithredu CaW wedi gwella cynnig Esgyn. Mewn sefyllfaoedd pan oedd Rhaglen Esgyn wedi'i hintegreiddio'n llai effeithiol, roedd cyflwyno CaW fel arfer wedi chwyddo'r gwahaniaethau hynny.

4.11 Mewn rhai achosion, roedd y gostyngiad cyffredinol yn nifer yr atgyfeiriadau wedi golygu bod timau Esgyn wedi cynyddu eu recriwtio rhagweithiol, uniongyrchol i gael cyfranogwyr, a hynny'n aml trwy ddulliau arloesol. Disgrifiodd un ardal, er enghraifft, y llwyddiant a gawsant yn gweithio gydag ysgolion i dargedu rhieni disgyblion di-waith yn yr ysgol trwy Weithwyr Cefnogi Teuluoedd, sef llwybr atgyfeirio a ystyrid yn ddibynadwy fel arfer, tra bod ardal arall wedi ceisio ailsefydlu cysylltiadau â sefydliadau atgyfeirio traddodiadol arall i leihau eu dibyniaeth ar Brysbennu. Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, roedd y recriwtio uniongyrchol a'r dulliau arloesol wedi'u cyfyngu gan adnoddau staff prin.

*Ymwybyddiaeth o Raglen Esgyn ymysg y Cyfranogwyr*

4.12 Mae Ffigwr 4.4 isod yn dadansoddi sut mae cyfranogwyr yn cofio dod i wybod am Raglen Esgyn o'r cyfweliadau cyntaf gyda chyfranogwyr ar draws tair ton yr ymchwil. Mae'n dangos cynnydd cyson yn y gyfran sy'n disgrifio'r 'ganolfan waith' fel y llwybr dod i wybod am y Rhaglen ac ymuno â hi, ond mae'r gyfran a ddaeth i wybod am y Rhaglen trwy rywun arall yn sôn amdani wedi gostwng. Mae'r canfyddiadau hyn rhywfaint yn annisgwyl gan fod rhai ardaloedd cyflenwi wedi tybio bod cyfran uwch o atgyfeiriadau o'r Ganolfan Byd Gwaith yn mynd heibio i Esgyn draw i CaW, a disgwylid y byddai 'rhywun wedi sôn' am y Rhaglen wedi cynyddu wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi ac ymsefydlu yn y gymuned.

**Ffigwr 4.4: Sut daethoch chi i wybod am Raglen Esgyn?**




Ffynhonnell: Arolwg dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf) ar gyfranogwyr Esgyn


4.13 Fel rheol roedd cyfranogwyr wedi ymuno â Rhaglen Esgyn yn y gobaith o gael cyflogaeth. Soniodd 40 y cant (163/378) yn benodol at hyn fel y rheswm dros ymgysylltu â'r Rhaglen tra bod bron i draean o'r cyfranogwyr (30 y cant, 112/378) wedi ymgysylltu â'r Rhaglen i ennill sgiliau, a bron i chwarter (24 y cant, 89/378) wedi ymgysylltu â'r Rhaglen yn y gobaith o sicrhau cymhwyster galwedigaethol penodol megis cerdyn CSCS ar gyfer y sector adeiladu – a'r rhain oll wedi'u dylanwadu gan yr awydd i gael gwaith cyflogedig. Dywedodd 12 y cant (45/378) o gyfranogwyr eu bod yn ansicr ynghylch yr hyn yr oeddent yn gobeithio ei gael o Esgyn wrth ymgysylltu â'r Rhaglen.

**Perfformiad hyd yn hyn**

4.14 Mae Ffigwr 4.5 isod yn dilyn perfformiad Rhaglen Esgyn o ran cyflawni canlyniadau cyflogaeth ac mae'n dangos bod y Rhaglen wedi bod ar y blaen i'w phroffil o adeg ei lansio. Dengys hefyd fod cyfradd cyflawni canlyniadau wedi arafu yn ystod y misoedd diwethaf (o bosibl o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer yr

atgyfeiriadau/llwyth achosion a adroddwyd gan Fentoriaid heb sôn am y ffaith ei bod yn hysbys fod y Rhaglen yn dod i ben), gan arwain at gydgyfeirio'r perfformiad tuag at y proffil a ragwelwyd. Er bod y Rhaglen i'w gweld fel petai wedi arafu, cyflawnwyd y targed o ddarparu 5,000 o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant erbyn diwedd 2017 a hynny ddeufis yn gynt na'r proffil. Yn ôl gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd Rhagfyr 2017, roedd cyfanswm o 1,099 o gyfranogwyr Esgyn wedi sicrhau canlyniad cyflogaeth sy'n cyfateb i 32.6 y cant o'r cyfranogwyr hynny a gymerodd ran weithredol yn y Rhaglen.

**Ffigwr 4.5: Canlyniadau Rhaglen Esgyn (Cronnus) 2014-Medi 2017**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli Llywodraeth Cymru – Data Canlyniadau Esgyn

**Canlyniadau llwyddiannus drwy Raglen Esgyn**


4.15 Ar 31 Rhagfyr 2017, roedd 5,174 o ganlyniadau[39] Rhaglen Esgyn wedi'u sicrhau ar gyfer y 3,375 o gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu'n weithredol â'r Rhaglen. Yn Ffigwr 4.6, ceir dadansoddiad o'r canlyniadau hyn a gwelir mai'r canlyniadau a gafwyd amlaf oedd y rhai sy'n gysylltiedig â hyfforddiant galwedigaethol (45 y cant o'r holl ganlyniadau). Disgrifir cyflawni'r canlyniad hwn fel sefyllfaoedd lle, yn ddelfrydol, mae '*ymrwymiad cyflogwr i ddatblygu cynnwys cwrs a chynnal*

[39] Y canlyniadau ar gyfer Rhaglen Esgyn yw: Hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol; Hyfforddiant Galwedigaethol; Lleoliad Gwaith; Paratoi at Gyflogaeth Lawn Amser; ac i Gyflogaeth.

*rhaglenni hyfforddi mewnol sy'n cyd-fynd yn agos â chyfleoedd swyddi penodol a chryn dipyn o gyswllt â'r cyflogwr'.* [40]

4.16 Dengys y ffigwr hefyd fod dros un o bob pump o ganlyniadau (21 y cant) yn ymwneud â sicrhau cyflogaeth. Pan gyfrifir y rhain yn erbyn nifer y cyfranogwyr, mae'n cyfateb i gyfradd symud o 32.6 y cant (1,099/3,375), neu fwy na thri o bob deg cyfranogwr yn sicrhau canlyniad cyflogaeth; mae hyn yn uwch na'r ffigyrau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y Rhaglen Waith[41] o 20.6 y cant o gyfranogwyr yn cael gwaith cyflogedig 12 mis ar ôl yr atgyfeirio cyntaf.[42]

**Ffigwr 4.6: Canlyniadau Rhaglen Esgyn yn ôl Math fel Cyfran o Gyfanswm y Canlyniadau**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli Llywodraeth Cymru – Data Canlyniadau Esgyn

---

[40] Canllawiau Rhaglen Esgyn – Diffinio Cyfleoedd


[41] Lansiwyd y Rhaglen Waith yn 2011 ledled y Deyrnas Unedig a rhoddai gymorth i bobl a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir neu mewn perygl o fod felly. Câi atgyfeiriadau gorfodol i'r Rhaglen Waith eu sbarduno yn dilyn hawlio budd-daliadau yn gysylltiedig â diweithdra dros gyfnod penodol. Cynlluniwyd Rhaglen Esgyn i ganolbwyntio adnoddau ar gyfranogwyr cyn iddynt gael eu hatgyfeirio i'r Rhaglen Waith, neu ar ôl iddynt ei gadael.

[42] Ystadegau'r Rhaglen Waith - https://www.gov.uk/government/collections/work-programme-statistics cyhoeddwyd 21 Medi 2013, adalwyd 22 Chwefror 2018.

### Cyfleoedd a Frocerwyd yn Genedlaethol

4.17 O ran y manylion y tu ôl i'r canlyniadau hyn, yn ystod y 12 mis diwethaf dywedodd nifer o fentoriaid fod nifer y cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a frocerwyd yn genedlaethol (swyddi a phrofiad gwaith ill dau) wedi cynyddu'n sylweddol. Mae dadansoddi'r data monitro wedi cadarnhau hyn, gyda chyfran y canlyniadau o gyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol wedi cynyddu o 8 y cant o'r holl ganlyniadau yn 2014/15 i 15 y cant yn 2016/17 ac yn 2017/18. Mae'r sector iechyd wedi bod yn arbennig o ddylanwadol yn y cynnydd yn nifer y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol, gan gynyddu o 54 yn 2015/16 (4 y cant o'r holl ganlyniadau a 41 y cant o'r holl ganlyniadau a frocerwyd yn genedlaethol) i 108 yn 2016/17 (10 y cant o'r holl ganlyniadau a 65 y cant yr holl ganlyniadau a frocerwyd yn genedlaethol yn y flwyddyn honno) ac 80 am y tri Chwarter cyntaf yn 2017/18 (12 y cant o'r holl ganlyniadau a 71 y cant yr holl ganlyniadau a frocerwyd yn genedlaethol). Wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi, mae canran y canlyniadau a frocerwyd yn genedlaethol a oedd yn gysylltiedig â lleoliad gwaith wedi gostwng o 59 y cant yn 2015/16 i 40 y cant yn 2017/18. Er hynny, mae'r gwahaniaeth rhwng rhai o'r canlyniadau (sef yn benodol paratoi at gyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol a lleoliad gwaith) yn aneglur braidd (cyfeiriodd Mentoriaid hefyd at ddiffyg eglurder ynghylch y gwahaniaeth) ac mae'n debygol fod gweithgareddau tebyg wedi'u pennu i ganlyniadau gwahanol.

**Ffigwr 4.7: Canran y Canlyniadau a frocerwyd yn Genedlaethol yn ôl Math y Canlyniad**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli Llywodraeth Cymru

4.18 Nid yw'r cynnydd mewn cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol yn batrwm sy'n unffurf ar draws pob ardal. Yng Nghwm Afan (Castell-nedd Port Talbot) cododd cyfran y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol o 2 y cant yn 2014/15 i 56 y cant yn 2017/18, tra yn Sir y Fflint fe gododd o 4 y cant yn 2015/16 i 51 y cant yn 2017/18. Fodd bynnag, mae Dwyrain Caerdydd, sef ardal sydd wedi elwa o gyfran fawr o gyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol (yn bennaf oherwydd ei agosrwydd at gyflogwyr perthnasol), wedi gweld cwymp yn nifer y cyfleoedd hyn yn ystod y misoedd diwethaf.

4.19 Wrth archwilio effeithiolrwydd model Esgyn, cynhaliwyd cyfweliadau ffôn lled-strwythuredig ag wyth cyswllt arweiniol mewn sefydliadau a oedd â chyfrifoldeb am ddarparu cyfleoedd i gyfranogwyr Esgyn. Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol i raddau helaeth am Raglen Esgyn a'r rôl y mae wedi'i chwarae wrth hwyluso cysylltiadau â chyflogwyr cenedlaethol megis y GIG a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Roedd ymgysylltiad cychwynnol sefydliadau allweddol a allai gynnig cyfleoedd i gyfranogwyr Esgyn yn cynnwys pwyslais ar osod targedau ar gyfer darparu cyfleoedd cyflogaeth a chanlyniadau eraill.

4.20 Teimlai nifer o ymatebwyr fod gormod o bwyslais wedi bod (ac mewn rhai achosion yn parhau i fod) ar y targedau hyn ac, os caiff y model hwn ei symud ymlaen, dylid mabwysiadu dull mwy soffistigedig o fesur perfformiad a lefelau ymgysylltu. Ar yr adegau pan godwyd hyn fel problem, dywedodd yr ymatebwyr eu bod wedi cynnig nifer y cyfleoedd targed; ond fod nifer y cyfranogwyr yn y Rhaglen a oedd wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn wedi bod yn is na'r disgwyl.

4.21 Ymddengys hefyd (fel y nodwyd mewn sawl ardal ym model Esgyn) fod problemau a oedd wedi codi'n bennaf yn sgil perthynas yn dirywio, sydd unwaith eto yn dangos pwysigrwydd unigolion wrth sicrhau rhaglen lwyddiannus. Roedd hyn yn hollol amlwg o ran hanes un cyflogwr a oedd yn gweithredu ar draws sawl ardal gyflenwi ond oedd wedi llwyddo i raddau amrywiol gyda thimau Esgyn ym mhob ardal. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y cyflogwyr yn falch iawn o'r berthynas yr oedd ganddynt â'u Mentor lleol.

4.22 Dywedodd nifer o'r cyflogwyr eu bod yn teimlo'n barod i'r rhaglen hon oherwydd iddynt gymryd rhan mewn cynlluniau tebyg megis Workways.[43] Mewn rhai achosion, soniodd y cyflogwyr am eu syndod yn y gwahaniaeth yn y cyfranogwyr, ac un ohonynt wedi cyfeirio at y 'newid cam' yn yr heriau a'r rhwystrau a wynebai rhai o gleientiaid Esgyn o'i gymharu ag eraill y daethant ar eu traws ar gynlluniau cyflogadwyedd eraill, a hynny wedi effeithio ar ymgysylltiad cyfranogwyr a'r gefnogaeth iddynt. "*Does dim cymhariaeth* [rhwng Esgyn a chynlluniau cyflogadwyedd eraill a gefnogwyd ganddynt]… *hyd yn oed wrth wneud cwrs cyflogadwyedd fel y gwnaethom ychydig flynyddoedd yn ôl byddem yn disgwyl ciw trefnus o gwmpas yr adeilad…* [ynghylch Esgyn] *wnaeth o ddim digwydd, doedd gan bobl jest mo'r cymhelliant i wneud cwrs hunanhyder er enghraifft, ond os oedd gennych chi'r abwyd hwnnw o swydd ar y diwedd, hwnnw oedd y cymhelliant, hwnnw oedd y ffocws*." Fodd bynnag, disgrifiai pawb y garfan o gyfranogwyr a gefnogwyd ganddynt fel grŵp amrywiol gyda rhai yn llawer agosach at y farchnad lafur nag eraill.

4.23 Pan gâi cyfleoedd eu cynnig, roedd y rhain fel rheol yn amrywio o gyfleoedd blasu profiad gwaith tua phythefnos o hyd i leoliadau profiad gwaith mwy helaeth am wyth wythnos. Roeddynt yn gyfle i gyfranogwyr ymgyfarwyddo ag amgylchedd gwaith a dangos eu galluoedd i gyflogwyr er mwyn ceisio cael swydd fwy parhaol.

4.24 Roedd rhai cyflogwyr, rhai fel arfer yn y sector iechyd, yn gofyn am wiriadau DBS[44] ar gyfer cyfranogwyr Esgyn. Soniodd nifer am yr her a'r gost o gael y gwiriadau hyn ac roedd cyfran hefyd o'r cyfranogwyr wedi methu; ynghyd â chyfranogwyr yn peidio â mynd i'r ddarpariaeth yn y diwedd, arweiniodd hyn at gyfradd diddymu cymharol uchel ar gyfer rhai lleoliadau.

4.25 Pan oedd cyfranogwyr wedi sicrhau lleoliadau, cyfeiriodd cyflogwyr at yr effaith a gafodd y lleoliadau arnynt fel unigolion. Cyfeiriodd y mwyafrif at wella hunanhyder, sgiliau cyfathrebu a chadw amser, gyda rhai yn disgrifio effeithiau yn gorlifo ar eu teuluoedd a'u cyfoedion o ganlyniad i'w cyflogaeth.

> *"Mae'n sicr wedi gwella hyder, mae wedi cael effaith enfawr ar eu teuluoedd o'r hyn maen nhw wedi'i rannu gyda mi, maen nhw wedi bod*

[43] Gweithredai Workways ar draws pedwar awdurdod lleol yn Ne Orllewin Cymru ac fe'i bwriadwyd i gynorthwyo cyfranogwyr i symud i gyflogaeth, gan gynnwys darparu mynediad i gyfleoedd gwaith dros dro.
[44] Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Disclosure and Barring Service

*yn fodel rôl i'w plant... rydym wedi cael un neu ddau sy'n drydedd genhedlaeth o aelwydydd heb waith ac erbyn hyn rydym wedi cael un unigolyn y mae ei mam a dwy fodryb iddi wedi dod i gynllun Esgyn oherwydd ei llwyddiant hi, felly dyna'r effaith yn pasio ymlaen yn eu bywydau".* (cyflogwr cenedlaethol)

4.26 Mae rhai (sydd wedi eu cyflogi mewn cyflogaeth barhaol) yn parhau i wynebu rhwystrau a heriau, ond fel arfer mae eu cyflogwyr yn gwybod am y materion hyn ac maent yn gweithio drwyddynt gyda'i gilydd. Disgrifiodd un cyflogwr y Rhaglen ac un unigolyn mewn ffordd arbennig o gadarnhaol a chlir:

> *"Ar y cyfan, wir, wir yn gadarnhaol [*am Raglen Esgyn*] mae rhai ohonynt bellach wedi cael eu cyflogi'n llwyddiannus mewn swyddi llawn amser ers 2 flynedd a mwy, maen nhw'n cadw'r swyddi, maen nhw'n mynychu hyfforddiant yn y gweithle, mae wedi bod yn fraint go iawn i weithio gyda nhw ac nid mewn ffordd nawddoglyd, ac mae wedi bod yn wych iawn i'r sefydliad hefyd. I ddweud y gwir, mae un o'r rheiny ddaeth ar leoliad o Esgyn, ond sydd wedi'i gyflogi gennym nawr ers dros 18 mis, wedi ennill gwobr cydnabyddiaeth staff eleni achos ei fod mor ymroddedig i'r gweithle; mae mor weithgar ac rwy'n credu bod y prif weithredwr wedi dweud 'dylai'r sefydliad fod yn llawn xxx'. Mae wedi gwneud i ni feddwl am sut rydyn ni'n recriwtio pobl achos does dim dwywaith fod y rhain yn grŵp o bobl na fyddai o bosibl wedi dod trwy ein rhestr fer achos nad oes ganddynt gymwysterau na phrofiad gwaith... mae'r peth wedi'i groesawu'n gadarnhaol iawn o frig y sefydliad i'r gwaelod".* (Cyflogwr Cenedlaethol)

**Pwy sy'n cael Cyflogaeth?**

4.27 Mae gwybodaeth reoli a gafwyd gan ardaloedd gweithredu Esgyn am y cyfranogwyr hynny a ymunodd ers mis Ionawr 2016 wedi galluogi olrhain teithiau cyfranogwyr. Mae dadansoddi data'r wybodaeth reoli yn awgrymu cyfradd symud sydd ychydig yn is na'r hyn a adroddir yn nata canlyniadau'r Rhaglen, gyda'r wybodaeth reoli a gafwyd yn awgrymu bod 24 y cant (253/1071) wedi cael cyflogaeth (o'i gymharu â 32.6 y cant ar gyfer hyd cyfnod cyfan y Rhaglen fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon). Bychan yw'r amrywiant yn y cyfraddau symud i gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr wrth gymharu gwahanol nodweddion personol (oedran, rhyw neu ethnigrwydd).

4.28 Mae'r data yn dangos patrymau clir mewn perthynas â phrofiad blaenorol y cyfranogwr o gyflogaeth ac addysg. Mae Tabl 4.2 isod yn dadansoddi 'cyfraddau symud' cyfranogwyr i gyflogaeth yn seiliedig ar hyd y diweithdra ar adeg cofrestru ar Raglen Esgyn. Mae'r tabl yn dangos yr heriau wrth gefnogi'r rheini sydd ymhell o'r farchnad lafur i mewn i waith ond hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod cefnogaeth Esgyn wedi sicrhau canlyniadau cyflogaeth yn llwyddiannus i 15 y cant o'r cyfranogwyr a oedd yn ddi-waith ers o leiaf pum mlynedd, a llawer ohonynt heb weithio erioed o'r blaen.

**Tabl 4.2: Cyfraddau Symud Cyfranogwyr Esgyn i Gyflogaeth yn ôl hyd bod yn ddi-waith**

| Hyd cyfnod bod yn ddi-waith | Nifer y cyfranogwyr | I gyflogaeth | |
|---|---|---|---|
| | | nifer | canran |
| 6 mis i 2 flynedd | 397 | 130 | 33% |
| 2-5 mlynedd | 219 | 58 | 26% |
| Dros 5 mlynedd/erioed wedi gweithio | 415 | 64 | 15% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o Wybodaeth Reoli'r Ardaloedd Cyflenwi - Ion 14-Mai 17

4.29 Mae dadansoddi cyfraddau symud i gyflogaeth yn ôl y cymhwyster uchaf sydd gan gyfranogwyr Esgyn ar adeg eu cofrestru yn cyflwyno patrwm tebyg: dim ond 18 y cant o gyfranogwyr Esgyn heb unrhyw gymwysterau blaenorol a gafodd gyflogaeth, o'i gymharu â thraean o gyfranogwyr Esgyn oedd â chymhwyster Lefel 3 neu uwch yn cael cyflogaeth drwy'r Rhaglen.


**Tabl 4.3: Cyfraddau Symud Cyfranogwyr Esgyn i Gyflogaeth yn ôl Cymhwyster Uchaf**

| Cymhwyster uchaf (cyfwerth â NQF) | Nifer y cyfranogwyr | I gyflogaeth | |
|---|---|---|---|
| | | nifer | canran |
| Dim cymwysterau | 280 | 51 | 18% |
| Hyd at Lefel 2 | 335 | 91 | 27% |
| Lefel 2 | 231 | 55 | 24% |
| Lefel 3 | 81 | 27 | 33% |
| Lefel 4 ac uwch | 41 | 14 | 34% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o Wybodaeth Reoli'r Ardaloedd Cyflenwi - Ion 14-Mai 17


4.30 Cyfunwyd hanes cyflogaeth a lefelau cymwysterau cyfranogwyr i greu teipoleg o gyfranogwyr y Rhaglen sy'n arddangos pellter tybiedig o'r farchnad lafur yn seiliedig ar gymwysterau a hanes cyflogaeth. Cyfranogwyr Grŵp 1 yw'r rhai y tybir sydd bellaf o'r farchnad lafur ac mae Grŵp 6 yn cynrychioli'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur (gweler Ffigwr 4.8 isod).

**Ffigwr 4.8: Teipoleg Cyfranogwyr Esgyn yn seiliedig ar Bellter o'r Farchnad Lafur**




4.31 Mae cymhwyso'r teipolegau hyn i gyfranogwyr Rhaglen Esgyn yn dangos perthynas eglur rhwng y cymwysterau a enillwyd a hyd diweithdra cyn ymgysylltu â'r Rhaglen a'r tebygolrwydd o sicrhau cyflogaeth. Mae'r dadansoddiad yn dangos hyd yn oed ymhlith y rheini sydd â dim / fawr ddim cymwysterau ac sydd wedi bod yn ddi-waith ers mwy na phum mlynedd (sef rhai o'r grwpiau sydd bellaf o'r farchnad lafur), cafodd bron i un o bob chwech o'r rhain ganlyniad cyflogaeth drwy Raglen Esgyn (Ffigwr 4.9 isod).

**Ffigwr 4.9: Cyfraddau Symud i Gyflogaeth yn ôl "Grŵp" Cyfranogwyr**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Wavehill o Wybodaeth Reoli'r Ardaloedd Cyflenwi – Ion 14-Mai 17

*Perfformiad Ardaloedd Cyflenwi*

4.32 Mae dadansoddi'r cyfraddau symud i gyflogaeth yn ôl y pellter o'r farchnad lafur ar lefel ardal gyflenwi wedi'i gyfyngu rhywfaint gan faint y boblogaeth gymwys sydd wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad (data ar gyfer cofrestriadau rhwng Ionawr 2016 a Mai 2017 sydd ar gael yn unig yn sgil gwelliannau i'r gofynion monitro). O ganlyniad, dylid ystyried y canfyddiadau hyn drwy gadw mewn cof eu bod yn seiliedig ar faint sampl isel gyda rhai o'r amrywiadau rhwng ardaloedd cyflenwi o fewn lwfans gwall +/- 5%.

4.33 Mae Ynys Môn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth sicrhau cyflogaeth i'r rhai hynny sydd wedi bod yn ddi-waith ers dros bum mlynedd (neu sydd erioed wedi bod yn gyflogedig) (23 y cant; 10/43), a'r ardaloedd eraill yn dangos ystod gul o gyfraddau symud i'r cohort hwn (yn amrywio o 10 y cant i 18 y cant) gyda'r cyfartaledd ar gyfer y cohort hwn ledled y Rhaglen yn 15 y cant (64/397).

4.34 O ddadansoddi ar sail cymwysterau, mae Ynys Môn unwaith eto yn sefyll allan fel yr ardal gyflenwi fwyaf llwyddiannus gyda 40 y cant (16/40) o gyfranogwyr Esgyn a gofnodwyd ar adeg eu cofrestru i fod heb unrhyw gymwysterau neu gymhwyster NQF Lefel 1 (neu gymhwyster cyfatebol) wedi cael cyflogaeth. Perfformiodd Blaenau Gwent yn gryf yma hefyd gyda 35 y cant (30/86) o

gyfranogwyr yn y garfan hon yn sicrhau canlyniad cyflogaeth. Mae'r cyfraddau symud hyn yn cymharu â chyfartaledd ledled y Rhaglen o 23 y cant (142/615) i gyfranogwyr sydd â lefel cymwysterau debyg wrth eu cofrestru ac mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau symud i gyflogaeth yn ystadegol arwyddocaol.

**Cyflogwyr Lleol a Chymorth Ôl-gyflogaeth**

4.35 Cyfwelwyd hefyd ag 16 o gyflogwyr sy'n lleol i'r ardaloedd cyflenwi mewn ffordd debyg i'r broceriaid cenedlaethol. Deuai'r cyflogwyr lleol ran amlaf o'r sector adeiladu ac roeddynt fel arfer wedi ymgysylltu â Rhaglen Esgyn fel rhan o'u gofynion Budd i'r Gymuned.

4.36 Roedd y cyflogwyr a ymatebodd unwaith eto'n gadarnhaol am eu profiadau o Raglen Esgyn. Teimlai rhai ychydig yn ddryslyd am safle'r Rhaglen (yn enwedig mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf) gan gredu y gallai elwa o hyrwyddo cryfach. Roedd pryderon a dryswch hefyd ynghylch yr effaith y byddai cau Cymunedau yn Gyntaf yn ei chael ar y Rhaglen.

4.37 Roedd canmoliaeth fawr i'r gefnogaeth a gafwyd gan y Mentoriaid/Broceriaid lleol, a'r cyflogwyr lleol yn eu hystyried i fod yn ymatebol, yn gymwynasgar ac yn gallu rhoi setiau sgiliau a diddordebau i gyfranogwyr a oedd yn bodloni anghenion y cyflogwyr.

4.38 O ran y cyfranogwyr, roedd y cyflogwyr lleol wedi wynebu problemau tebyg i'r sefydliadau cenedlaethol o ran bod diffyg dibynadwyedd yn ffactor allweddol ymhlith y cyfranogwyr. Pan godai'r sefyllfaoedd hyn, byddai tîm Esgyn yn cefnogi'r cyflogwr wrth fynd i'r afael â'r unigolion hyn, ond byddent yn cadw rheolau llym ynghylch y cyfranogwyr hyn yn diweddu eu lleoliadau pe na baent yn dangos yr ymrwymiad a'r ymroddiad angenrheidiol i'r cyfle.

4.39 Er bod cefnogaeth ôl-gyflogaeth wedi'i nodi fel maes i'w wella yng ngham blaenorol y gwerthusiad, nid oedd sôn am hyn yn y cam hwn. Pan ofynnwyd 'A ellid gwella natur y cyswllt â'r Brocer/Mentor o gwbl', dywedodd pob cyflogwr na ellid. Yn yr un modd, pan ofynnwyd a fyddent yn argymell Rhaglen Esgyn i eraill, cadarnhaodd 15 o'r 16 o gyflogwyr y byddent yn gwneud hynny a'r ymatebwr arall yn ansicr. Roedd petruster hwnnw yn ymwneud yn bennaf â phroffil isel Rhaglen Esgyn a'r teimlad nad oedd y cyfranogwyr a ddaeth i'r profiad gwaith yn ddigon parod i weithio yn y rolau hynny.

# 5. Teithiau'r Cyfranogwyr a Chanlyniadau i'r Hirdymor


5.1 Mae'r adran hon yn edrych ar deithiau'r cyfranogwyr hynny yn Rhaglen Esgyn a gytunodd i gael eu cyfweld (cyfanswm o 378) ac yna eu hail gyfweld (cyfanswm o 157) er mwyn deall yn well effaith y gefnogaeth (y tu hwnt i'r canlyniadau mesuradwy). Mae hefyd yn archwilio cynaliadwyedd y canlyniadau cyflogaeth ymysg y cyfranogwyr a ymatebodd i'r cyfweliad ac sydd wedi llwyddo i gael gwaith.

*Dadansoddi Data'r Cyfweliadau Cyntaf*

5.2 Yn y cyfweliad cyntaf (a gynhaliwyd o fewn chwe mis i ymgysylltiad cyfranogwr â Rhaglen Esgyn), disgrifiodd bron i ddwy ran o dair (65 y cant) o'r ymatebwyr (244/378) eu hunain 'yn ddi-waith yn chwilio am waith'.

5.3 Dywedodd 15 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio'n llawn amser (9 y cant) neu'n rhan amser (6 y cant), gan ddangos bod y symud i gyflogaeth wedi bod yn gymharol gyflym i leiafrif o gyfranogwyr Esgyn. Er nad yw'n bosibl barnu i ba raddau yr oedd Rhaglen Esgyn wedi cefnogi'r unigolion hyn i gael gwaith, mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu na ddylid ystyried y cyfweliad cyntaf yn 'waelodlin' gan fod cyfranogwyr eisoes wedi cael hyd at chwe mis o gefnogaeth drwy'r Rhaglen.

**Ffigwr 5.1: Beth yw eich sefyllfa ar hyn o bryd (Cyfweliad Cyntaf)**




N = 378

Ffynhonnell: Arolwg dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf) ar gyfranogwyr Esgyn

5.4 Pan ofynnwyd iddynt raddio eu hunain allan o 10 o ran eu pellter yr oeddynt hwy eu hunain yn teimlo eu bod o'r farchnad lafur (gyda 10 yn agos iawn at y farchnad lafur a 0 yn bell iawn o'r farchnad lafur) cyn cofrestru ar Raglen Esgyn, y sgôr cyfartalog cymedrig a roddodd y cyfranogwyr i'w hunain oedd 3.9 allan o 10 (ymhlith y rheiny mewn cyflogaeth, y cyfartaledd cymedrig oedd 4.9) tra bod 72 y cant o'r ymatebwyr wedi rhoi sgôr o 5 neu lai i'w pellter o'r farchnad lafur, gan awgrymu eu bod hwy eu hunain yn cydnabod graddau'r rhwystrau sydd ganddynt cyn sicrhau cyflogaeth. Fodd bynnag, yn ddiddorol, disgrifiodd 62 y cant eu hunain fel 'eithaf hyderus' neu 'hyderus iawn' pan ofynnwyd iddynt 'wrth edrych yn ôl i'r adeg pan oeddech wedi ymwneud gyntaf â Rhaglen Esgyn, pa mor hyderus oeddech chi'n teimlo ynghylch dod o hyd i waith?' Awgryma hyn fod rhywfaint o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng y disgwyliadau ynghylch pa mor rhwydd fyddai dod o hyd i waith a'r pellter canfyddedig y teimlai cyfranogwyr eu bod rhag gallu bod yn weithredol yn y farchnad lafur.

**Ail Gyfweliad y Cyfranogwyr**

5.5 Ar draws y ddwy don o ail gyfweliadau gyda chyfranogwyr (fel arfer tua 7 i 13 mis ar ôl iddynt ddechrau ar Raglen Esgyn), roedd 39 y cant (62/157) o'r cyfranogwyr wedi dweud eu bod yn dal i gael cefnogaeth drwy'r Rhaglen. Mae hyn yn dangos pa mor gyffredin oedd i gyfranogwyr ymwneud â Rhaglen Esgyn am gyfnod parhaus.


5.6 O ran eu statws ar adeg yr ail gyfweliad, fel y dangosir yn Ffigwr 5.2, roedd symud clir i gyflogaeth ymysg y cyfranogwyr rhwng y ddau arolwg gyda chynnydd o 9 y cant i 26 y cant (44/156) o ymatebwyr.[45] Ar y llaw arall, cafwyd gostyngiad yn nifer yr ymatebwyr oedd yn disgrifio eu hunain 'yn ddi-waith yn chwilio am waith' o 65 y cant (102/156) i 44 y cant (69/156). Mae hyn yn rhagori ar berfformiad cyfatebol y Rhaglen Waith dros amserlen debyg (20.6 y cant i gyflogaeth am dros 6 mis i'r rhai oedd wedi ymgysylltu ers Mawrth 2016).[46] Disgrifiodd 10 y cant o ymatebwyr arolwg Esgyn eu hunain i fod mewn cyflogaeth lawn amser, sydd o fewn y paramedrau ar gyfer y gyfradd symud

---

[45] Mae'r gyfran mewn cyflogaeth ar adeg y cyfweliad yn wahanol i'r hyn a ddisgrifir yn ffigwr 5.1 gan mai dim ond y rhai a gymerodd ran mewn ail gyfweliad sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad cyfweliad/ail gyfweliad.
[46] Ystadegau'r Rhaglen Waith - https://www.gov.uk/government/collections/work-programme-statistics cyhoeddwyd 21 Medi 2013, adalwyd ar 22 Chwefror 2018.

amcangyfrifedig o rhwng un o bob deg ac un o bob chwech yn symud i gyflogaeth FTE gynaliadwy fel y nodwyd yn yr achos busnes ar gyfer y rhaglen.[47]

**Ffigwr 5.2: Cymharu sefyllfaoedd Cyfranogwyr Esgyn – adeg y Cyfweliad Cyntaf a'r Ail**




N= 156

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

5.7 O'r cyfranogwyr hynny a ddisgrifiodd eu hunain i fod mewn cyflogaeth ar adeg y cyfweliad, dywedodd 25 o'r 44 eu bod wedi cael cyflogaeth trwy Raglen Esgyn, gyda saith arall yn dweud iddynt gael gwaith i ddechrau arni trwy Esgyn ond eu bod wedyn wedi newid rôl cyn inni ailgysylltu â nhw. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cyfateb i dri chwarter (76 y cant; 32/42) o'r holl gyfranogwyr oedd mewn cyflogaeth ar yr adeg honno wedi cael cyflogaeth drwy Raglen Esgyn.


*"I fod yn onest, popeth roeddwn i ei angen bydden nhw bob amser yn ei ddarparu, hebddynt, dwi ddim yn meddwl y byddwn i lle rydw i rŵan (yn gweithio'n rhan amser fel derbynnydd). Mae fy mentor wedi rhoi hyder i mi, mae wedi fy helpu i gyrraedd lle rydw i rŵan. Fyddwn i*

[47] Achos Busnes Esgyn (heb ei gyhoeddi), Llywodraeth Cymru – mae'r cyfraddau symud yn seiliedig ar ganllawiau WEFO ynghylch cyfraddau symud i gyflogaeth gynaliadwy i'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

*ddim wedi cyrraedd y cam cyfweld heb xxx, roedd hi wir wedi helpu yn enwedig gyda'r ceisiadau". (*Cyfranogwr Esgyn*)*

5.8 Gofynnwyd i'r rheiny mewn cyflogaeth pa mor hyderus oeddent o'u gallu i gael dyrchafiad neu godiad cyflog a chanfod swydd newydd oedd â chyflog uwch ac/neu fwy o gyfrifoldeb. O ran y ddau osodiad, roedd dwy ran o dair o'r rheiny mewn gwaith yn teimlo'n hyderus iawn neu'n eithaf hyderus y gallai'r naill sefyllfa neu'r llall godi (Ffigwr 5.3), gan awgrymu bod eu barn bersonol ynghylch eu rhagolygon i ddringo'r ysgol gyrfa yn gryf i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr.

**Ffigwr 5.3: Ar ôl cael cymorth drwy Raglen Esgyn, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch: (ymatebwyr cyflogedig yn unig)**




N = 43

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

*"Fyddai dim gobaith caneri i mi gyrraedd lle rwyf i heblaw am Raglen Esgyn ac er nad oeddwn wedi cofrestru'n ddi-waith ac yn gorfod mynd ar safle swyddi Universal Jobmatch i wneud cais am swyddi, ro'n i wedi treulio'r 18 mis diwethaf arno yn anfon CV i bawb ac roedd yn ddigon i'ch digalonni'n lân ac yn 44 oed fel yr oeddwn, roeddwn i'n teimlo ei bod hi ar ben arna i ac nad oedd neb eisiau gwybod. Roedd y gefnogaeth emosiynol – cael rhywun yno i fi ac oedd yn gwrando arna i – yn amhrisiadwy a rhywun oedd yn credu ynof fi ac yn dweud y gallwn ei wneud ar ôl gweld beth oeddwn yn gallu ei wneud ac yn dweud na fyddwn i'n ddi-waith am lawer yn hirach ac y byddai rhywun yn fy machu. Hefyd, roedd y wybodaeth*

*fewnol oedd ganddynt o beth yr oedd angen i mi ei wneud i fynd i mewn i'r GIG fel y cwrs ymgyfarwyddo ac ati, a'u cysylltiadau, wedi helpu'n fawr iawn".* (Cyfranogwr Esgyn)

*Cyfranogwyr Esgyn oedd heb waith*

5.9 Gofynnwyd yn yr ail gyfweliad i'r cyfranogwyr hynny nad oeddent yn gweithio ar y pryd i ba raddau allan o ddeg y teimlent eu bod yn bell neu'n agos o allu dod o hyd i swydd. Roedd y cwestiwn hefyd wedi'i ofyn iddynt fel rhan o'r cyfweliad cyntaf lle cafwyd dau ateb ganddynt, un yn seiliedig ar eu cof ynghylch sut roeddent yn teimlo cyn ymgysylltu ag Esgyn a'r llall yn seiliedig ar eu teimlad ar y diwrnod y cawsant eu cyfweld. Felly, cofnodwyd tri ymateb gwahanol gan bob cyfranogwr heb waith ar adeg yr ail gyfweliad. Mae Tabl 5.1 isod yn dangos bod naid sylweddol yn y modd y teimlai cyfranogwyr yn agos i ddod o hyd i swydd wrth gymharu eu hatgof o'u sefyllfa cyn ymgysylltu â Rhaglen Esgyn â'r cyfweliad cyntaf o fewn chwe mis o gofrestru. Yn yr ail gyfweliad roedd y sgôr cyfartalog cymedrig wedi gostwng, sydd fel arfer yn adlewyrchu rhyw fath o wynebu gwirionedd ar ran y cyfranogwyr, sef er gwaethaf y gefnogaeth a gawsant eu bod yn dal i gael trafferth cael swydd gyflogedig. Mae'r colofnau yn y tabl yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ar ddosbarthiad yr atebion ac yn dangos, er gwaethaf y ffigwr cyfartalog cymedrig is, roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn yr ail gyfweliad wedi rhoi sgôr i'w hunain oedd yn uwch na phump o'i gymharu â'r cyfweliad cyntaf, gan awgrymu cynnydd parhaus i rai cyfranogwyr dros gyfnod hirach o amser.

**Tabl 5.1: Dadansoddi sgôr (allan o ddeg – 0 yn bell iawn a 10 yn agos iawn) ynghylch pa mor agos neu bell y teimlai cyfranogwyr Esgyn eu bod o allu dod o hyd i swydd i'r rheini nad oeddent yn gweithio adeg yr ail gyfweliad [48]**

| | Sgôr Cyfartalog Cymedrig | Canran yr atebion yn is na 5 | Canran yr atebion yn uwch na 5 |
|---|---|---|---|
| Cyn Esgyn | 3.9 | 43% | 19% |
| Adeg y Cyfweliad cyntaf | 7.6 | 11% | 56% |
| Adeg yr Ail Gyfweliad | 6.3 | 22% | 58% |


N = 113

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

[48] Roedd yr holl ymatebwyr eraill sydd wedi'u gadael o'r tabl hwn wedi rhoi sgôr o 5 i'w hunain (17 o ymatebwyr 'cyn Esgyn', 8 ymatebydd 'adeg y cyfweliad cyntaf' a 23 o ymatebwyr 'ar adeg yr ail gyfweliad').

5.10 Gan ailadrodd arolygon blaenorol, gofynnwyd i gyfranogwyr nad oeddent yn gweithio ar adeg yr ail gyfweliad ynghylch pa mor hyderus y teimlant o ddod o hyd i waith. Mae Ffigwr 5.4 isod yn dangos cyn Rhaglen Esgyn fod 44 y cant o'r ymatebwyr yn hyderus iawn neu'n eithaf hyderus o ddod o hyd i waith. Ar ôl hyd at chwe mis o gefnogaeth drwy Raglen Esgyn, roedd hyn wedi codi i 80 y cant. Wrth ail gyfweld, fodd bynnag, roedd y ffigwr hwn wedi newid ychydig gyda 56 y cant yn disgrifio eu hunain yn hyderus neu'n hyderus iawn o ddod o hyd i waith.

**Ffigwr 5.4: Dadansoddi ymatebion i "pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch dod o hyd i waith cyflogedig?" ymysg y cohort a gymerodd ran yn yr ail gyfweliad ac a oedd yn dal heb waith**





N = 113

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

5.11 Yn ystod y broses ail gyfweliad, gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent yn teimlo bod eu rhagolygon tymor hir yn well nawr na phan gawsant eu cyfweld ddiwethaf. Cadarnhaodd 56% (63/113) eu bod, ond teimlai 28 y cant (32/113) nad oeddent, ac nid oedd y gweddill yn siŵr.

5.12 I'r ymatebwyr hynny oedd heb waith ar adeg yr ail gyfweliad, gofynnwyd iddynt hefyd pa mor hyderus y teimlent am gadw swydd os/pan gaent swydd. Dengys y ffigwr isod gynnydd cyson ymhlith ymatebion y cyfranogwyr yn eu barn am eu gallu i gadw swydd, gyda mwy na thri chwarter o ymatebwyr yn teimlo'n hyderus iawn (50 y cant) neu'n eithaf hyderus (27 y cant) i wneud hynny o'i gymharu â 59 y cant yn y cyfweliad cyntaf a 36 y cant cyn ymgysylltu â'r Rhaglen. Yn anecdotaidd, mae mentoriaid wedi cyfeirio'n aml at ffordd o fyw caotig ac anhrefnus cyfranogwyr Esgyn a'r angen i roi ystod o gefnogaeth i ddatrys problemau ehangach a mwy uniongyrchol sydd ganddynt. Gallai'r newid hwn felly gael ei briodoli i'r 'gefnogaeth gofleidiol' (*wraparound*) sydd ar gael drwy'r Rhaglen, a allai fod yn cael effaith gadarnhaol ar farn unigolyn ynghylch eu gallu i gadw swydd.

**Ffigwr 5.5: Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch cadw'r swydd gyflogedig honno? (Cyfranogwyr heb waith yn unig)**




n = 112

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

*Deilliannau Meddal*

5.13 Roedd natur Rhaglen Esgyn a'r rheiny a gymerodd ran yn golygu mai dim ond lleiafrif o gyfranogwyr Esgyn oedd yn debygol o sicrhau cyflogaeth fel canlyniad 'caled' yn y Rhaglen. Fodd bynnag, arweiniodd y gefnogaeth ddwys, gofleidiol a gynigid trwy Esgyn at y disgwyliad y gellid cyfleu cynnydd tuag at gyflogaeth trwy archwilio deilliannau meddalach sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r gefnogaeth a dderbyniwyd (yn ychwanegol at y rheiny sy'n gysylltiedig â hunanhyder a amlinellwyd uchod).

> *'Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud hebddyn nhw, byddwn wedi anobeithio'n llwyr, byddwn jest ar fy mhen fy hun yn y tŷ yn teimlo'n isel ac yn yfed; mae jest mynd i mewn a siarad am bethau wedi rhoi mwy o hyder i mi, roeddwn i'n arfer bod yn dawel ac ofnus iawn ac mae wir wedi rhoi hwb i fy hyder.'* (Cyfranogwr Esgyn)

5.14 Yn ogystal â graddfeydd pellter canfyddedig o'r farchnad lafur a hunanhyder, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i fesur hunaneffeithlonrwydd cyffredinol, hunaneffeithiolrwydd ar gyfer dysgu ac agweddau tuag at gyflogaeth er mwyn helpu i fesur y 'pellter a deithiwyd' ymysg cyfranogwyr.[49]

5.15 O ran hunaneffeithiolrwydd cyffredinol, nid oedd newid pendant i'w weld yn yr atebion wrth gymharu sgoriau cymedrig y rhai a ymatebodd i'r cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad. Fodd bynnag, mae dadansoddi'r wybodaeth hon ymhellach yn awgrymu rhywfaint o symud o ran natur yr atebion sy'n cael eu celu gan y dadansoddiad cyfartalog cymedrig. Tra bod yr ymatebwyr gwaelodlin wedi'u hollti yn fwy o ran natur yr ymatebion, roedd ymatebwyr wedi bod yn llai sicr yn eu hymateb (gan fod yn well ganddynt ddewis "anaml yn wir" neu "yn eithaf gwir" yn hytrach nag "yn gwbl wir" neu "ddim yn wir o gwbl"). Felly, wrth gyfuno ymatebion, mae newid bach cadarnhaol yn amlwg ar draws pob gosodiad.

[49] Mae manylion ynghylch y cwestiynau a ofynnwyd i'w cael yn Atodiad B.

**Tabl 5.2: Canran yr Ymatebwyr yn dewis 'yn eithaf gwir' neu 'yn gwbl wir' i gyfres o osodiadau ynghylch Hunaneffeithiolrwydd Cyffredinol**

| Gosodiad | Cyfweliad cyntaf | Ail gyfweliad | Newid[50] |
|---|---|---|---|
| Pan rwy'n wynebu problem, gallaf feddwl am sawl ateb fel arfer. | 78% | 89% | 12% |
| Os yw rhywun yn fy ngwrthwynebu, gallaf ddod o hyd i ffordd o gael yr hyn rwy eisiau. | 60% | 68% | 9% |
| Gallaf aros yn ddi-gynnwrf wrth wynebu anawsterau oherwydd gallaf ddibynnu ar fy ngallu i ymdopi. | 82% | 87% | 5% |
| Os ydw i mewn trafferthion, gallaf fel arfer feddwl am ateb. | 87% | 92% | 5% |
| Gallaf bob amser ddatrys problemau anodd os ydw i'n trio yn ddigon caled. | 88% | 92% | 4% |
| Diolch i fy nyfeisgarwch, rwy'n gwybod sut i ddelio â sefyllfaoedd nad oedd modd eu rhagweld. | 83% | 87% | 3% |
| Rwy'n hyderus y gallwn ddelio yn effeithiol â digwyddiadau annisgwyl. | 82% | 84% | 2% |
| Fel arfer, gallaf ddelio â beth bynnag a ddaw i'm rhan. | 85% | 87% | 2% |
| Mae'n hawdd imi lynu wrth fy amcanion a'u cyflawni. | 83% | 85% | 1% |
| Gallaf ddatrys y rhan fwyaf o broblemau os ydw i'n buddsoddi'r ymdrech sydd ei hangen. | 92% | 93% | 1% |

N = 157

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

5.16 O ran y cwestiynau yn ymwneud â hunaneffeithiolrwydd i ddysgu, ychydig iawn o newid oedd yn amlwg wrth gymharu'r atebion o'r cyfweliad cyntaf â'r rhai o'r ail gyfweliad. O ran agwedd at gyflogaeth, mae newid negyddol yn amlwg wrth gymharu atebion i osodiadau yn y cyfweliad ac yna eto wrth ail gyfweld. Mae Tabl 5.3 isod yn dangos mai atebion i "Gallwn gael swydd petawn eisiau un" sy'n dangos y newid mwyaf ymhlith yr ymatebwyr (a ofynnwyd ond i'r rhai nad oeddent yn gweithio adeg y cyfweliad) ac mae'n dystiolaeth bellach o'r heriau canfyddedig i gael cyflogaeth yn lleol.

[50] Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu i'r pwynt canran agosaf, gan gynnwys newidiadau rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail, ac felly mae anghysondebau bychain yn y gwahaniaeth rhwng pwyntiau canran.

**Tabl 5.3: Canran yr Ymatebwyr yn dewis 'yn eithaf gwir' neu 'yn gwbl wir' i gyfres o osodiadau ynghylch Agwedd tuag at Gyflogaeth**


| Gosodiad | Ymatebwyr | Cyfweliad cyntaf | Ail gyfweliad | Newid |
|---|---|---|---|---|
| Gallaf gyrraedd fy amcanion o ran gwaith. | 155 | 87% | 92% | 5% |
| Gall gwaith roi boddhad. | 156 | 95% | 97% | 2% |
| Mae swydd allan yna i mi. | 113 | 87% | 85% | -2% |
| Os na allaf gael un swydd, gallaf gael un arall. | 155 | 83% | 79% | -4% |
| Gallwn gael swydd petawn eisiau un. | 113 | 76% | 61% | -15% |

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

*Lles*

5.17 Yn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd am eu sgoriau yn erbyn Cwestiynau Lles cenedlaethol ONS[51] yn y cyfweliad cyntaf a'r ail er mwyn olrhain newidiadau yn eu barn am eu lles. Mae Ffigwr 5.6 yn dangos gwelliant sylweddol yn yr ymdeimlad o les ymhlith yr ymatebwyr ac, er bod lefelau lles yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU, mae'r bwlch wedi cau o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

**Ffigwr 5.6: Ymatebion i Gwestiynau Lles ONS (sgôr allan o 10)**




N=157

Ffynhonnell: Arolygon dros y ffôn Wavehill (cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad) ar gyfranogwyr Esgyn

[51] Meincnodau'r Deyrnas Unedig yn deillio o Amcangyfrifon Lles Personol ar gyfer y DU a Gwledydd y DU am y flwyddyn yn diweddu Mehefin 2017 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/measuringnationalwellbeing/july2016tojune2017 Adalwyd ar 7 Tachwedd 2017.


### Cysylltu Canlyniadau Cyflogaeth â Lles

5.18 O ystyried y dangosyddion lles positif, roedd gennym ddiddordeb mewn deall a oedd y cynnydd a nodwyd mewn lles yn gysylltiedig â chanlyniadau cyflogaeth (ceir dadansoddiad manwl yn Atodiad E). O gofio bod gennym ddata ar gyfer y rheini a oedd wedi cael cyflogaeth cyn y cyfweliad cyntaf, rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad, ac ar ôl yr ail gyfweliad, gallem fynd ati'n ystadegol i gymharu effaith cael cyflogaeth ar les.

5.19 Dechreuom drwy ddynodi grŵp o 67 o ymadawyr cynnar o Raglen Esgyn a gyfwelwyd. O'r 67 hynny, llwyddom i neilltuo 50 a gofnodwyd nad oeddynt wedi llunio cynllun personol *ac* nad oeddent wedi cael cyflogaeth/hyfforddiant ar adeg gadael. O'r 50 hynny, cafodd 19 hefyd eu hail gyfweld, gan roi modd inni eu defnyddio fel grŵp gwrthffeithiol yn ein dadansoddiad o effaith y Rhaglen ar les.

5.20 Edrychwyd ar y cynnydd mewn lles a adroddwyd uchod a chymharwyd y cynnydd cymedrig ar gyfer pob mesur yn ôl grŵp (Ffigwr 5.7).

**Ffigwr 5.7: Cynnydd Cyfartalog mewn lles rhwng y Cyfweliad Cyntaf a'r Ail yn ôl grwpiau cymdeithasol-ddemograffig[52]**




[52] Cyfrifwyd y cynnydd mewn lles fel *cynnydd cymedrig ar draws y pedwar newidydd dangosydd* ar gyfer lles a ddangosir yn Ffigwr 5.6. Cafwyd cynnydd cyffredinol yn y sampl o 0.7, wedi'i gynrychioli gan y llinell doredig. Mae grwpiau sydd uwchlaw'r llinell doredig yn dangos cynnydd (sampl) uwch na'r cyfartalog mewn lles, ac mae'r rheini sy'n is na'r llinell yn dangos cynnydd (sampl) is na'r cyfartalog mewn lles.

5.21 Awgryma'r dystiolaeth fod cynnydd mewn lles ar y cyfan ar ei uchaf ymhlith menywod a'r rheini sy'n draddodiadol bellaf o'r farchnad lafur (sef y rhai â lefelau cymwysterau is a'r rhai â hanes hirach o ddiweithdra), yn ogystal â'r rhai nad oeddent wedi cael canlyniad cyflogaeth cadarnhaol.

5.22 Yna, ymchwiliwyd i ddylanwad cael cyflogaeth ar les. I wneud hyn, lluniom fodel a oedd yn cyfrif am y canlynol:

- rhyw y cyfranogwyr;
- categori oedran;
- hanes diweithdra;
- lefel eu cymwysterau ar adeg ymgysylltu; a
- statws eu cartref/aelwyd.

Yna cynhaliwyd y dadansoddiad, gan reoli ar gyfer y newidynnau hyn a gwelwyd nad oedd unrhyw berthynas rhwng cael cyflogaeth a lles a bod y tueddiadau cadarnhaol mewn lles yn ganlyniad posibl i gymryd rhan yn weithredol yn Rhaglen Esgyn (waeth beth fo'r canlyniadau a ddeilliai o gymryd rhan). Ceir rhagor o fanylion am y dadansoddiad hwn yn Atodiad E.

**Camu ymlaen yn y farchnad lafur**

5.23 Yna ehangwyd y dadansoddiad i edrych ar y buddion i gyfranogwyr yn ôl y mesur o fynd i addysg neu raglen hyfforddi neu i gyfle gwirfoddoli. Yna aethpwyd ati i gyfateb y teithiau hyn yn erbyn taith y cyfranogwr yn y farchnad lafur i bennu a oeddent wedi symud ymlaen yn y farchnad lafur (e.e. symud o anweithgarwch i fod yn ddi-waith yn chwilio am waith), p'un a oeddent wedi llithro'n ôl/atchweliad (symud o waith i fod yn ddi-waith), neu a oeddent wedi profi dim newid.


5.24 O'r rhai yn sampl y cyfweliad/ail gyfweliad, nodwyd bod 59/153 wedi camu ymlaen yn y farchnad lafur (39 y cant), nodwyd nad oedd newid i 79/153 (52 y cant), a nodwyd bod 15/153 wedi atchwelyd (10 y cant). Roedd y mwyafrif a oedd wedi llithro'n ôl/atchwelyd wedi symud o 'yn ddi-waith yn chwilio am waith' i naill ai 'yn ddi-waith – salwch hirdymor' neu i ddod yn ofalwr llawn-amser i berthynas agos (yn y senarios olaf mae'r rhain yn amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth).

5.25 Pan gaiff camu ymlaen yn y farchnad lafur ei gymharu â'r rheiny a adawodd y Rhaglen yn gynnar, mae tystiolaeth ystadegol arwyddocaol o gamu ymlaen

positif yn y farchnad lafur os nad yw cyfranogwr wedi gadael y Rhaglen yn gynnar.

5.26 Yn Ffigwr 5.8 isod dangosir y tebygolrwydd a ragwelir o gamu ymlaen yn y farchnad lafur i'r rheini a gwblhaodd y Rhaglen a'r rhai a oedd wedi gadael yn gynnar.

**Ffigwr 5.8: Y tebygolrwydd a ragwelir o gamu ymlaen yn y farchnad lafur i'r rheini sy'n cwblhau'r Rhaglen o'i gymharu â'r rhai sy'n gadael yn gynnar**





5.27 Mae gan y rhai sy'n cwblhau gofynion y Rhaglen (a ddiffinnir fel llunio cynllun personol) siawns o 43 y cant o gamu ymlaen yn y farchnad lafur, o reoli ar gyfer demograffig cymdeithasol a hanes cyflogaeth flaenorol. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn gostwng i tua 17 y cant i'r rheiny oedd wedi gadael Rhaglen Esgyn yn gynnar.

*Y rheiny nad ydynt wedi camu ymlaen yn y farchnad lafur*

5.28 Gan ddefnyddio'r newidyn camu ymlaen yn y farchnad lafur, llwyddom i ddadansoddi ymhellach y data ar hyder o ddod o hyd i waith a chadw swydd. Roedd y dadansoddiad hwn yn gyfyngedig i'r rhai a adroddodd yn ein harolygon eu bod yn weithredol yn chwilio am swydd ond eu bod yn dal i fod yn ddi-waith (79/153).

5.29 Yn Ffigwr 5.9 isod, rydym yn dangos y cynnydd cyfartalog yn yr hyder i ddod o hyd i gyflogaeth i'r rhai a gwblhaodd y Rhaglen a'r rheini a oedd wedi gadael y Rhaglen heb lunio cynllun personol yn ogystal â pheidio cael gwaith cyflogedig neu wneud hyfforddiant.


**Ffigwr 5.9: Cynnydd mewn hyder ynghylch dod o hyd i swydd rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail**




5.30 Mae'r 59/79 a gwblhaodd y Rhaglen yn dangos cynnydd cymedrol yn eu hyder i ddod o hyd i gyflogaeth tra bod y 29/79 nad oedd wedi cwblhau'r Rhaglen yn dangos gostyngiad net yn eu hyder yn hyn o beth.

5.31 Cynhaliom yr un dadansoddiad â'r uchod ond y tro hwn edrychom ar hyder o gadw swydd ar ôl ei chael. Dangosir hyn yn Ffigwr 5.10 isod:

**Ffigwr 5.10: Cynnydd mewn hyder o aros mewn swydd rhwng y cyfweliad cyntaf a’r ail**




5.32 Mae’r ffigyrau’n dangos bod y cynnydd cyfartalog mewn hyder cadw cyflogaeth wedi codi i bob un o’r 79 o gyfranogwyr nad oedd eu statws diweithdra wedi newid o’r ymgysylltu cychwynnol i’r ail gyfweliad. Fodd bynnag, mae’r cynnydd hwn mewn hyder tua thraean yn uwch ymhlith cyfranogwyr Esgyn o’i gymharu â’r rhai oedd wedi ‘gadael yn gynnar’.

## 6. Asesu Effaith

6.1 Mae'r adran hon yn asesu'r effeithiau marchnad lafur sy'n gysylltiedig â Rhaglen Esgyn, gan ganolbwyntio ar yr effeithiau net ar y rheiny sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen. Mae'r adran hefyd yn ystyried y gwrthffeithiol (hynny yw, beth fyddai wedi digwydd i gyfranogwyr Rhaglen Esgyn pe na byddid wedi cynnal y Rhaglen) a hefyd i ba raddau y mae'r Rhaglen yn cynrychioli gwerth am arian o ran adnoddau a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cymru i'w gweithredu. Edrychir ar hyn trwy ddadansoddiad effeithiolrwydd cost a dadansoddiad cost a budd.

*Dadansoddi effeithiolrwydd cost*

6.2 Mae dadansoddi effeithiolrwydd cost (CEA) yn cymharu costau cymharol rhaglen â chyflawni canlyniadau (effeithiau) arfaethedig y rhaglen honno i gynhyrchu amcangyfrif 'cost fesul uned canlyniad'. Er ei fod fel arfer yn ddull mwy syml o brofi gwerth am arian na dadansoddiad cost a budd (CBA), gall fod yn offeryn arweiniol defnyddiol i farnu effaith cymharol ymyrraeth.

6.3 Gellir cynnal dadansoddiad effeithiolrwydd cost syml ar gyfer Rhaglen Esgyn trwy gasglu'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Esgyn a rhannu'r costau hynny â nifer y canlyniadau cyflogaeth a gafwyd, sy'n rhoi ffigwr 'cost fesul swydd'.

6.4 Mae'r dadansoddiad effeithiolrwydd cost wedi'i wneud drwy ddefnyddio costau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen o 2014 hyd at ddiwedd Mehefin 2017 yn seiliedig ar:

- Ffioedd wedi eu hawlio o bob ardal gyflenwi
- Costau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Rhaglen.

6.5 Nid yw'r dadansoddiad effeithiolrwydd cost yn cynnwys:

- Unrhyw gostau i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gefnogi Rhaglen Esgyn
- Unrhyw gostau hyfforddi neu oruchwylio i gyflogwyr lleol a chyflogwyr a frocerwyd yn genedlaethol a oedd wedi cymryd cyfranogwyr Esgyn ar leoliadau gwaith.

6.6 Mae dadansoddi effeithiolrwydd cost yn arwain at gyfrifo cost am bob swydd o £3,744 (gweler Tabl 6.1 isod). Mae hyn ar y pen isaf (ac felly'r disgwyliad uwch) yn achos busnes Llywodraeth Cymru gyda chost ddisgwyliedig fesul swydd o £3,500- £6,000, ymhell o fewn y gofod gwerth am arian o £3,000- £8,000).[53] Mae

[53] Yn seiliedig ar gyfrifo parod WEFO fel y'i disgrifir yn Achos Busnes Esgyn.

hyn yn werth da am arian ar sail cost fesul canlyniad, yn enwedig felly pan ystyrir bod y Rhaglen wedi cefnogi'r unigolion hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur (o ran mesur cymhwyster a hanes cyflogaeth) tuag at gyflogaeth.

6.7 Mae hyn hefyd yn cymharu'n ffafriol â phapur adolygu blaenoriaeth gwerthuso'r ESF[54] a oedd wedi dangos cryn amrywiadau yn y gost fesul swydd ar draws prosiectau cyflogadwyedd a ariennir gan yr ESF, gyda 'chostau uwch fesul canlyniad ... yn aml yn cael eu priodoli i'r ffaith bod prosiectau'n gweithio gyda'r cyfranogwyr a oedd bellaf o'r farchnad lafur ac angen cefnogaeth ddwys i oresgyn rhwystrau cymhleth i weithio'. Roedd y costau fesul canlyniad swydd ar brosiectau cyflogadwyedd yn amrywio o £5,768 i £22,000, sy'n sylweddol uwch na'r gost fesul canlyniad cyflogaeth a gyflawnwyd ar Raglen Esgyn.

**Tabl 6.1: Dadansoddi Effeithiolrwydd Cost**

| Cost y Rhaglen | Canlyniadau Cyflogaeth | Cost fesul Swydd |
|---:|---:|---:|
| £4,115,000 | 1,099 | £3,744 |

### Dull o Asesu'r Effaith

6.8 Er mwyn cael asesiad mwy cadarn o effeithiau Rhaglen Esgyn, lluniwyd grŵp cymharu o bobl ddi-waith tebyg o bum chwarter yn yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu (QLFS) hydredol trwy ddefnyddio *paru hewristig* yn seiliedig ar hanes diweithdra unigolion (yn ddi-waith hirdymor).

6.9 Roedd tair ffactor yn dirymu'r gallu i baru â grŵp cymharu drwy ddefnyddio ystadegau (gan ddefnyddio Cydweddu Sgorau Tueddiad [PSM]):

- Yn y lle cyntaf, nid oedd y data a gasglwyd o ganolfannau Esgyn ond yn cynnwys data canlyniadau a oedd yn ddigon dibynadwy i ddadansoddi effaith ar ddechrau Chwarter 1 2016 yn unig. Felly, roedd yn rhaid cyfyngu ar y dadansoddiad effaith i'r 1,069 o gyfranogwyr yr oedd gennym ddata cyflawn ar eu cyfer ac a oedd wedi ymgysylltu â Rhaglen Esgyn yn ystod Chwarter 1 2016 neu'n hwyrach.

[54] OB3, (2017) Wales Ex-Post Evaluation Priority Review Paper: Increasing employment and tackling inactivity.

- Codai'r ail gyfyngiad yn sgil yr angen i allu astudio effeithiau hirdymor Rhaglen Esgyn, hynny yw, nid yn unig edrych ar y data cyflogaeth am un chwarter ar ôl yr ymgysylltiad ag Esgyn. Er mwyn edrych ar effeithiau hydredol (dros amser), roeddem am baru cyfranogwyr Esgyn ag ymatebwyr QLFS yr oedd gennym ddata ar eu cyfer am bob un o'r pum chwarter llawn. O ystyried amseriad ein dadansoddiad, roedd hyn wedi cyfyngu ar y defnydd o ddata QLFS i'r rheiny a ymunodd â'r arolwg yn ystod Chwarter 1 a Chwarter 2 yn 2016 ac sydd wedyn wedi 'gadael' QLFS (h.y. nid oeddent yn cymryd rhan ynddo) yn Chwarter 2 a Chwarter 3 2017 yn y drefn honno.
- Roedd y trydydd ffactor a olygai na ellid defnyddio Cydweddu Sgorau Tueddiad (PSM) yn deillio o'r ffordd y câi data ei gasglu ledled yr ardaloedd a gymerai ran yn Esgyn. Er y gwnaed pob ymdrech i safoni cymaint â phosibl ar y data hwnnw, roedd ansawdd amrywiol y data (h.y. y ffordd y cofnodwyd oedrannau) yn golygu mai ond set eithaf cul o newidynnau y gallem ei defnyddio i gynnal cyfatebiaeth â'r grŵp cymharu (QLFS). Mae Cydweddu Sgorau Tueddiad llwyddiannus yn dibynnu ar set gadarn o newidynnau dangosyddion cyffredin sydd ag amrywiad cyffredin; oherwydd y ffordd y casglwyd data yn lleol, roedd yn rhaid inni gyfyngu ar nifer y newidynnau oedd ar gael i'w dadansoddi a lleihau'r amrywiad ynddynt.[55]

6.10 O ddata Rhaglen Esgyn, roeddem wedi gallu pennu 415 o gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu â'r Rhaglen naill ai yn Chwarter 1 neu Chwarter 2 yn 2016 a rhai yr oedd gennym ddata canlyniadau dilys ar eu cyfer. Yna parwyd y cyfranogwyr hyn o'r Rhaglen ag ymatebwyr o'r QLFS a oedd yn bodloni'r meini prawf trothwy yn ogystal ag yn cyfateb i'r data demograffig, cymdeithasol a hanes cyflogaeth yn set ddata Esgyn.


6.11 Gan ddefnyddio paru hewristig, llwyddom i adnabod 177 unigolyn yn y QLFS i greu grŵp gwrthffeithiol hewristig.

[55] Un enghraifft, câi oedran ei gofnodi fel categori yn hytrach na rhif crai (newidyn parhaus) yn nifer o ganolfannau Esgyn. Yr enwadur cyffredin uchaf y gallem ei gynhyrchu oedd 16-24 neu 25 oed a throsodd wedi'i godio; yna roedd yn rhaid i ni alinio newidyn oedran yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu – QLFS (parhaus) gyda'n categorïau Esgyn ni.

**Effeithiau cyflogaeth**

6.12 Yn Ffigwr 6.1, rydym yn dangos y gyfran gymharol yn y ddau sampl a oedd mewn gwaith cyflogedig ar ôl pedwar chwarter (h.y. naill ai yn Ch1 2017 ar gyfer y rheiny a ymgysylltodd yn Ch1 2016 neu yn Ch2 2017 i'r rheiny a ymgysylltodd yn Ch2 2016). Dengys y data hwn, ar bwynt cyfatebol, fod 35 y cant (62/177) o ymatebwyr QLFS mewn cyflogaeth ar ôl pedwar chwarter, o'i gymharu â 29 y cant (122/415) o gyfranogwyr Esgyn a oedd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Fodd bynnag, ceir cyfran o gyfranogwyr yn y wybodaeth reoli sydd, yn ôl ein harolwg, yn cael eu diffinio fel "ymadawyr cynnar" – sef unigolion nad oeddent wedi cwblhau Cynllun Datblygu Personol ac nad oeddent wedi llwyddo i gael cyflogaeth cyn gadael. Pan dynnir y rhain o'r cohort, mae'r gyfradd trosglwyddo i gyflogaeth yn cynyddu i 33.6 y cant,[56] y mae modd ei gymharu â ffigwr y QLFS ac sy'n debyg iawn i'r ffigwr ar gyfer y Rhaglen gyfan a adroddwyd ar ddechrau'r adran hon (32.6 y cant).

**Ffigwr 6.1: Y Canran yn mynd i gyflogaeth ar ôl pedwar chwarter, cymharu Esgyn â QLFS**




[56] Mae data'r arolwg yn dangos cyfradd gyflogaeth o 30.7 y cant o'i gymharu â 29.4 y cant o'r data rheoli ar draws yr holl gyfranogwyr, sydd yn rhwydd o fewn lwfans gwallau'r arolwg. Felly, credwn ei fod yn rhesymol i gyffredinoli o'r arolwg i gymharu â phoblogaeth Esgyn, gan felly ddefnyddio'r gymhareb cyflogaeth 33.6 y cant.

6.13 Heblaw hynny, ni all y dadansoddiad hwn reoli'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol lleol yn y cymunedau a dargedwyd drwy'r Rhaglen oherwydd eu bod yn gymwys yn sgil eu dynodi yng Nghlwstwr Cymunedau yn Gyntaf, sydd ynddo'i hun yn adlewyrchu amddifadedd cynyddol a lluosog yn yr ardaloedd hynny o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mewn cyferbyniad, nid oes gennym unrhyw wybodaeth yn ymwneud â chyd-destun cymdeithasol-economaidd sampl y QLFS ac felly nid oes unrhyw ddulliau uniongyrchol o reoli'n ystadegol ar gyfer effeithiau cyd-destunol posibl. Cododd her debyg yn y gwerthusiad o effaith Rhaglen New Deal for Communities (un o'r Mentrau Ardal pwysicaf a lansiwyd erioed yn Lloegr), sef rhaglen £1.71bn a gynlluniwyd i gefnogi 39 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 1998 a 2008. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad, ar ôl ystyried nodweddion ymatebwyr unigol, nad oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y tebygrwydd y bydd preswylydd y NDC yn dechrau gweithio o'i gymharu â rhywun cyfatebol sy'n byw mewn ardal gymharol.[57] Nododd y gwerthusiad hwnnw hefyd fod mwy o debygolrwydd i drigolion fod mewn gwaith os yw'r ardal a dargedwyd mewn marchnadoedd llafur cryfach, ehangach. Yn ôl dadansoddiad arall yn y gwerthusiad, mae cyfradd cyflogaeth yr awdurdod lleol rhiant wedi'i gysylltu'n sylweddol a chadarnhaol â thebygolrwydd uwch o fod mewn gwaith.[58]

6.14 Er nad yw'n bosib paru nodweddion cyfranogwyr ag ardaloedd cymharu mewn ffordd debyg i'r hyn a wnaed yng ngwerthusiad y New Deal for Communities, mae Tabl 6.2 yn dangos y gostyngiad yng nghanran y rhai yn hawlio budd-daliadau yn ardaloedd Rhaglen Esgyn gan feincnodi hynny yn erbyn ardaloedd eraill yn Cymunedau yn Gyntaf nad ydynt yn Esgyn.[59] Dengys y tabl ar gyfartaledd fod yr ardaloedd Clwstwr a gymerodd ran yn Rhaglen Esgyn wedi perfformio'n well na'r Clystyrau hynny nad oeddent yn fuddiolwyr y Rhaglen (sy'n cyfateb i 250 o oedolion ychwanegol wedi'u symud i beidio â hawlio budd-daliadau ledled ardaloedd Rhaglen Esgyn o'u cymharu â'r Clystyrau nad oeddynt yn Esgyn). Er nad yw'n bosibl priodoli'r perfformiad a gofnodwyd i Raglen Esgyn, mae'n un elfen allweddol o wahaniaeth yn yr ardaloedd Clwstwr cymharu.

---

[57] Centre for Regional Economic and Social Research, Prifysgol Sheffield Hallam (2009) *Understanding and tackling worklessness volume 1: Worklessness, employment and enterprise: Patterns and change, evidence from the New Deal for Communities Programme,* Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG).
[58] Ibid.
[59] Nifer yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, budd-dal analluogrwydd a budd-dal rhiant unigol.

**Tabl 6.2: Newid yn y Gyfran o Oedran Gwaith sy'n Hawlio Budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth – 2013 yn erbyn 2016 (cyfartaledd pedwar chwarter)[60]**

| Clwstwr Esgyn | 2013 | 2016 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Dwyrain a Gorllewin Sir y Fflint | 19.8% | 16.0% | -3.8% |
| Ynys Môn | 23.7% | 19.4% | -4.3% |
| Llanelli | 27.9% | 24.3% | -3.6% |
| Gogledd-orllewin Abertawe | 26.8% | 22.7% | -4.1% |
| Cwm Afan | 23.1% | 19.8% | -3.3% |
| Gorllewin Taf | 23.4% | 17.7% | -5.7% |
| Dwyrain Caerdydd | 23.6% | 19.9% | -3.7% |
| Basn Caerffili a Chwm Rhymni Uchaf | 24.8% | 21.0% | -3.8% |
| Ebwy Fawr a Thredegar | 24.9% | 20.1% | -4.8% |
| **Ardaloedd Clwstwr Esgyn** | **24.2%** | **20.2%** | **-4.0%** |
| **Ardaloedd eraill Clwstwr CyG** | **24.0%** | **20.2%** | **-3.8%** |
| **Cymru** | **13.3%** | **11.0%** | **-2.3%** |


*Yr amser a gymerir i gael gwaith cyflogedig*

6.15 Mae'r dadansoddiad gwrthffeithiol cychwynnol yn rhoi canlyniad deuaidd unigryw (mewn gwaith / heb waith ar ôl pedwar chwarter) ac nid yw'n cyfrif am amseriad y symud i gyflogaeth. Felly, er mwyn archwilio'r data hwn yn llawnach, aethom ati i gymharu 122 o gyfranogwyr o Raglen Esgyn a gafodd gyflogaeth o fewn y pedwar chwarter gyda'r 94 o ymatebwyr QLFS a ddywedodd eu bod mewn cyflogaeth yn ystod pumed chwarter yr arolwg.

6.16 Yn Ffigwr 6.2 isod, dangosir faint o amser y mae'n ei gymryd i sicrhau cyflogaeth ar ôl cofrestru (Esgyn) neu'r arolwg cyntaf (QLFS). I gyfranogwyr Esgyn, mae'r rheiny sy'n llwyddo i gael cyflogaeth o fewn blwyddyn o ymgysylltiad ar gyfartaledd yn gwneud hynny 2.2 chwarter (h.y. 185 diwrnod) ar ôl ymgysylltu o'i gymharu â 3.6 chwarter (h.y. 302 diwrnod) i'r rheiny nad ydynt ar raglen Esgyn y dywedir iddynt gael cyflogaeth o fewn blwyddyn yn y QLFS.

[60] Data Budd-daliadau DWP, Nomis. Cyfrifir data 2016 drwy ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer y boblogaeth oedran gweithio o 2015, wedi'u codi o wefan: www.nomisweb.co.uk

**Ffigwr 6.2: Yr amser (mewn chwarteri) a gymerir i gael cyflogaeth, cymharu Esgyn â QLFS (cyflogedig ar ôl pedwar chwarter yn unig)**




6.17 Gallwn ddod i'r casgliad felly pan fo cyfranogwyr Esgyn yn gallu dod o hyd i waith o fewn blwyddyn o ymgysylltu â'r Rhaglen, maent yn treulio ar gyfartaledd 117 o ddyddiau yn llai yn ddi-waith o'i gymharu â'r grŵp cymharu.

**Dadansoddi Cost a Budd**

6.18 Mae Tabl 6.3 isod yn crynhoi'r costau a'r buddion a astudir yn y gwerthusiad hwn yn unol â chanllawiau DWP.[61] Mae cost a budd y Rhaglen wedi cael eu hystyried o safbwynt:

- cyfranogwyr Rhaglen Esgyn;
- y rheiny sy'n cyflogi cyfranogwyr;
- y Trysorlys (h.y. safbwynt cyllideb y Llywodraeth);
- cymdeithas.

[61] Gweler er enghraifft: *Sector-based work academies – A quantitative impact assessment*, Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2016)

**Tabl 6.3: Cost a budd Rhaglen Esgyn ac i bwy**

| | Safbwynt | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effaith Rhaglen Esgyn** | **Cyfranogwyr** | **Cyflogwyr** | **Llywodraeth** | **Cymdeithas** |
| Costau'r Rhaglen | 0 | 0 | - | - |
| Costau atgyfeirio | 0 | 0 | - | - |
| Costau cyflogwyr | 0 | - | 0 | 0 |
| Cynnydd mewn cyflogau | + | - | 0 | 0 |
| Cynnydd mewn allbwn | 0 | + | 0 | + |
| Talu llai o fudd-daliadau | - | 0 | + | 0 |
| Cynnydd mewn derbyniadau treth | - | - | + | 0 |
| Gostyngiadau mewn costau gofal iechyd | 0 | 0 | + | + |
| Cynnydd mewn costau teithio a gofal plant | - | 0 | 0 | - |
| Effeithiau ar les | + | 0 | 0 | + |
| Ailddosbarthu costau a buddion | + | 0 | 0 | + |
| Cost gymdeithasol Cyllid y Trysorlys | 0 | 0 | 0 | - |

Allwedd: '+' yn dynodi budd net, '-' yn dynodi cost neu; '0' yn dynodi dim cost na budd

*Costau'r Rhaglen*

6.19 Mae costau sefydlu a gweinyddu Rhaglen Esgyn yn gost i'r Trysorlys ac i gymdeithas (gan ddargyfeirio adnoddau economaidd oddi wrth ddefnyddwyr eraill). Cyfanswm cost y rhaglen oedd £4,115,000. Cost gyfartalog y Rhaglen am bob cyfranogwr a gymerodd rhan yw £1,219 tra mai'r gost gyfartalog fesul canlyniad cyflogaeth yw £3,744.

*Costau Atgyfeirio*

6.20 Mae Rhaglen Esgyn yn elwa o gael atgyfeiriadau o sawl ffynhonnell (gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Ganolfan Byd Gwaith). Mae'r broses atgyfeirio yn cynnwys cost i'r sefydliad/asiant atgyfeirio, fodd bynnag, mae'r broses atgyfeirio yn hynod o effeithlon gyda dim/ fawr ddim baich gweinyddol. Felly, er bod costau, maent yn debygol o fod yn fach iawn ac yn annigonol i warantu gael eu cynnwys yn y dadansoddiad cost a budd.

*Costau Cyflogwyr*

6.21 Byddai cost hyfforddi i gyflogwyr lleol (sy'n cynrychioli cost posibl i gyflogwyr ac felly i gymdeithas) wedi digwydd ar gyfer lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth. Er gwaethaf hyn, dim ond nifer fach o gyflogwyr lleol a oedd yn fwriadol wedi ymgysylltu â Rhaglen Esgyn gan fod llawer o gyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth wedi'u sicrhau i gyfranogwyr drwy'r farchnad agored. O

ganlyniad, dim ond nifer fechan o gyfranogwyr a fyddai wedi creu cost hyfforddi ***ychwanegol*** i gyflogwyr lleol (pan gynigid hyfforddiant pwrpasol ac unswydd ar gyfer cyfranogwyr Esgyn) ac o ganlyniad, byddai'r gost hon yn debygol o fod ar raddfa fach iawn.

6.22 Ymysg y cyflogwyr a frocerwyd yn genedlaethol, roedd pob cyflogwr wedi ymgysylltu'n fwriadol â Rhaglen Esgyn i gynnig lleoliadau gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth. Daeth cyfleoedd o'r math hwn yn gynyddol gyffredin wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi a'r cyflogwyr fyddai'n debygol o ysgwyddo'r costau. Wedi dweud hynny, mewn sawl ardal byddai'r cyfleoedd wedi cael eu cynnig ar y farchnad agored beth bynnag, a Rhaglen Esgyn yn arwain at ystyriaeth gychwynnol i gyfranogwyr oedd â diddordeb. Felly, er nad yw'n ddibwys, ni ellir cyfrifo'r gost net ychwanegol yn rhwydd i'w defnyddio yn y dadansoddiad cost a budd.

*Cynnydd mewn Cyflogau*

6.23 Mae dadansoddi effaith Rhaglen Esgyn wedi nodi cyfranogwyr yn symud yn gynt i gyflogaeth ac, felly, mae'r cynnydd mewn cyflogau yn cyfeirio at yr amser ychwanegol a dreulir mewn cyflogaeth gan gyfranogwyr. Mae cyflogau yn fudd i'r cyfranogwyr ond mae cost i'w cyflogwyr; mae hyn yn golygu nad ydynt yn gost nac yn fudd i gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

6.24 Adroddwyd mai'r cyflog cyfartalog yn ystod y ddau chwarter yr aeth cyfranogwyr Esgyn i gyflogaeth a ddadansoddir yma yw £8.42/awr, ac adroddwyd mai ar gyfartaledd nifer yr oriau yr wythnos a weithiai'r cohort hwn oedd 28 awr yr wythnos. I chwyddo hyn yn gymesur, cyfrifwn fod y cyfranogwr Esgyn cyffredin a sbardunwyd i gyflogaeth yn gynt trwy gymryd rhan yn y Rhaglen wedi ennill £3,940.56 mewn cyflog.[62] Yn ôl ein dadansoddiad ni, llwyddodd 33.6 y cant[63] o gyfranogwyr i gael cyflogaeth, a hynny'n cyfateb i tua £1,324 o gyflog ychwanegol fesul cyfranogwr.

[62] £8.42 yr awr am 28 awr yr wythnos yw £33.68 y diwrnod, wedi'i luosi gan 117 am y dyddiau o'u cael yn gynt i mewn i gyflogaeth.
[63] Gweler y rhesymeg gynharach dros y codi o 29.4 y cant i 33.6 y cant.

*Cynnydd mewn Allbwn*

6.25 Mae cynnydd mewn allbwn yn cyfeirio at yr allbwn economaidd a gynhyrchir gan gyfranogwyr o ganlyniad i amser ychwanegol mewn cyflogaeth. Mae'r allbwn hwn yn fudd i gyflogwyr (sy'n ei werthu) a chymdeithas (sy'n gwneud defnydd ohono). Awgryma ymchwil DWP[64] y gellir, yn sgil absenoldeb tystiolaeth, ddefnyddio nifer o ragdybiaethau wedi'u symleiddio:

- Mae'r farchnad lafur yn gwbl gystadleuol a bydd cyflogwyr yn llogi gweithwyr hyd at y pwynt lle mae gwerth uned allbwn ychwanegol yn gyfwerth â chost neu elw ffiniol cynhyrchu cysylltiedig.
- Mae cost cynhyrchu ac felly gwerth yr allbwn yn gyfwerth â thaliadau cyflog gros a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

*Gostyngiadau mewn Talu Budd-daliadau*

6.26 Mae gostyngiad mewn talu budd-daliadau yn cyfeirio at y gostyngiad net mewn hawl i gael budd-daliadau ac ymgeisio amdanynt pan fydd cyfranogwyr yn treulio amser ychwanegol mewn cyflogaeth o ganlyniad i Raglen Esgyn. Mae hyn yn gost i gyfranogwyr ond er budd y Trysorlys, sy'n golygu nad oes unrhyw gost neu fudd net i gymdeithas gyfan (heblaw trwy effeithiau ailddosbarthu, gweler isod). Mae dadansoddi'r gostyngiad mewn taliadau budd-dal yn cyfateb i arbed £1,058 amcangyfrifedig i'r Trysorlys fesul cyfranogwr Esgyn sy'n mynd i gyflogaeth (yn seiliedig ar effeithiau cyflymu) a £355 fesul cyfranogwr pan ddefnyddir cymhareb cyfranogwyr Esgyn i gyflogaeth (33.6 y cant).

*Cynnydd mewn Derbyniadau Treth*

6.27 Mae hyn yn cyfeirio at dreth incwm, Yswiriant Gwladol a refeniw treth anuniongyrchol sy'n deillio o gyfranogwyr yn treulio rhagor o amser mewn cyflogaeth o ganlyniad i Raglen Esgyn. Mae hyn o fudd i'r Trysorlys ond mae cost i gyfranogwyr a chyflogwyr, sy'n golygu nad oes unrhyw gost net neu fudd i gymdeithas yn ei chyfanrwydd (heblaw trwy effeithiau ailddosbarthu, gweler isod).

[64] Gweler Adran Gwaith a Phensiynau (2016) *Sector-based work academies – a quantitative impact assessment*, DWP, ac Adran Gwaith a Phensiynau (2016) *Work experience – a quantitative impact assessment*, DWP.

*Gostyngiad mewn Costau Gofal Iechyd*

6.28 Mae hyn yn cyfeirio at y gostyngiad a ragwelir yng nghostau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG/NHS) pan fydd unigolyn yn llwyddo i gael gwaith cyflogedig. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu llu o rwystrau ychwanegol ymhlith cyfranogwyr Esgyn a fyddai'n debygol o fod wedi costio i'r GIG, ac mae ymchwil[65] wedi dangos tystiolaeth o berthynas achosol rhwng statws cyflogaeth unigolyn a defnydd o GIG.[66] Mae hyn felly er budd y Trysorlys (trwy leihau gwariant y GIG) ac i gymdeithas (gan y gellid rhoi'r adnoddau economaidd a ddyrannwyd i ddarpariaeth gofal iechyd at ddefnydd arall).

*Cynnydd mewn Costau Teithio a Gofal Plant*

6.29 Mae hyn yn cyfeirio at y costau teithio a gofal plant ychwanegol y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i sicrhau cyflogaeth. Mae gwybod statws priodasol a sefyllfa aelwydydd cyfranogwyr Esgyn sydd wedi llwyddo i gael gwaith yn rhoi modd amcangyfrif y cyfranogwyr tebygol sydd wedi mynd i gyflogaeth y bydd costau gofal plant yn effeithio arnynt. Mae teithio a gofal plant yn cynrychioli cost i gymdeithas gan eu bod yn dargyfeirio adnoddau economaidd o ddefnyddiau eraill arnynt.

*Effaith ar Les*

6.30 Disgrifiodd cyfranogwyr Rhaglen Esgyn welliannau amlwg i'w lles personol. Mae gan y rhain effeithiau cadarnhaol ar yr unigolyn ac ar gymdeithas, ond mae mesur gwerth y buddion hyn yn hynod o anodd a thu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael i'r gwerthusiad hwn.

*Cost a Budd wedi'u hailddosbarthu*

6.31 Mae hyn yn cyfeirio at ailddosbarthu cost a budd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo ariannol rhwng cyfranogwyr, cyflogwyr a'r Trysorlys yn unol â'r fethodoleg sydd yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.[67] Mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth bod cyfranogwyr (sydd ag incwm cymharol isel) yn gwerthfawrogi pob punt ychwanegol yn fwy na chyflogwyr a'r trethdalwr arferol (sydd ill dau ag incwm

[65] Fujiwara, D. (2010) *The Department for Work and Pensions social cost-benefit analysis framework*. DWP
[66] Sy'n amcangyfrif pan fydd person di-waith yn symud i gyflogaeth, maent yn costio £614 yn llai yng nghostau GIG (yn seiliedig ar brisiau 2016) y flwyddyn.
[67] Trysorlys EM (2003) *Y Llyfr Gwyrdd*. Trysorlys EM.

chymharol uchel o'i gymharu â chyfranogwyr). Yn unol â chanllawiau,[68] amcangyfrifir costau a buddion wedi'u hailddosbarthu trwy ddefnyddio 'pwysoliad lles' o 25 i drosglwyddiadau ariannol a wneir i gyfranogwyr y Rhaglen ac oddi wrthynt.

*Cost Gymdeithasol Cyllid y Trysorlys*

6.32 Mae cost gymdeithasol Cyllid y Trysorlys yn cyfeirio at y gost o godi'r refeniw treth sy'n ofynnol i ariannu Rhaglen Esgyn. Awgryma argymhellion cychwynnol[69] y tybir bod cost gymdeithasol Cyllid y Trysorlys yn gyfwerth ag 20 y cant o gostau net y Rhaglen i'r Trysorlys, ond gan fod yr amcangyfrif hwn yn destun cryn ansicrwydd, dim ond fel rhan o'r dadansoddiad sensitifrwydd y caiff ei ystyried.

**Canfyddiadau'r Dadansoddi Cost a Budd**

6.33 Mae Tabl 6.4 yn cyflwyno amcangyfrifon cost a budd Rhaglen Esgyn, sy'n seiliedig ar y rhagdybiaethau gwaelodlin canlynol:

- Mae cyfradd uwch y symud i gyflogaeth a gofnodwyd ymhlith y grŵp cymharu dan ddylanwad trwm ffactorau cyd-destun a chryfder y farchnad lafur leol yn ehangach.
- Amcangyfrif ceidwadol, petai sefyllfaoedd amgylchiadau'r grŵp cymharu a'r grŵp ymyrraeth yn debyg, yw y byddai cyfraddau symud i gyflogaeth o leiaf yr un fath â'r hyn a gafwyd ymhlith y grŵp cymharu.
- Mae gwerth yr allbwn a gynhyrchir yn ystod y cyfnod cyflymach i gyflogaeth yn gyfwerth â thaliadau cyflog gros cymesur a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.
- Mae'r Rhaglen yn arwain at ailddosbarthu costau a buddion ond nid yw'n arwain at effeithiau amnewid neu gost gymdeithasol sy'n gysylltiedig â Chyllid y Trysorlys

[68] Fujiwara, D. (2010) *The Department for Work and Pensions Social Cost-Benefit Analysis Framework*. Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
[69] Ibid.

**Tabl 6.4: Amcangyfrif cost a budd Rhaglen Esgyn i Gyfranogwyr Esgyn o dan Ragdybiaethau Gwaelodlin[70] (wedi'u talgrynnu i'r £50 agosaf)**

| | Cost/budd (£) | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effaith Rhaglen Esgyn** | **Cyfranogwyr** | **Cyflogwyr** | **Llywodraeth** | **Cymdeithas** |
| Costau'r Rhaglen | 0 | 0 | -1,200 | -1,200 |
| Costau atgyfeirio | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau cyflogwyr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnydd mewn cyflogau | + 1,300 | -1,300 | 0 | 0 |
| Cynnydd mewn allbwn | 0 | +1,400 | 0 | +1,400 |
| Talu llai o fudd-daliadau | -350 | 0 | +350 | 0 |
| Cynnydd mewn derbyniadau treth | -100 | -50 | +150 | 0 |
| Gostyngiadau mewn costau gofal iechyd | 0 | 0 | +50 | +50 |
| Cynnydd mewn costau teithio a gofal plant | -100 | 0 | 0 | -100 |
| Effeithiau ar les | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthu costau a buddion | +1,900 | 0 | 0 | +1,900 |
| Cost gymdeithasol Cyllid y Trysorlys | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Budd net** | **+2,650** | **+50** | **-650** | **+2,050** |

6.34 Yn seiliedig ar y dadansoddiad cost a budd, mae'n amlwg fod cyfranogwyr Rhaglen Esgyn ar eu hennill o oddeutu £2,650 fesul cyfranogwr; mae cymdeithas hefyd ar ei hennill yn bennaf o ganlyniad i'r allbwn ychwanegol a gynhyrchid gan y cyfranogwyr hynny a oedd wedi cyrraedd gwaith cyflogedig yn gynt. Fodd bynnag, mae cost i'r Trysorlys o tua £650 am bob cyfranogwr a gefnogir, a hynny dan ddylanwad trwm y gost fesul cyfranogwr a ymgysylltir drwy'r Rhaglen.

### Dadansoddiad Sensitifrwydd[71]

*Amnewid*

6.35 Mae effeithiau amnewid (*substitution*) yn codi pan fo cyfranogwr Esgyn yn cael cyflogaeth ar draul cystadleuwyr yn y farchnad lafur. Mae maint yr amnewid yn dibynnu ar ble mae'r Rhaglen yn rhoi pwyslais ar ymyriadau – ar ochr y galw, gan ddylanwadu ar y galw sydd gan gyflogwyr am bobl i'w cyflogi, neu a ydynt yn ymyriadau ar yr ochr gyflenwi, yn cefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau, chwilio am swyddi etc.

[70] Cyflwynir y dadansoddiad sy'n sail i'r cyfrifiadau hyn yn Atodiad C
[71] I'w ychwanegu os credir ei fod yn briodol.

6.36 Mae Rhaglen Esgyn yn hyn o beth ychydig yn hybrid, gan ddefnyddio polisïau ar ochr y galw i sicrhau cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol ar yr un pryd â defnyddio ymyriadau ar yr ochr gyflenwi gyda chyfranogwyr Esgyn. Cafodd mwyafrif y cyfranogwyr gyflogaeth trwy recriwtio ar y farchnad agored ac mae'r Rhaglen yn amlwg yn ymyrryd yn bennaf ar yr ochr gyflenwi. Felly, mae effaith amnewid o 22 y cant wedi'i gymhwyso fel rhan o'r dadansoddiad sensitifrwydd.[72]

**Tabl 6.5: Amcangyfrif cost a budd Rhaglen Esgyn o dan ragdybiaethau senarios amgen**

| | Cost/budd (£) | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Senario** | **Cyfranogwyr** | **Cyflogwyr** | **Llywodraeth** | **Cymdeithas** |
| Rhagdybiaeth gwaelodlin | +2,650 | +50 | -650 | +2,050 |
| Effeithiau amnewid wedi'u cynnwys | +2,650 | +50 | -800 | +1,750 |
| Cost gymdeithasol Cyllid y Trysorlys wedi'i chynnwys | +2,650 | +50 | -750 | +2,050 |
| Rhagdybiaethau ceidwadol | +750 | +50 | -800 | -150 |
| Rhagdybiaethau Optimistaidd | +3,550 | +50 | -500 | +2,650 |

6.37 Yn y senarios uchod, mae'r Rhagdybiaeth Geidwadol yn rhagdybio nad yw Rhaglen Esgyn yn arwain at ailddosbarthu cost a budd ond ei bod yn arwain at effeithiau amnewid.

6.38 Mae'r Rhagdybiaeth Optimistaidd yn rhagdybio bod cyfradd uwch o gyflogaeth gynaliadwy o 10 y cant ymysg cyfranogwyr Esgyn sydd wedi cael cyflogaeth o'i gymharu â'r grŵp cymharu. Mae'r rhagdybiaeth hon yn seiliedig ar natur y gyflogaeth a ddarperir, yn enwedig cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol.

[72] Argymhellir (gweler Fujiwara, D. (2010) *The Department for Work and Pensions Social Cost-Benefit Analysis Framework*. DWP) cymhwyso cyfradd amnewid o 45 y cant ar gyfer rhaglenni ar ochr y galw a chyfradd o 20 y cant ar gyfer rhaglenni ar yr ochr cyflenwi, ac felly dyna pam cymhwyso 22 y cant yn yr achos hwn.

# 7. Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion

7.1 Mae'r adran hon yn pwyso a mesur y canfyddiadau trwy'r adroddiad ac yn edrych eto ar y theori newid sydd yn Atodiad A er mwyn ystyried effeithiolrwydd model Esgyn yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd ac a ellid gwella effeithlonrwydd gweithredol y Rhaglen.

*Rhesymeg y Rhaglen*

7.2 Mae cyfraddau diweithdra yng Nghymru yn parhau i ostwng, ynghyd â chyfradd gyfatebol yr aelwydydd heb waith; fodd bynnag, mae'r ffigyrau cyffredinol yn celu cynnydd yng nghyfran a nifer yr oedolion sy'n ddi-waith ers dros bum mlynedd a mwy. Mae mwy na thraean (39 y cant) o gyfranogwyr Rhaglen Esgyn yn perthyn i'r categori hwn ac ers mis Ionawr 2016 mae 15 y cant o'r garfan hon o'r cyfranogwyr wedi sicrhau cyflogaeth, gan ddangos y rôl y mae'r Rhaglen wedi'i chael wrth ymgysylltu a chefnogi unigolion y cyfeirir atynt yn aml fel rhai o'r rhai anoddaf i'w cyrraedd a'u helpu.

7.3 Ymddengys mai elfen allweddol yn llwyddiant y Rhaglen yw'r pwyslais ar ddarpariaeth wedi'i theilwra'n benodol i amgylchiadau unigolion fel y dangosir yn Theori Newid y Rhaglen, gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau uniongyrchol a hefyd ddarparu llwybrau clir tuag at gyflogaeth.

7.4 Pwysleisiai rhesymeg y Rhaglen y dylai cymhwyster cymryd rhan fod yn gysylltiedig ag unigolion o aelwydydd sydd wedi bod yn ddi-waith ers mwy na chwe mis. Pan weithredwyd y maen prawf hwn yn llym, awgryma'r dystiolaeth ei fod o bosibl wedi arwain at ragfarn anghyfartal tuag at aelwydydd oedd ag un oedolyn sengl yn ychwanegol at y targed craidd o aelwydydd aml-ddeiliadaeth sydd wedi dioddef o ddiweithdra hirdymor.

7.5 I fod yn gymwys i'r Rhaglen roedd cyfyngiadau yn ôl ardaloedd daearyddol a hynny'n seiliedig ar ragdybiaethau cadarn, ac ystyrid mai Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf oedd y platfform mwyaf priodol i gyflwyno'r Rhaglen drwyddo. Wrth i'r Rhaglen ddatblygu, bu rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch y cyfyngiadau tynn ar bwy oedd yn gymwys ac mae tystiolaeth bosibl o ddirlawnder y farchnad o ran nifer y cyfranogwyr cymwys oedd ar gael mewn ardal ddaearyddol benodol. Elfen i'w chroesawu felly yw y bydd y cynllun Cymunedau am Waith a Mwy (dan yr enw blaenorol Grant Cyflogadwyedd) yn gweithredu â rhagor o hyblygrwydd heb dargedu daearyddol.

*Adnoddau*

7.6 Cynigiai'r Rhaglen gymorth dwys i'r cyfranogwyr am oddeutu £1,000 am bob person oedd yn cofrestru a £1,200 am bob cyfranogwr a gymerai ran weithredol (o'i gymharu â chost ddisgwyliedig o £1,333 am bob cyfranogwr yn y Rhaglen Waith).[73][74] Mae adnoddau staffio a gweinyddol wedi eu cadw i'r lleiafswm, gan felly gynnig lefel uchel o effeithlonrwydd Rhaglen ond serch hynny yn cynyddu'r perygl i'r Rhaglen o fod yn agored i sawl risg. Yn sgil y tueddiad i dimau'r ardaloedd cyflenwi gynnwys dau aelod o staff yn unig, ni roddai hyn fawr o wydnwch a dyfalbarhad pe na bai un ohonynt ar gael. Roedd yr adnoddau gweinyddol prin wedi'u dyblygu ar lefel y Rhaglen gyda dau aelod o staff penodol yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli Esgyn.

7.7 Dynodwyd yr ardaloedd cyflenwi yn berchnogion data ar y dystiolaeth a gasglwyd, ac mae hynny wedi cyfyngu ar olrhain manwl ar y cyfranogwyr drwy'r Rhaglen hyd nes y cam hwn o'r gwerthusiad. Roedd y broses hon o gasglu data yn ddwys ar adnoddau i'r ardaloedd cyflenwi a'r gwerthuswyr ill dau.

**Argymhellion**

- Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, dylid cytuno yn gynnar ar ofynion clir ynghylch data cyfranogwyr, a defnyddio profiad gwerthusiadau effaith blaenorol (gweler Atodiad D).
- Dylai rhaglenni yn y dyfodol fabwysiadu dulliau cyson o gasglu a chategoreiddio'r wybodaeth a gasglwyd.
- Dylai rhaglenni yn y dyfodol sicrhau bod y data a gasglwyd yn cael ei lanlwytho i gronfa ddata ganolog er mwyn galluogi cynnal asesiad cymharu yn ogystal â sicrhau fod y data a gesglir yn gynhwysfawr ac yn gyson.
- Mae angen darparu digon o adnoddau ac amser paratoi er mwyn galluogi datblygu canllawiau manwl ar ofynion a disgwyliadau'r rheiny sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau.

[73] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014) *The Work Programme*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).
[74] Er bod y Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi llunio dadansoddiad diweddarach lle amcangyfrifir mai'r gost am bob cyfranogwr yw £1,214, maent yn disgwyl i hwn godi ymhellach wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi. Gweler: Sefydliad Dysgu a Gwaith (2016) *Work Programme Statistics – Learning and Work Institute Analysis*, Sefydliad Dysgu a Gwaith.

*Gweithgareddau*

7.8 Mae natur y gweithgareddau a gynhaliwyd drwy'r Rhaglen wedi parhau yn gyson i raddau helaeth gan roi cryn hyblygrwydd yn y dull gweithredu. Mae hon yn elfen bwysig gan iddi alluogi Mentoriaid yn yr ardaloedd cyflenwi i addasu i'w sefyllfa yn lleol. Gwnaed hyn yn bosibl trwy osgoi cyllid yr ESF i ariannu'r Rhaglen, gan gynnig rhywfaint o hyblygrwydd nad oes modd ei gael mewn gweithgarwch wedi'i ariannu gan yr ESF.

7.9 Mae integreiddio â Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn amrywiol ei lwyddiant ac ar adegau mae wedi achosi dryswch ymhlith rhanddeiliaid allanol yn ogystal â rhwng staff Esgyn a'r Clystyrau.

7.10 Mae cyflwyno Cymunedau am Waith wedi cael effaith amrywiol, a hynny fel arfer yn gysylltiedig ag i ba raddau yr oedd timau Esgyn a'r Clystyrau wedi integreiddio. Yn y pen draw, mewn rhai ardaloedd mae wedi arwain at fwy o gystadleuaeth am gyfranogwyr oherwydd fod yr ardaloedd yn ddaearyddol dynn, ac mewn ardaloedd cyflenwi eraill, mae wedi bod yn gynnig defnyddiol ategol a'r ddwy raglen wedi elwa o hynny.

*Allbynnau*

7.11 Soniodd yr holl ardaloedd cyflenwi yn gyffredinol am ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau ym mlwyddyn olaf Rhaglen Esgyn a oedd wedi effeithio ar y llwythi achosion. Er bod nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng, eto parhau i gynyddu wnaeth nifer y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol ledled y rhan fwyaf o ardaloedd cyflenwi. Yn ystod blwyddyn olaf y Rhaglen, roedd cyfleoedd cenedlaethol yn cynrychioli 10 y cant o'r holl gyfleoedd a gynigid ac fe'u gwerthfawrogid yn fawr iawn gan gyfranogwyr Esgyn fel llwybrau i yrfaoedd sefydlog cynaliadwy mewn sector penodol. Mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu y gall y model hwn o gydweithio trawsadrannol gael effaith drawiadol ar gynlluniau cyflogaeth, ac mae cyhoeddiadau polisi diweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos y dilynir y llwybrau hyn ymhellach yn y dyfodol.[75]

[75] Llywodraeth Cymru (2018) *Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd*, Llywodraeth Cymru

*Canlyniadau*

7.12 Er gwaethaf yr arafu ymddangosiadol mewn atgyfeiriadau, parhaodd y Rhaglen i fod ar y blaen i'w phroffil gan gyflawni ei tharged o ddarparu 5,000 o gyfleoedd ddeufis yn gynt nag a ragwelwyd.

7.13 Dengys y dadansoddiad o'r wybodaeth reoli fod bron i un o bob tri o gyfranogwyr Esgyn wedi llwyddo i gael canlyniad cyflogaeth, gan ragori ar yr hyn a gyflawnwyd ar ôl 12 mis o gefnogaeth ar y Rhaglen Waith. Mae'r niferoedd a symudwyd i gyflogaeth yn fwy trawiadol pan ddadansoddir cefndir y cyfranogwyr ymhellach i roi dyfarniad gwybodus ar bellter o'r farchnad lafur: roedd gan un o bob chwech o'r cyfranogwyr gymwysterau is na Lefel 2 ac wedi bod yn ddi-waith ers mwy na phum mlynedd cyn cael gwaith cyflogedig.

7.14 O safbwynt canlyniadau, yn enwedig o ran nifer y cyfranogwyr sydd wedi cael cyflogaeth, mae'r Rhaglen wedi rhagori ar y disgwyliadau. Mae dadansoddi'r wybodaeth reoli yn awgrymu rhywfaint o amrywiad mewn perfformiad yn hyn o beth, sy'n gwarantu ymchwiliad pellach i sicrhau bod yr arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau yn cael eu rhannu. O ran cyfleoedd eraill a gyflwynwyd trwy Raglen Esgyn, nid oes digon o wahaniaeth amlwg rhwng yr opsiynau gwahanol (Hyfforddiant Galwedigaethol: Lleoliad Gwaith, Paratoi at Gyflogaeth Lawn Amser). Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i weld pa rôl y mae'r cyfleoedd hyn wedi'i gael yn llwyddiant y Rhaglen.

7.15 Ceir tystiolaeth o symud ymlaen ar y daith tuag at gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr hynny sy'n parhau i fod heb waith, er bod yr ymdeimlad o hyder i gael swydd yn syrthio rhywfaint pan fo cyfranogwyr yn dal i geisio dod o hyd i waith ar adeg yr ail gyfweliad.

7.16 Hefyd o bwys yw'r gwelliannau mewn hunanganfyddiadau ynghylch y gallu i gadw swydd ymhlith y cyfranogwyr heb swydd ac ar draws yr holl ddangosyddion lles i'r rheiny oedd yn rhan weithredol yn y Rhaglen. Mae hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r gefnogaeth ddwys gofleidiol (*wraparound*) a roddwyd i gyfranogwyr, a hwythau fe ddywedir, wrth ymuno â'r Rhaglen, yn aml yn byw bywydau caotig ac anrhefnus.

7.17 Oherwydd pwysau adnoddau ar dimau gweithredu Esgyn, mae'r gefnogaeth ar ôl i gyfranogwyr gael cyflogaeth yn llai strwythuredig na'r hyn a ragwelwyd. Awgryma adborth gan gyflogwyr y byddai croeso i'r math hwn o gefnogaeth o gofio natur y rhwystrau sydd gan y cohort hwn.

***Argymhellion***

- Dylid darparu adnoddau penodol i gynorthwyo cyfranogwyr a chyflogwyr (pan fo cyflogwyr yn ymwybodol eu bod wedi recriwtio trwy raglen gyflogadwyedd).
- Dylid sefydlu naratifau clir sy’n gysylltiedig ag allbynnau a chanlyniadau (cyfleoedd yn yr achos hwn) i sicrhau bod eglurder a chysondeb yn y ffordd y caiff y rhain eu dehongli.
- Dylid rhoi mecanweithiau ar waith i alluogi casglu data cyfranogwyr mewn da bryd ar gyfer gwaith maes sylfaenol ar adegau allweddol yn nhaith y cleient trwy raglen gymorth (gweler atodiad D).
- O ran dulliau cyfweld ac ail gyfweld yn y dyfodol i olrhain cyfranogwyr, dylid cynnal y rhain dros amserlenni sy’n cyd-fynd â’r grŵp cymharu er mwyn cynorthwyo wrth asesu’r effaith ar gyfranogwyr.
- Dylid archwilio opsiynau ar gyfer olrhain cyfranogwyr i’r hirdymor ar ôl diwedd y rhaglen, yn enwedig lle ystyrir bod cadw tebygol ar swydd gyflogedig yn elfen allweddol o ychwanegolrwydd sy’n deillio o’r gefnogaeth sydd ar gael.

*Asesu Gwerth am Arian*

7.18 Mae asesu gwerth am arian Rhaglen Esgyn trwy ddadansoddi effeithiolrwydd cost yn arwain at gost fesul canlyniad cyflogaeth o £3,744. Mae hyn ar ben isaf y ffigyrau a ragwelwyd yn y cynllun busnes ac mewn cynlluniau cyflogadwyedd yn gyffredinol. O gofio’r grŵp targed a gefnogwyd drwy’r Rhaglen, ar sail y dadansoddiad hwn mae’r Rhaglen yn werth da iawn am arian.

7.19 O ran y dadansoddi cost a budd ehangach, mae nifer o gyfyngiadau yn y set ddata sy’n tanseilio cadernid y dull. Mae natur dargededig Rhaglen Esgyn a’i hymgysylltiad â’r rheiny a ystyrir fel rheol i fod y rhai anoddaf i’w cyrraedd a’u cynorthwyo yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith mai dim ond nifer fach o’r unigolion yn yr Arolwg Chwarterol (sef ffynhonnell y grŵp cymharu) sy’n cyfateb â phrif nodweddion cyfranogwyr Esgyn.

7.20 Roedd maint bach y sampl a'r diffyg gwybodaeth fanwl am y lleoliadau daearyddol yn ei gwneud hi'n amhosibl rheoli ar gyfer cyd-destun economaidd-gymdeithasol y grŵp cymharu, ac ni wyddys a yw'r rheini o'r grŵp cymharu yn byw mewn ardaloedd a ddynodwyd i fod ymysg y mwyaf difreintiedig yn y wlad ai peidio. Yn hyn o beth, anodd iawn yw cynnal dadansoddiad cost a budd cadarn ar gynllun sydd wedi'i dargedu'n llym ar ardal benodol.

7.21 Awgryma ymchwil y Llywodraeth[76] a gwerthusiadau eraill[77] fod adroddiadau hanes unigolion yn y farchnad lafur sydd yn yr Arolwg o'r Llafurlu yn llai dibynadwy na'r data gweinyddol a gesglir yn rheolaidd gan DWP. Er hyn, nid yw DWP wedi rhyddhau data hanes llawn y farchnad lafur at ddibenion gwerthuso rhaglenni. Pe bai'r wybodaeth hon ar gael, byddai'n cryfhau'n fawr gadernid y dadansoddiad cost a budd ac yn galluogi pennu grŵp cymharu sy'n cyfateb yn well.

***Argymhelliad***

- Dylid ceisio cael cytundebau â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i rannu gwybodaeth weinyddol er mwyn gwella dilysrwydd data hanes y farchnad lafur ar gyfer grŵp cymharu a chynyddu pwysigrwydd y dadansoddiad ystadegol sy'n sail i'r dadansoddiad cost a budd.

*Casgliadau*

7.22 Mae Rhaglen Esgyn wedi gweithredu'n llwyddiannus fel rhaglen gyflogadwy hyblyg sydd wedi mynd ati i dargedu yn ddaearyddol, gan gefnogi unigolion sy'n bell o'r farchnad lafur.

7.23 Gweithredodd y Rhaglen drwy fodel gweithredu effeithlon, gan ddefnyddio isadeiledd sy'n bodoli eisoes (er i raddau amrywiol) a thargedu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfranogwyr y Rhaglen. Roedd yr adnoddau prin iawn a oedd yn gysylltiedig â'r Rhaglen serch hynny wedi cyfyngu ar ei gwydnwch wrth golli staff yn yr ardaloedd cyflenwi, staff a oedd wedi chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y Rhaglen.

---

[76] Bibby, D. et al. (2015) *Impact of skills and training interventions on the unemployed: Phase I report*. Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Papur Ymchwil. 158

[77] Sefydliad Dysgu a Gwaith a Wavehill (2016) *Gwerthusiad o'r Peilot ar gyfer Amodoldeb Sgiliau: Adroddiad Terfynol* Llywodraeth Cymru

7.24 Mae Rhaglen Esgyn wedi bod yn effeithiol wrth ddarparu cefnogaeth cyflogadwyedd, gan sicrhau cynnydd sylweddol ymysg cyfranogwyr yn eu hyder i gael swydd a'i chadw.

7.25 Mae'r Rhaglen hefyd yn cyflwyno tystiolaeth glir o symud cyfranogwyr yn gyflymach i gyflogaeth ac mae wedi sicrhau canlyniadau cyflogaeth i bron i draean o'r cyfranogwyr, a llawer o'r rheiny erioed wedi gweithio o'r blaen neu wedi bod yn ddi-waith ers dros bum mlynedd.

Daeth rhagor o gyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol i fod ar gael yn ehangach ar draws yr ardaloedd cyflenwi wrth i'r Rhaglen ddatblygu ac mae'n rhoi syniad o'r rôl lwyddiannus y gall cydweithio trawsadrannol ei chael wrth gyflawni deilliannau ar raglenni o'r natur hwn.

**Adran Cyfeiriadau**


Adran Gwaith a Phensiynau (2016) *Sector-based work academies – a quantitative impact assessment*, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Adran Gwaith a Phensiynau (2016) *Work experience – a quantitative impact assessment*, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Belfield, C. et al. (2016) *Living standards, poverty and inequality 2016*, Institute for Fiscal Studies

Bibby, D et al. (2015). *Impact of Skills And Training Interventions On The Unemployed: Phase I Report*. Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Papur Ymchwil. 158

Centre for Regional Economic and Social Research, Prifysgol Sheffield Hallam (2009) *Understanding and tackling worklessness volume 1: Worklessness, employment and enterprise: Patterns and change, evidence from the New Deal for Communities Programme,* (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol) DCLG.

Crowther, R.E. et al. (2000) '*Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review*', BMJ http://www.bmj.com/content/322/7280/204

Fujiwara, D. (2010) *The Department for Work and Pensions Social Cost-Benefit Analysis Framework*, DWP

Llywodraeth Cymru, *Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd, 2012* – Bwletin Ystadegol, 4 Medi 2013.

Llywodraeth Cymru (2013) *Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith – Briff,* heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2016) *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*, Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2017) *Arfarniad Integredig Strategol – Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol*, Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2017) *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol – Symud Cymru Ymlaen*, Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2018) *Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd*, Llywodraeth Cymru

OB3, (2017) *Wales Ex-Post Evaluation Priority Review Paper: Increasing employment and tackling inactivity*.

Sefydliad Dysgu a Gwaith (2016) *Work programme statistics – learning and work institute analysis*, Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Sefydliad Dysgu a Gwaith a Wavehill (2016) *Gwerthusiad o'r Peilot ar gyfer Amodoldeb Sgiliau: Adroddiad Terfynol,* Llywodraeth Cymru.

Trysorlys EM (2003) *Y Llyfr Gwyrdd*, Trysorlys EM.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014) *The Work Programme*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Families in the labour market, labour force survey*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Atodiad B: Offer Ymchwil

### Canllaw Trafod y Cyfweliadau â'r Rheolwyr Clwstwr

**Cefndir:**

1. Fel cyflwyniad, a fedrwch chi'n gryno ddisgrifio eich rôl o ran rheoli/gweithredu Rhaglen Esgyn yn eich clwstwr?
2. Tua phryd gawsoch chi eich penodi i'r rôl hon?
3. Sut mae gweithredu Esgyn yn gweithio ochr yn ochr â Chymunedau yn Gyntaf yn eich clwstwr chi?
4. Pe byddai gofyn i chi lunio disgrifiad swydd ar gyfer rôl brocer/mentor Esgyn; sut fyddech chi'n disgrifio'r sgiliau / rhinweddau allweddol sydd eu hangen?

**Gweithredu'r Rhaglen**

5. O'r hyn a wyddoch chi, pa newidiadau (os o gwbl) sydd wedi cael eu gwneud i'r ffordd o weithredu Rhaglen Esgyn yn eich clwstwr yn ystod y 12 mis diwethaf?
6. Beth ydych chi'n teimlo yw amcanion Rhaglen Esgyn?
    a. Pa mor llwyddiannus y teimlwch y mae'r Rhaglen wedi bod wrth gyflawni'r amcanion hyn? Esboniwch eich ateb.
7. Pa elfennau o'r Rhaglen sy'n gweithio'n dda?
8. Pa elfennau o'r Rhaglen sydd ddim yn gweithio cystal?
9. A ydych wedi gorfod addasu neu ddiwygio unrhyw elfennau o Raglen Esgyn?
10. Os ydych, pa addasiadau neu ddiwygiadau ydych chi wedi'u gwneud?
11. Hyd y gwyddoch chi, i ba raddau y mae cyflwyno model Esgyn yn eich clwstwr wedi bod yn wahanol i'r hyn a wnaed mewn clystyrau eraill, os o gwbl?

**Effaith:**

12. [Mae gan bob ardal weithiwr Brysbennu sy'n atgyfeirio cyfranogwyr i CaW neu Esgyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau]
    a. Pa effaith y mae cyflwyno CaW wedi'i gael ar raglen Effaith yn eich ardal, os unrhyw effaith?
    b. Pa rôl sydd gan y gweithiwr Brysbennu?
    c. Yn seiliedig ar hyn a ddeallwch chi, sut mae gweithwyr Brysbennu yn penderfynu a ddylid cyfeirio cyfranogwr at CaW ynteu at Esgyn?

13. Pa mor dda ydych chi'n credu y mae'r Rhaglen yn eich clwstwr yn perfformio ar hyn o bryd yn erbyn targedau canlyniadau a thargedau gwariant?
14. A yw Esgyn yn ychwanegu gwerth i'r cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i drigolion cymwys yn eich clwstwr?
    a. Os ydi, ym mha ffyrdd?
15. O ran effaith y Rhaglen, a oes unrhyw wendidau posibl yng nghynllun y Rhaglen?
    a. Os oes, sut y credwch chi y gellid lliniaru'r rhain neu fynd i'r afael â nhw?
16. Yn eich barn chi, a oes unrhyw fylchau yn y cyfleoedd sydd ar gael i gyfranogwyr yn eich clwstwr?

**Casgliadau:**

17. Pa wersi ydych chi a'ch cydweithwyr wedi'u dysgu wrth weithredu'r rhaglen hon?
18. Pa newidiadau, os unrhyw rai, y gellid eu gwneud i wella'r rhaglen hon?
19. Pa gynlluniau (os unrhyw rai o gwbl) sydd ar y gweill i gynnal gweithgarwch Esgyn yn yr ardal leol ar ôl i'r Rhaglen ddod i ben?
20. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu nad ydym wedi cyfeirio ato, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

***Diolch yn fawr***

## Canllaw Trafod â Mentoriaid Esgyn

### Cefndir:

1. Fel cyflwyniad, a fedrwch chi'n gryno ddisgrifio eich rôl o ran gweithredu Rhaglen Esgyn yn eich clwstwr?
2. Tua phryd gawsoch chi eich penodi i'r rôl hon?
3. Pe byddai gofyn i chi lunio disgrifiad swydd ar gyfer eich rôl; sut fyddech chi'n disgrifio'r sgiliau / rhinweddau allweddol sydd eu hangen?
4. Pa sgiliau ychwanegol / newydd, os o gwbl, ydych chi wedi'u datblygu o ganlyniad i weithredu rhaglen Esgyn?

### Gweithredu'r Rhaglen

5. Gan ystyried y 12 mis diwethaf, ym mha ffyrdd, os o gwbl, ydych chi wedi addasu eich dulliau yn ymwneud â'r canlynol:
    a. Atgyfeirio a chysylltu – a allech chi egluro'n fras y broses ynghylch sut y caiff aelodau o aelwydydd di-waith eu hadnabod a chysylltu â nhw yn y lle cyntaf?
    b. Meithrin ymddiriedaeth â chyfranogwyr – A oes unrhyw heriau wedi bod wrth ddatblygu a chynnal perthynas â chyfranogwyr? Beth sydd wedi gweithio'n dda?
    c. Cynllunio gweithredu - Pa mor bwysig yw cynllunio gweithredu yn eich dull o gefnogi cyfranogwyr?
    d. A yw'r un faint o amser yn cael ei roi i bob cyfranogwr neu a yw cynllunio gweithredu yn ymateb i anghenion cyfranogwyr?
    e. Datblygu sgiliau cyflogaeth – Pa wahanol ffyrdd sydd gennych i ddod o hyd i gyfleoedd lleoliad gwaith i gyfranogwyr gyda chyflogwyr lleol? Disgrifiwch y broses yn llawn
    f. Symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy – Sut mae cyfranogwyr wedi ymateb i'r cyfleoedd sydd ar gael?
    g. [Pan fo cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau] O ran y cyfleoedd a frocerwyd yn genedlaethol, pa mor ddeniadol yn gymharol yw'r cyfleoedd hyn i gyfranogwyr? A yw cyfranogwyr yn tueddu i ddewis rhai cyfleoedd gwaith dros eraill? h.y. a oes yna fwy o alw am gyfleoedd yn y sector cyhoeddus?
6. Ar y cyfan, o'ch safbwynt chi,

    a. Pa mor llwyddiannus y teimlwch y mae'r Rhaglen wedi bod wrth gyflawni ei hamcanion? Esboniwch eich ateb

7. Pa elfennau o'r Rhaglen sy'n gweithio'n dda?
8. Pa elfennau o'r Rhaglen sydd ddim yn gweithio cystal?

9. A ydych wedi gorfod addasu neu fireinio unrhyw agwedd ar raglen Esgyn?

10. Os ydych, pa addasiadau neu welliannau ydych chi wedi'u gwneud?

**Effaith:**

11. [Mae gan bob ardal weithiwr Brysbennu sy'n atgyfeirio cyfranogwyr i CaW neu Esgyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau]
    a. Pa effaith y mae cyflwyno CaW wedi'i gael ar raglen Esgyn yn eich ardal, os unrhyw effaith?
    b. Pa rôl sydd gan weithiwr Brysbennu?
    c. Yn seiliedig ar hyn a ddeallwch chi, sut mae gweithwyr Brysbennu yn penderfynu a ddylid atgyfeirio cyfranogwr at CaW ynteu at Esgyn?
12. Pa mor dda ydych chi'n credu y mae'r rhaglen yn eich clwstwr yn perfformio ar hyn o bryd yn erbyn targedau canlyniadau a thargedau gwariant?
13. A yw Esgyn yn ychwanegu gwerth i'r cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i drigolion cymwys yn eich clwstwr?
    b. Os ydi, ym mha ffyrdd?
14. O ran effaith y Rhaglen, a oes unrhyw wendidau posibl yng nghynllun y Rhaglen?
    b. Os oes, sut y credwch chi y gellid lliniaru'r rhain neu fynd i'r afael â nhw?

**Casgliadau:**

1. Pa wersi ydych chi wedi'u dysgu wrth weithredu'r rhaglen hon?
2. Pa newidiadau, os unrhyw rai, y gellid eu gwneud i wella'r rhaglen hon?
3. A oes unrhyw gwestiynau y credwch chi sy'n bwysig neu'n werthfawr i'r gwerthusiad edrych arnynt yn rownd derfynol y cyfweliadau â chyfranogwyr?
4. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu nad ydym wedi cyfeirio ato, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

## Canllaw Trafod â'r Cyflogwyr

### *Cefndir*

1. A allwch roi amlinelliad byr o'r hyn mae eich sefydliad yn gwneud a beth yw eich rôl yn y sefydliad?

### *Ymwybyddiaeth*

2. A oeddech chi / ydych chi'n ymwybodol bod y profiad gwaith / cyfle a roesoch ar gyfer cyfranogwr drwy raglen Esgyn? Os ydych, ydych chi'n gallu cofio sut y daethoch i wybod am raglen Esgyn (a thrwy bwy)? *[Os yw'r cyflogwr yn cael trafferth cofio, yna soniwch am enw'r Brocer]*

3. Am ba resymau y penderfynoch ymwneud â Rhaglen Esgyn?

### *Natur eich rôl*

4. Pa fathau o gyfleoedd ydych chi wedi'u cynnig i gyfranogwyr Esgyn? (Rhowch frasamcan o'r nifer os ydych wedi cynnig sawl cyfle o fath gwahanol)

5. Sut cafodd cyfranogwyr Esgyn wedyn eu recriwtio i'r cyfleoedd hynny? (A ddefnyddioch chi ryw fath o broses ddewis, er enghraifft?)

6. A yw'r cyfleoedd y mae cyfranogwyr Esgyn wedi'u cael yn:

   a. Gyfleoedd "newydd" (ychwanegol) wedi'u creu mewn ymateb i Raglen Esgyn

   b. Cyfleoedd a oedd yn bodoli eisoes a allai fod wedi mynd allan i'r farchnad agored sydd yn lle hynny wedi'u targedu at gyfranogwyr Esgyn

   c. Cymysgedd o'r uchod (os felly, tua pha ganran sy'n newydd)

7. Cyn i gyfranogwyr Esgyn fanteisio ar y cyfleoedd, pa gyswllt (os o gwbl) oedd gennych â Mentor/Brocer Esgyn?

   a. Pa mor ddefnyddiol oedd hyn?

   b. A allai natur y cyswllt â'r Brocer/Mentor gael ei gwella o gwbl?

### *Profiad o Gyfranogwyr Esgyn*

8. Pa fath o brofiad a gawsoch o Gyfranogwyr Esgyn?

   a. A wnaeth y cyfranogwyr fynychu'r holl gyfarfodydd gofynnol yn rheolaidd?

   b. Sut beth oedd eu hagwedd?

   c. Sut maent wedi perfformio mewn cyfleoedd o gymharu â phobl wedi'u recriwtio drwy ddulliau eraill?

## *Effaith Rhaglen Esgyn*

9. Beth, yn eich tyb chi, yw'r effeithiau nodweddiadol a welwyd gennych ar gyfranogwyr yn sgil manteisio ar y cyfleoedd a ddarparwyd gan eich sefydliad?

10. A fyddech yn argymell i sefydliadau eraill tebyg i'ch un chi gymryd rhan yn Rhaglen Esgyn?

    a. Pam eich bod yn dweud hynny?

11. Pan nad ydych yn recriwtio drwy raglenni fel Esgyn, sut ydych chi fel arfer yn recriwtio?
    a. Pan ydych chi'n recriwtio ydych chi fel arfer yn annog pobl o gefndiroedd dan anfantais i ymgeisio? (os ydych, sut?)

12. A yw eich profiad o Raglen Esgyn wedi arwain at unrhyw newidiadau o ran ymarfer/dulliau recriwtio/ymgysylltu? Os ydyw, beth a sut?

13. A yw eich ymwneud â Rhaglen Esgyn wedi cael unrhyw effaith arall (cadarnhaol neu negyddol) ar eich sefydliad?

## *Adfyfyrio*

14. Pa elfennau o fodel Esgyn y credwch sy'n hanfodol i'w lwyddiant wrth gynorthwyo'r grŵp hwn o unigolion? Pam ydych chi'n credu hynny?

15. A oes unrhyw elfennau o fodel Esgyn y gellid eu gwella?
    a. Beth ydynt, ac ym mha ffordd y gellid eu gwella?

16. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu nad ydym wedi cyfeirio ato, neu a hoffech godi unrhyw fater nad ydym wedi'i drafod?

**Cyfranogwyr Esgyn – Ail gyfweliad**

1. Ydych chi'n dal i gael cymorth drwy raglen Esgyn? (*nodyn briffio - gall fod yn anodd i gyfranogwr bennu a ydynt yn dal i gael cymorth neu beidio; yn yr achos hwn, gofynnwch iddynt pryd wnaethon nhw gwrdd neu siarad â'u mentor/brocer ddiwethaf)*

   a. (os na) pryd oedd y mis diwethaf i chi gael cymorth? (*ychwanegwch y mis*)
   b. (os do) ydych chi'n gallu cadarnhau natur y cymorth yr ydych yn ei gael ar hyn o bryd

2. Ga' i wirio ambell i beth o'r tro diwethaf i ni siarad â chi ym mis Mai/Mehefin eleni? Mi ddywedoch chi wrthym eich bod chi'n [*rhowch yr ateb blaenorol o'r waelodlin*]:
   a. Gweithio'n llawn amser
   b. Gweithio'n rhan-amser
   c. Hunangyflogedig
   d. Mewn hyfforddiant / addysg
   e. Gwirfoddoli
   f. Profiad gwaith
   g. Yn ddi-waith - yn chwilio am waith
   h. Yn ddi-waith - salwch hirdymor
   i. Rhiant sy'n aros gartref
   j. Arall

3. A oes unrhyw newidiadau wedi bod i hyn? (*os nac oes, neidiwch i 4*) Os oes, fedrwch chi gadarnhau beth yw eich sefyllfa nawr?

   a. Gweithio'n llawn amser
   b. Gweithio'n rhan-amser
   c. Hunangyflogedig
   d. Mewn hyfforddiant / addysg
   e. Gwirfoddoli
   f. Profiad gwaith
   g. Yn ddi-waith - yn chwilio am waith
   h. Yn ddi-waith - salwch hirdymor
   i. Rhiant sy'n aros gartref
   j. Arall

**Canlyniadau Cyflogaeth**

Mae'r adran hon ar gyfer y rheiny sydd mewn rhyw fath o gyflogaeth yn unig (*dim ond y rheiny a atebodd a/b/c i 2/3 uchod ac sy'n gyflogedig – pawb arall, i'r adran nesaf*)

4. A yw'r rôl rydych chi'n cael eich cyflogi ynddi yn gysylltiedig â'r swydd a gawsoch drwy Raglen Esgyn? Ydi (cw5) / Nac ydi (cw6)

5. (*I'r rheiny sydd wedi cael cyfle cyflogaeth drwy Esgyn*) Fedrwch chi sôn am y broses aethoch chi drwyddi i gael y swydd hon? (*holwch a oedd wedi dechrau fel lleoliad profiad gwaith, natur y cymorth a gawsant i gael y swydd ac ati*)

    a. Pa gymorth (os o gwbl) rydych chi wedi'i gael gan eich Mentor/Rhaglen Esgyn ers cael y swydd honno?

    b. Pa gwmni/sefydliad ydych chi'n gweithio iddo?

    c. Ym mha fis wnaethoch chi ddechrau yn y swydd hon (dechrau cael eich talu am y rôl hon os profiad gwaith)? (nawr ewch i gwestiwn 7)

6. (*I'r rheiny sydd wedi cael cyflogaeth tu allan i Esgyn*) Fedrwch chi ddisgrifio'n fyr sut cawsoch chi'r swydd hon?

    a. Ai dyma'r swydd gyntaf rydych chi wedi'i chael ers cael cymorth gan Raglen Esgyn? (ie (ewch i 7))

        *i. (Os naci)* Pa swyddi eraill ydych chi wedi'u cael ers cael cymorth Rhaglen Esgyn? *(cyfwelydd i nodi nifer y swyddi a hyd yr amser ym mhob swydd)*

    b. Ym mha fis wnaethoch chi ddechrau yn eich rôl ddiweddaraf?

7. (*Pawb mewn cyflogaeth*) Ydych chi'n gallu disgrifio eich rôl bresennol yn fyr gan gynnwys teitl y swydd?
    *[wedi'i godio i arolwg swyddi SOC]*

    a. Ydych chi'n malio dweud wrthym beth yw eich cyflog?
    *[cofnodwch y ffigwr a chadarnhau a yw'r ffigwr yn gyflog dyddiol/wythnosol/misol blynyddol]*

8. Ar ôl cael cefnogaeth drwy Raglen Esgyn, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch:

| | Hyderus iawn | Eithaf hyderus | Ddim yn hyderus iawn | Ddim yn hyderus o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| Cael dyrchafiad neu mwy o gyflog yn y swydd yr ydych ynddi nawr | | | | |
| Dod o hyd i swydd newydd sydd â chyflog uwch ac/neu mwy o gyfrifoldebau | | | | |

a. Eglurwch eich ateb (ar gyfer y ddau uchod) – cwestiwn agored

9. Pa wahaniaeth mae cael swydd wedi'i wneud i'ch bywyd?

*(cwestiwn agored – holwch am resymau heblaw rhai ariannol, h.y. hyder, rhoi trefn feunyddiol, strwythur, cyfle i gwrdd pobl, mathau gwahanol o bobl etc.)*

10. Pa wahaniaeth mae/oedd cael swydd wedi'i wneud i fywydau'r rheiny sy'n agos i chi?

*(cwestiwn agored – holwch ynghylch yr effaith y mae wedi'i gael ar bobl eraill sy'n byw yn y tŷ gyda nhw, eu ffrindiau agosaf/teulu a chyfoedion etc.)*

*Nawr ewch i gwestiwn 14*

**Cyfranogwyr Esgyn nad ydynt ar hyn o bryd yn gyflogedig**

11. Gaf i holi beth yw'r amgylchiadau pam nad ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd?

12. Ar raddfa o 0-10, dwedwch wrthym ba mor agos neu bell yr ydych yn bersonol yn teimlo'r ydych chi o allu dod o hyd i swydd? (0 heb fod yn agos o gwbl a 10 yn barod i weithio)

a. A pha mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch…:

| | Hyderus iawn | Eithaf hyderus | Ddim yn hyderus iawn | Ddim yn hyderus o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| Dod o hyd i swydd | | | | |
| Cadw'r swydd honno | | | | |

b. A oes unrhyw rwystrau penodol y teimlwch fod angen i chi eu goresgyn er mwyn cyrraedd y cam hwnnw? (o gael swydd a'i chadw)?

*(Cwestiwn agored)*

13. A oes unrhyw fath o gymorth yr ydych chi'n dal i deimlo bod ei angen arnoch chi i'ch helpu i gael gwaith nad ydych wedi cael trwy Esgyn?

**Adfyfyrio**

14. Pa elfennau o'r cymorth ydych chi'n teimlo sydd wedi bod yn fwyaf defnyddiol i chi a pham? (cwestiwn agored)

15. Ydych chi'n credu bod eich rhagolygon swydd i'r hirdymor yn well nawr na phan wnaethon ni siarad â chi o'r blaen? Ydi/nac ydi/ddim yn gwybod

    a. (*Os ydi*) A yw hynny oherwydd y cymorth a gawsoch?
    b. A yw oherwydd unrhyw reswm arall hefyd? (eglurwch)

16. Ers i ni siarad â chi y tro o'r blaen, ydych chi wedi derbyn unrhyw gymorth ychwanegol i'ch helpu i gael cyflogaeth neu i helpu gyda hyfforddiant yn ogystal â'r hyn a gawsoch drwy Raglen Esgyn? (*os naddo ewch i gwestiwn 17*)

    a. (Os do) Ydych chi'n gallu cofio enwau'r sefydliadau wnaeth roi'r cymorth hwn i chi ac/neu natur y cymorth a gawsoch?
    b. Sut mae hyn yn cymharu â'r cymorth a gawsoch drwy Esgyn?

| Llawer gwell nag Esgyn | Rhywfaint yn well nag Esgyn | Tua'r un fath ag Esgyn | Rhywfaint yn waeth nag Esgyn | Llawer gwaeth nag Esgyn |
|---|---|---|---|---|

    c. (os nad yr un fath ag Esgyn) A allwch ddweud pam wrthym?

17. Y tro diwethaf i ni siarad â chi, mi ddywedoch chi wrthym eich bod chi'n (*llenwch o gwestiwn 16 blaenorol [eu trefniadau cartref]*); a yw hyn yn dal yn gywir? (*os ydi, ewch i gwestiwn 17a*), os nad ydi, ydych chi'n gallu cadarnhau eich sefyllfa bresennol?

    (Y *cyfwelydd i ganfod a ydynt yn byw ar eu pen eu hunain, gyda rhieni neu gyda phartner/fel rhan o deulu a faint o bobl sydd dros 16 oed yn y cartref*)

    *Os oes unrhyw un dros 16 oed yn y cartref, gofynnwch gwestiwn 17a, fel arall, ewch i* 18

    a. Y tro diwethaf i ni siarad, fe ddywedoch fod [rhywun/neb] yn eich cartref yn cael cymorth gan Raglen Esgyn. A yw hynny'n dal yn wir? (os ydi, ewch i 18)

(os nad yw) A yw hi'n wir dweud felly fod [rhywun/neb] yn eich cartref yn cael cymorth gan Raglen Esgyn?

18. A fyddech gystal â rhoi gwybod inni os yw unrhyw un o'r digwyddiadau mawr bywyd canlynol wedi digwydd i chi ers i ni siarad ddiwethaf?[78]

   a. Wedi dechrau perthynas hirdymor newydd
   b. Wedi priodi
   c. Wedi symud i mewn gyda phartner
   d. Wedi cael genedigaeth yn y teulu
   e. Perthynas â phartner/gŵr/gwraig wedi dod i ben
   f. Wedi ysgaru
   g. Rhywun yn y teulu neu'n agos i chi wedi marw
   h. Wedi cael trafferth dod o hyd i rywle i fyw ynddo
   i. Wedi dechrau swydd newydd
   j. Swydd flaenorol wedi dod i ben
   k. Wedi cael trafferthion ariannol
   l. Wedi dioddef trosedd yn eich erbyn
   m. Wedi bod mewn trafferth gyda'r gyfraith
   n. Rhywbeth arall

   a. [Am bob un o'r digwyddiadau mawr bywyd a restrwyd uchod] Sut ydych chi'n teimlo ynghylch [y digwyddiad hwn]?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwael iawn | Gweddol wael | Ddim yn dda nac yn wael | Yn dda | Yn dda iawn |

### *Elfen Hydredol: Cyfweliadau ffôn yn unig*

Mae'r cwestiynau canlynol yn rhestr o osodiadau ynghylch sut rydych yn ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd, maen nhw'n ailadrodd rhestr a ofynnwyd y tro diwethaf inni siarad â chi. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno â phob eitem gan ddefnyddio'r raddfa hon:

[78] Mae'r cwestiynau am ddigwyddiadau mawr mewn bywyd wedi'u cynnwys i reoli ar gyfer ffactorau y mae ymchwil wedi dangos eu bod yn cyfrannu at newidiadau mewn lles, hunaneffeithiolrwydd a hapusrwydd (gweler, er enghraifft: "Resilience to Major Life Stressors Is Not as Common as Thought", *Perspectives on Psychological Science* Mawrth 1, 2016 11: 175-194; "Adaptation and the Set-Point Model of Subjective Well-Being; Does Happiness Change After Major Life Events?", *Current Directions in Psychological Science* April 2007 cyfrol 16(2): 75-79). Yn ei hanfod, mae'r model (rhagdybiedig) o addasiad hedonig - mae'r syniad bod pobl yn dychwelyd i lefelau sylfaenol o ran lles a bodlonrwydd bywyd ar ôl i ddigwyddiadau mawr bywyd symud y lefelau hynny dros dro - wedi cael ei wrthdroi gan dystiolaeth arolygon mawr sydd wedi dangos yn argyhoeddiadol bod digwyddiadau bywyd yn gallu symud lefelau boddhad yn barhaol. Felly, er enghraifft, nid yr hyn sy'n bwysig yn hanes cwrs bywyd yw p'un a yw unigolyn yn briod ai peidio; yn hytrach, y weithred o briodi yw'r ffactor newid. Er mwyn rheoli ar gyfer dylanwad aflonyddwch digwyddiadau mawr bywyd ar lefelau lles a hunan-effeithiolrwydd, credwn fod angen cynnwys fersiwn 'darbodus' (cynnil) o'r cwestiynau digwyddiad mawr bywyd cyffredinol sydd mewn arolygon torfol ar les. Yma, rydym wedi addasu'r digwyddiadau o holiadur cynhwysfawr digwyddiadau mawr bywyd dan arweiniad Ysgol Nyrsio Prifysgol California, er ein bod yn nodi, yn wahanol i'r arolwg hwnnw, nad ydym yn gofyn am gyfeiriadoldeb digwyddiadau mawr (effaith gadarnhaol, effaith negyddol).

*1 = ddim yn wir o gwbl; 2 = anaml yn wir; 3 = yn eithaf gwir; 4 = yn gwbl wir*

*Caiff pob un o'r 20 cwestiwn eu gofyn ar hap*

***Graddfa Hunaneffeithiolrwydd Cyffredinol:***

Gallaf bob amser ddatrys problemau anodd os ydw i'n trio yn ddigon caled.

Os yw rhywun yn fy ngwrthwynebu, gallaf ddod o hyd i ffordd o gael yr hyn rwy eisiau.

Mae'n hawdd imi lynu wrth fy amcanion a'u cyflawni.

Rwy'n hyderus y gallwn ddelio yn effeithiol â digwyddiadau annisgwyl.

Diolch i fy nyfeisgarwch, rwy'n gwybod sut i ddelio â sefyllfaoedd nad oedd modd eu rhagweld.

Gallaf ddatrys y rhan fwyaf o broblemau os ydw i'n buddsoddi'r ymdrech sydd ei hangen.

Gallaf aros yn ddi-gynnwrf wrth wynebu anawsterau oherwydd gallaf ddibynnu ar fy ngallu i ymdopi.

Pan rwy'n wynebu problem, gallaf feddwl am sawl ateb fel arfer.

Os ydw i mewn trafferthion, gallaf fel arfer feddwl am ateb.

Fel arfer, gallaf ddelio â beth bynnag a ddaw i'm rhan.

***Graddfa Hunaneffeithiolrwydd ar gyfer Dysgu:***

Mae dysgu sgiliau newydd yn ddiddorol imi.

Pan welaf fod angen imi wneud hynny, gallaf ddatblygu sgiliau newydd.

Rwy'n elwa llawer o ddysgu.

Rwy'n gweld mynd ar gwrs hyfforddiant yn beth syml.

Rwy'n dueddol o gofio'r pethau a gaiff eu dysgu mewn hyfforddiant.

***Agweddau tuag at Gyflogaeth:***

Gallwn gael swydd petawn eisiau un. [*dilëwch os ydynt mewn gwaith*]

Gall gwaith roi boddhad.

Mae swydd allan yna i mi. [*dilëwch os ydynt mewn gwaith*]

Os na allaf gael un swydd, gallaf gael un arall.

Gallaf gyrraedd fy amcanion o ran gwaith.

***Cwestiynau Lles ONS:***

Mae’r cwestiynau canlynol yn ymwneud â’ch teimladau ar hyn o bryd. Atebwch bob un ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu nad ydych yn fodlon o gwbl a 10 yn golygu yn gwbl fodlon:

Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych yn teimlo â’ch bywyd y dyddiau hyn?

Yn gyffredinol, i ba raddau rydych yn teimlo bod y pethau a wnewch yn fuddiol?

Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi’n teimlo ddoe?

Yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech chi’n teimlo ddoe?

Yn olaf, a fyddech chi’n fodlon i rywun gysylltu â chi yn y dyfodol ynghylch eich profiad ar Raglen Esgyn?

## Atodiad C: Rhagdybiaethau Dadansoddi Cost a Budd

**Cynnydd mewn cyflogau:**

- Y cyflog a adroddwyd ar gyfartaledd gan ymatebwyr yr ail gyfweliad oedd mewn gwaith cyflogedig: £8.42 yr awr
- Oriau gweithio bob wythnos ar gyfartaledd ymysg ymatebwyr yr ail gyfweliad oedd mewn gwaith cyflogedig: 28 awr
- 28 x £8.42 = £235.76 ar gyfartaledd yr wythnos
- Effaith cyflymu yn sgil cymorth Rhaglen Esgyn o 117 diwrnod yn cyfateb i enillion wedi'u cyflymu o £3,940.56 i gyfranogwyr sy'n gyflogedig.
- Cyfradd cyflogaeth o 33.6% yn cyfateb i £1,324 o gyflog ychwanegol am bob cyfranogwr Esgyn.

**Cynnydd mewn allbwn**

- "Mae gwerth yr allbwn a gynhyrchwyd yn ystod cyflogaeth ychwanegol heb ei sybsideiddio yn gyfwerth â thaliadau cyflog gros cymesur a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr"[79]
- Trothwy cyfraniad Yswiriant Gwladol - £157 yr wythnos
- Yswiriant Gwladol wedi'i gymhwyso i £78.75 ar 13% = £10.23 yr wythnos
- Yswiriant Gwladol ychwanegol a geir o ganlyniad i'r effeithiau cyflymu - £117 am bob cyfranogwr Esgyn i gyflogaeth
- Y gyfradd gyflogaeth 33.6% yn cyfateb i £57.5 am bob cyfranogwr Esgyn

**Gostyngiadau mewn Talu Budd-daliadau**

- Mae'r gostyngiad mewn talu budd-daliadau yn seiliedig ar ostyngiad yn y JSA yn unig, nid yw'n cyfrif am newidiadau mwy cymhleth yn y budd-daliadau a hawlir oherwydd diffyg mynediad i fodel efelychiad polisi DWP.
- Budd-dal JSA wedi'i brisio yn £73.10 (cyfradd uwch wedi'i gymhwyso i wrthbwyso yn rhannol yn absenoldeb gostyngiad i fudd-daliadau eraill)
- Yn cyfateb i £1,058 o ostyngiad mewn budd-daliadau am bob cyfranogwr Esgyn yn mynd i gyflogaeth (oherwydd effeithiau cyflymu)
- Yn cyfateb i £355 am bob cyfranogwr Esgyn pan gymhwysir y gymhareb i gyflogaeth

**Cynnydd mewn derbyniadau treth**

- Enillion wythnosol cyfartalog i gyfranogwr Esgyn sy'n gyflogedig yn cyfateb i gyflog blynyddol o £12,259
- Treth ac Yswiriant Gwladol ar gyflog blynyddol o £12,259 yn cyfateb i £15 yr wythnos
- Effaith cyflymu i gyflogaeth yn creu £250 o dreth ychwanegol am bob cyfranogwr Esgyn sydd mynd i gyflogaeth
- Yn cyfateb i £84 am bob cyfranogwr Esgyn pan gymhwysir y gymhareb i gyflogaeth

---

[79] Adran Gwaith a Phensiynau (2016) *Work experience – a quantitative impact assessment*, DWP

- Yswiriant Gwladol ychwanegol i gyflogwyr (gweler y ffigwr allbwn) o £57
- Cyfanswm cynnydd derbyniadau treth o £141 am bob cyfranogwr Esgyn

**Gostyngiadau mewn costau gofal iechyd**

- Sylwch fod hyn yn debygol o gael ei amcangyfrif yn rhy isel oherwydd y pellter nodweddiadol o'r farchnad lafur / bywyd caotig cyfranogwyr Esgyn oherwydd bod cymarebau nad ydynt yn rhai ESA wedi'u cymhwyso o ganllawiau DWP[80]
- Mae data sy'n deillio o brisiau 2008 wedi eu diweddaru gan ddefnyddio datchwyddydd CMC[81] i roi'r gwerth yn 2016 (£614) y flwyddyn
- Mae defnyddio cymarebau ar gyfer yr effaith cyflymu i gyflogaeth yn cyfateb i leihad mewn costau iechyd o £196 i gyfranogwyr Esgyn
- Defnyddio'r gymhareb i gyflogaeth yn cyfateb i £66 am bob cyfranogwr Esgyn

**Gofal plant**

- Mae costau gofal plant yn cyfateb i £814 y flwyddyn i gyfranogwyr cyflogedig yn ôl gwerthoedd presennol
- Mae gan 28% o gyfranogwyr blant neu'n rhan o deulu
- Cymhwyso'r effaith cyflymu a'r cyfrannau sydd â phlant a'r cyfrannau sydd â chyflogaeth yn cyfateb i £24.5 am bob cyfranogwr Esgyn

**Teithio**

- Yn cyfateb i gynnydd o £512 y flwyddyn mewn costau teithio yn ôl prisiau cyfredol (gan ddefnyddio canllawiau DWP fel gwaelodlin)
- Yn cyfateb i £167 am bob cyfranogwr Esgyn sy'n mynd i gyflogaeth (gan ddefnyddio cymarebau effeithiau cyflymu)
- Yn cyfateb i £56 am bob cyfranogwr Esgyn (wrth ddefnyddio cymarebau cyfranogwyr i gyflogaeth).

---

[80] Fujiwara, D. (2010) *The Department for Work and Pensions Social Cost-Benefit Analysis Framework*. DWP
[81] https://www.gov.uk/government/collections/gdp-deflators-at-market-prices-and-money-gdp

## Atodiad D: Y Gofynion Casglu Data a Awgrymir

I'r rhan fwyaf o raglenni cyflogadwyedd, gofynnir y cwestiynau priodol er mwyn galluogi cynnal gwerthusiad trylwyr o'r effaith, ond mae'r ffordd y mae'r data hwnnw'n cael ei gofnodi a'i storio yn hanfodol i lwyddiant y gwerthusiad. Mae trosglwyddo data yn gynnar i gronfa ddata electronig (a gedwir yn ganolog ond sydd â mynediad lleol) yn ffactor allweddol i gyfrannu at fonitro a gwerthuso rhaglen yn llwyddiannus.

Yn ddelfrydol, dylai'r gwerthuswyr a gomisiynwyd fod yn rhan o ddylunio neu gynnal adolygiad cynnar o ddyluniad y gronfa ddata a dylent gael mynediad uniongyrchol i'r gronfa ddata er mwyn gallu adnabod ac ymgysylltu â chyfranogwyr ar adegau priodol yn eu taith drwy'r rhaglen.

Pan gaiff cronfa ddata ei chreu mae'n hanfodol bod y meysydd ymateb yn cael eu 'cloi' i helpu i osgoi gwallau wrth eu llenwi neu amrywio yn y cynnwys a gesglir. Mae rhai awgrymiadau ynghylch fformat data wedi'u nodi yn y tabl isod gyda rhai wedi'u disgrifio yn feysydd "fformat cyson" y gellid hefyd eu cloi i roi modd cofnodi cynnwys ar fformat penodol yn unig.

Lle bo hynny'n bosibl, dylai categorïau a chodau gyd-fynd gymaint ag y bo modd ag arolygon ac ystadegau swyddogol (er enghraifft, dylai categorïau'r farchnad lafur gyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir yn yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu).

| **Categori Data** | **Fformat y Data** |
|---|---|
| Enw cyntaf | Enw cyntaf |
| Cyfenw | Cyfenw |
| Dyddiad geni | dd/mm/bb |
| Rhyw | g/b/well gen i beidio dweud |
| Tarddiad Ethnig | Fformat cyson |
| Statws priodasol | Fformat cyson, cyd-fynd â'r Arolwg o'r Llafurlu |
| Statws yr aelwyd | Fformat cyson, cyd-fynd â'r Arolwg o'r Llafurlu |
| Cymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf | Dosbarthiad defnydd o'r iaith Gymraeg LIC/ONS |
| Dyddiad cofrestru | dd/mm/bb |
| Cyfeiriad gan gynnwys y cod post | Fformat cyson, gwirio'r cod post |
| Rhif ffôn | Fformat cyson |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost | Fformat cyson |
| Darparwr Arweiniol | Fformat cyson |
| Atgyfeirio? (do/naddo) Tarddiad yr atgyfeiriad | Fformat cyson |
| Cael budd-daliadau? | Ydi/Nac ydi (rhagdybio credyd cynhwysol felly dim dadansoddi’r math o fudd-dal) |
| Gwerth y budd-daliadau | £xxxx y mis (rhifau) |
| Hyd cyfnod bod yn ddi-waith | Categoreiddio cyson, cyd-fynd â’r Arolwg o’r Llafurlu |
| Cymhwyster uchaf a gafwyd | Categoreiddio cyson (NQF) |
| Math o ganlyniad a gafwyd | Categoreiddio cyson |
| Dyddiad y cafwyd y Canlyniad gan gynnwys mynd i gyflogaeth | dd/mm/bb |
| Gadael y Rhaglen yn Gynnar | Dyddiad y cofnodwyd bod y cyfranogwr wedi gadael y rhaglen yn gynnar (dd/mm/bb) |
| Rheswm dros adael yn gynnar | Categoreiddio cyson |
| Atgyfeirio | Dyddiad ac i ble y’i hatgyfeirwyd |
| Natur y Gyflogaeth a gafwyd | Llawn amser/rhan-amser/dros-dro/parhaol (categoreiddio cyson) |
| Teitl y Swydd | |
| | |
| Uned y cyflog ar gyfer y swydd | Fesul awr/diwrnod/wythnos/mis/blwyddyn |
| Cyflog y swydd | £xxx (rhifau |

## Atodiad E: Dadansoddiad Technegol Adroddiad Esgyn

Er mwyn ymchwilio i'r cysylltiad rhwng cymryd rhan yn y Rhaglen, canlyniadau cyflogaeth, a lles, aethom ati i gyfuno'r setiau data a ddaeth o'r wybodaeth reoli a ddarparwyd gan ardaloedd Esgyn a'r arolygon cyfweliad cyntaf ac ail gyfweliad a gynhaliwyd gan Wavehill. Llwyddwyd hefyd i ychwanegu data yn ymwneud â chyd-destun diweithdra trwy gyfateb data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) â chod post yr ymatebydd, er na ddefnyddiwyd hyn yn y dadansoddiad cyfredol.[82]

Roedd y set ddata a gyfatebwyd yn cynnwys 327/365 o gofnodion cyflawn ar gyfer y rheini a oedd wedi cwblhau'r cyfweliad cyntaf a 145/153 o gofnodion cyflawn ar gyfer y rhai a oedd wedi cwblhau'r cyfweliad cyntaf a'r ail gyfweliad (gweler Tabl E1).

**Tabl E.1: Sampl cyfweliad/ail gyfweliad, data cyflawn**

| Ardal | Cyfweliad | Ail gyfweliad | Cyfradd ail gyfweliad |
|---|---|---|---|
| Cwm Afan | 21 | 11 | 52% |
| Ynys Môn | 36 | 19 | 53% |
| Ebwy Fawr a Thredegar | 27 | 15 | 56% |
| Basn Caerffili a Chwm Rhymni Uchaf | 55 | 23 | 42% |
| Dwyrain Caerdydd | 56 | 23 | 41% |
| Llanelli | 24 | 7 | 29% |
| Dwyrain a Gorllewin Sir y Fflint | 56 | 26 | 46% |
| Gorllewin Taf | 17 | 7 | 41% |
| Gogledd-orllewin Abertawe | 35 | 14 | 40% |
| **Cyfanswm** | **327** | **145** | **44%** |

Roedd y cofnodion rheoli yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn rhoi modd i ni weld a oedd cyfranogwr wedi gadael rhaglen Esgyn yn gynnar. Roedd y newidyn *gadael* wedi dynodi 67 unigolyn i fod wedi gadael yn gynnar. Yna, roedd yn bosibl i ni edrych ar y rhesymau dros y gadael cynnar, a chawsom ail newidyn *cynnar* a gipiai unigolion nad oedd wedi llunio cynllun gweithredu personol nac wedi sicrhau cyflogaeth cyn cofnodi gadael y Rhaglen. O'r 50 unigolyn hynny, roedd 19 wedi cwblhau cyfweliad cyntaf ac ail gyfweliad ill dau.

[82] Y prif bwrpas dros wneud hyn oedd gallu rheoli ar gyfer cyd-destun cyflogaeth mewn unrhyw ddadansoddiad ar sail Cydweddu Sgorau Tueddiad (Propensity Score Match).

**Tabl E.2: Gadael Rhaglen Esgyn yn gynnar, yn ôl ton arolwg**

| Data GADAEL | Cyfweliad | Ail gyfweliad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Dim gadael cynnar neu adael gynnar gyda CGP/cyflogaeth | 181 | 134 | 315 |
| Gadael cynnar wedi'i gofnodi, dim CGP/cyflogaeth | 31 | 19 | 50 |
| **Cyfanswm** | **212** | **153** | **365** |

CGP = Cynllun gweithredu personol

Ar ôl cyfuno'r setiau data hyn, llwyddom i lunio newidyn llif llafur (*llifesgyn/ liftflow*) a oedd yn cipio statws y farchnad lafur ar bwyntiau mesuradwy yn eu taith, gan gyfuno'r data rheoli a data'r arolwg. Mae'r newidyn hwn yn dynwared y newidyn *anflow* a ddefnyddir yn Arolwg y Llafurlu, er bod y diffyg data olrhain chwarterol wedi golygu nad oeddem wedi gallu ei raddnodi yn union yr un modd.

### Camu ymlaen yn y farchnad lafur

Gan ddilyn dulliau econometrig safonol, ar y dechrau bu i ni ddadansoddi a chofnodi canlyniadau drwy ddefnyddio dangosydd deuaidd (i gyflogaeth / nid i gyflogaeth) sy'n adlewyrchu a oedd cyfranogwr y Rhaglen wedi cael gwaith cyflogedig, fel y cofnodwyd naill ai trwy'r data rheoli neu drwy hunanadrodd yn ein harolygon.

Fodd bynnag, mae cynllun Rhaglen Esgyn yn nodi canlyniadau positif eraill nad ydynt o bosibl yn arwain yn syth at gyflogaeth, megis mynd i addysg, i raglen hyfforddi, neu i gyfle gwirfoddoli.

Roedd *llifesgyn/ liftflow* wedi cipio 31 math gwahanol o daith cyfranogwyr o'r cyfnod cyn ymgysylltu, ymlaen i ymgysylltu, cyfweliad ac ail gyfweliad. O'r 31 llwybr hynny, llwyddom i ddosbarthu 17 a oedd yn cynrychioli camu ymlaen yn y farchnad lafur (e.e. symud o anweithgarwch i fod yn ddi-waith yn chwilio am waith), 5 yn cynrychioli atchweliad (e.e. symud o fod yn gyflogedig i fod yn ddi-waith), a 9 yn cynrychioli dim newid.

Yna lluniwyd newidyn newydd gennym sy'n cipio a oedd cyfranogwr wedi camu ymlaen yn y farchnad lafur, wedi atchwelyd, neu ddim newid.

O'r rheiny yn y sampl cyfweliad/ail gyfweliad, nodwyd bod 59/153 yn rhai oedd wedi camu ymlaen yn y farchnad lafur (37 y cant), nodwyd nad oedd newid i 79/153 (52 y cant), a nodwyd bod 15/153 wedi atchwelyd (10 y cant).

Edrychom ar y cysylltiad rhwng camu ymlaen yn y farchnad lafur a gadael cynnar, a dangosir hyn yn Nhabl E.3 isod:

**Tabl E.3: Cysylltiad rhwng camu ymlaen yn y farchnad lafur a gadael cynnar**

| Llif | Dim gadael cynnar | Gadael cynnar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Atchweliad (*regression*) | 15 | 0 | 15 |
| Dim newid | 64 | 15 | 79 |
| Camu ymlaen | 55 | 4 | 59 |
| **Cyfanswm** | **134** | **19** | **153** |

Mae'r ystadegyn chi-sgwâr yn dangos cysylltiad clir a chadarnhaol rhwng peidio â gadael cynnar a chamu ymlaen yn y farchnad lafur i fuddiolwyr Esgyn (sy'n sylweddol ar y lefel 97 y cant, Ymlaen=0.030).

Lluniom fodel lluosnewidyn (gan ddefnyddio atchweliad logistaidd lluosnominal) i bennu a oes unrhyw gysylltiad systematig rhwng nodweddion sociodemograffig, hanes cyflogaeth, lles a hunaneffeithiolrwydd a chamu ymlaen yn y farchnad lafur o fewn ein grŵp sampl yn yr arolwg. Dangosir allbynnau o'r model hwn yn Ffigwr 1 isod.

## Ffigwr E.1: Atchweliad logistaidd lluosnominal yn rhagweld camu ymlaen yn y Farchnad Lafur (lmprog)


```
Multinomial logistic regression                 Number of obs     =        145
                                                LR chi2(34)       =      48.32
                                                Prob > chi2       =     0.0529
Log likelihood = -111.56658                     Pseudo R2         =     0.1780
```

| lmprog | Coef. | Std. Err. | z | P>\|z\| | [95% Conf. | Interval] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Regression** | | | | | | |
| stangen | 1.058434 | .8388863 | 1.26 | 0.207 | -.5857528 | 2.702621 |
| stanage | -.4974515 | 1.139978 | -0.44 | 0.663 | -2.731767 | 1.736864 |
| emphist | | | | | | |
| 5 years or more | 1.324977 | 1.560452 | 0.85 | 0.396 | -1.733453 | 4.383406 |
| 2 - 5 years | .9060528 | 1.663015 | 0.54 | 0.586 | -2.353396 | 4.165502 |
| 1 - 2 years | .2199807 | 1.766683 | 0.12 | 0.901 | -3.242655 | 3.682617 |
| 6- 12 months | 1.186916 | 1.627062 | 0.73 | 0.466 | -2.002067 | 4.375898 |
| stanqual | | | | | | |
| Level 1 | -2.159505 | 1.121549 | -1.93 | 0.054 | -4.3577 | .03869 |
| Level 2 | -.4961778 | .918893 | -0.54 | 0.589 | -2.297175 | 1.304819 |
| Level 3 | .1972027 | 1.358157 | 0.15 | 0.885 | -2.464737 | 2.859142 |
| Level 4 and above | -1.257915 | 1.425993 | -0.88 | 0.378 | -4.052809 | 1.536979 |
| surliving | | | | | | |
| Live with a partner or as part of a family | 2.470559 | 1.208183 | 2.04 | 0.041 | .102565 | 4.838554 |
| Live with parents | -13.16768 | 1634.618 | -0.01 | 0.994 | -3216.96 | 3190.625 |
| Other | 2.458235 | 1.259249 | 1.95 | 0.051 | -.009848 | 4.926318 |
| wellgain | -.0186483 | .0426322 | -0.44 | 0.662 | -.1022059 | .0649093 |
| segain | .0242237 | .0770473 | 0.31 | 0.753 | -.1267862 | .1752337 |
| sebase | .1065468 | .0835057 | 1.28 | 0.202 | -.0571214 | .270215 |
| early | -16.16118 | 1579.739 | -0.01 | 0.992 | -3112.393 | 3080.071 |
| _cons | -7.462292 | 3.733048 | -2.00 | 0.046 | -14.77893 | -.1456518 |
| **No_change** | (base outcome) | | | | | |
| **Progression** | | | | | | |
| stangen | -.0489068 | .4837045 | -0.10 | 0.919 | -.9969503 | .8991366 |
| stanage | -.3361293 | .6830586 | -0.49 | 0.623 | -1.6749 | 1.002641 |
| emphist | | | | | | |
| 5 years or more | .8870243 | .8847711 | 1.00 | 0.316 | -.8470952 | 2.621144 |
| 2 - 5 years | 1.180325 | .8914035 | 1.32 | 0.185 | -.5667938 | 2.927444 |
| 1 - 2 years | .5213138 | .9341534 | 0.56 | 0.577 | -1.309593 | 2.352221 |
| 6- 12 months | 1.16232 | .8964396 | 1.30 | 0.195 | -.5946696 | 2.919309 |
| stanqual | | | | | | |
| Level 1 | -1.326611 | .6007132 | -2.21 | 0.027 | -2.503987 | -.1492349 |
| Level 2 | -.7186363 | .6015972 | -1.19 | 0.232 | -1.897745 | .4604726 |
| Level 3 | .1810089 | .8298397 | 0.22 | 0.827 | -1.445447 | 1.807465 |
| Level 4 and above | -.8475166 | .9433882 | -0.90 | 0.369 | -2.696523 | 1.00149 |
| surliving | | | | | | |
| Live with a partner or as part of a family | .1434045 | .57415 | 0.25 | 0.803 | -.9819088 | 1.268718 |
| Live with parents | .6227701 | .6971322 | 0.89 | 0.372 | -.7435839 | 1.989124 |
| Other | .2924593 | .5653575 | 0.52 | 0.605 | -.8156211 | 1.40054 |
| wellgain | -.016583 | .0281952 | -0.59 | 0.556 | -.0718445 | .0386785 |
| segain | .1286409 | .0501712 | 2.56 | 0.010 | .0303073 | .2269746 |
| sebase | .1114157 | .0482595 | 2.31 | 0.021 | .0168289 | .2060025 |
| early | -1.851275 | .7425577 | -2.49 | 0.013 | -3.306662 | -.395889 |
| _cons | -3.307166 | 2.009362 | -1.65 | 0.100 | -7.245443 | .6311106 |

Ni nodwyd unrhyw berthynas ystadegol yn y model hwn ar gyfer yr holl newidynnau rheolydd **ac eithrio dangosyddion gadael cynnar (*early/cynnar*) a chynnydd mewn hunaneffeithiolrwydd/self-efficacy (*segain*)**.

Gwelir y rhyngweithio rhwng y ddau newidyn hyn sy'n ystadegol arwyddocaol ar ei fwyaf pwerus yn Ffigwr E.2. Heb unrhyw gynnydd mewn hunaneffeithiolrwydd, mae gan 'ymadawyr cynnar' (dim cynllun gweithredu personol, dim cyflogaeth cyn gadael) oddeutu 18 y cant o debygolrwydd o gamu ymlaen yn y farchnad lafur, o'i gymharu â thua 41 y cant o debygolrwydd i'r rheini na chofnodwyd iddynt adael yn gynnar. Ar ben hynny, wrth i hunaneffeithlonrwydd gynyddu, mae'r bwlch rhwng y tebygolrwydd o ganlyniad camu ymlaen yn ehangu rhwng y ddau grŵp; er enghraifft, nid yw cynnydd o bum pwynt mewn hunaneffeithiolrwydd ond yn cynhyrchu cynnydd o ddau y cant yn y tebygolrwydd o ganlyniad camu ymlaen i 'ymadawyr cynnar' o'i gymharu â chynnydd o naw y cant i'r rheiny sy'n cwblhau'r Rhaglen yn arferol.

**Ffigwr E.2: Rhagfynegi symud ymlaen yn erbyn peidio symud ymlaen, yn ôl gadael yn gynnar**



### Cynnydd mewn lles


Ychwanegwyd y sgoriau ar bedwar cwestiwn lles safonol ONS, gan greu dau newidyn *wellbeingr* (Wellbeing$^{reint}$) a *wellbeingi* (Well-being$^{int}$). Gallai sgoriau pob newidyn felly redeg o 0 (lleiafswm) i 40 (uchafswm) ar gyfer pob newidyn.

**Tabl E.4: Lles, y cyfweliad cyntaf yn erbyn yr ail gyfweliad**

| | **Cyfweliad cyntaf** | | | **Ail gyfweliad** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | **Cronnus** | **Nifer** | **Canran** | **Cronnus** |
| 0 i 9 | 11 | 3 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| 10 i 19 | 59 | 17 | 20 | 17 | 11 | 12 |
| 20 i 29 | 208 | 59 | 79 | 95 | 63 | 74 |
| 30 i 39 | 70 | 20 | 99 | 38 | 25 | 99 |
| 40 | 5 | 1 | 100 | 1 | 1 | 100 |
| Cyfanswm | 353 | 100 | | 152 | 100 | |

O'r newidynnau hynny, lluniom newidyn *wellgain* a oedd yn cipio cynnydd/lleihad yn y lles a gofnodwyd; felly Cynnydd mewn lles = Well-being$^{reint}$ – Well-being$^{int}$. Felly, gall *wellgain* redeg rhwng isafswm damcaniaethol o -40 ac uchafswm o 40. Yn ymarferol, yr isafswm a arsylwyd oedd -12 a'r uchaf oedd 21, gyda chymedr sampl o 0.59, gan ddangos cynnydd bychan mewn lles yn gyffredinol.

**Ffigwr E.3: Histogram o gynnydd/lleihad mewn lles rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail**



Lluniwyd model lluosnewidyn i edrych ar welliant mewn lles (newidyn dibynnol *wellgain*) a oedd yn cynnwys y newidynnau rheolydd canlynol:

- rhyw;
- categori oedran;
- hanes diweithdra;
- lefel eu cymwysterau ar adeg ymgysylltu; a
- statws y cartref.

Cyflwynwyd hefyd newidyn deuaidd (i gyflogaeth / nid i gyflogaeth) yn ogystal â gwrth-newidyn a gipiai nifer y misoedd o ymgysylltu cyn mynd i gyflogaeth. Roeddem hefyd wedi rheoli ar gyfer amseriad cyflogaeth (cyn neu ar ôl y cyfweliad cyntaf, cyn neu ar ôl yr ail gyfweliad) a chynnwys rheolaeth ar gyfer mis y cyfweliad / ail gyfweliad i asesu a allai cynnydd mewn lles fod yn gysylltiedig â'r tymor. Yn olaf, rydym hefyd wedi cynnwys gwrth-newidyn yn erbyn digwyddiadau bywyd cadarnhaol neu negyddol y dywedodd ymatebwyr oedd wedi digwydd rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail. Dangosir canlyniadau'r model hwn yn Nhabl E.5 isod.

## Tabl E.5: Atchweliad yn y cynnydd mewn lles fel newidyn dibynnol

| **Ffynhonnell** | ***SS*** | ***df*** | ***MS*** | | **Nifer yr arsylwyd: 139** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Model | 786.653 | 14 | 56.1895 | | *F*(14, 124): 1.02 | |
| Gweddill (*residual*) | 6811.203 | 124 | 54.92906 | | *Prob* > *F*: 0.4532 | |
| Cyfanswm | 7597.856 | 138 | 55.05693 | | *R-squared*: 0.1035 | |
| | | | | | *Adj R-squared*: 0.0023 | |
| | | | | | *Root MSE*: 7.4114 | |
| *wellgain* | *Coef.* | *Std. Err.* | t | *P>t* | *95% interval* | |
| **Rhyw** | -1.3611 | 1.408312 | -0.97 | 0.336 | 4.14855 | 1.426342 |
| **Oed** | 0.711317 | 2.15512 | 0.33 | 0.742 | -3.55427 | 4.976904 |
| **Hanes cyflogaeth** | | | | | | |
| 5 mlynedd neu fwy | 0.674807 | 2.686341 | 0.25 | 0.802 | -4.64221 | 5.991828 |
| 2 - 5 flynedd | 0.338964 | 2.72595 | 0.12 | 0.901 | -5.05645 | 5.734382 |
| 1 - 2 flynedd | -1.67576 | 2.877933 | -0.58 | 0.561 | -7.37199 | 4.020481 |
| 6- 12 mis | -2.07941 | 2.768423 | -0.75 | 0.454 | -7.5589 | 3.400073 |
| **Cymhwyster uchaf** | | | | | | |
| Lefel 1 | 1.041849 | 1.830378 | 0.57 | 0.57 | -2.58098 | 4.664681 |
| Lefel 2 | -1.2313 | 1.863709 | -0.66 | 0.51 | -4.92011 | 2.4575 |
| Lefel 3 | -1.96499 | 2.549249 | -0.77 | 0.442 | -7.01067 | 3.080688 |
| Lefel 4 ac uwch | -1.48862 | 2.982618 | -0.5 | 0.619 | -7.39206 | 4.414814 |
| **I gyflogaeth?** | -1.07136 | 1.465659 | -0.73 | 0.466 | -3.97231 | 1.829591 |
| **Digwyddiadau bywyd cadarnhaol** | 0.268474 | 1.085596 | 0.25 | 0.805 | -1.88022 | 2.417172 |
| **Digwyddiadau bywyd negyddol** | -0.3827 | 0.685696 | -0.56 | 0.578 | -1.73988 | 0.974489 |
| **Gadael cynnar** | -2.71354 | 2.1822 | -1.24 | 0.216 | -7.03307 | 1.605995 |
| **Amser rhwng cyfweliadau** | -0.5177 | 0.204376 | -2.53 | 0.013 | -0.92222 | -0.11319 |
| **Natur dymhorol** | .3836576 | .2528909 | 1.48 | 0.142 | -.130762 | .8980773 |
| *_cons* | 4.714812 | 4.179363 | 1.13 | 0.261 | -3.55732 | 12.98694 |

Mae canlyniadau'r model hwn yn dangos **dim perthynas ystadegol** rhwng cynnydd mewn lles (wedi'i fesur fel Well-being$^{reint}$ – Well-being$^{int}$) a chanlyniad cyflogaeth cadarnhaol. Nid oedd unrhyw un o'r newidynnau rheolydd yn dangos unrhyw gysylltiad â chynnydd mewn lles heblaw am yr amser rhwng y cyfweliad cyntaf a'r ail (gydag amser hirach rhwng cyfweliadau yn gysylltiedig i raddau bychain â llai o gynnydd mewn lles) ac o ganlyniad gwrthodir y rhagdybiaeth y gallant fod yn gysylltiedig â thymor y flwyddyn. Rydym hefyd yn gwrthod y rhagdybiaeth bod cynnydd mewn lles yn gysylltiedig â chwblhau'r Rhaglen.

Felly, gellir gwrthod y rhagdybiaeth bod cynnydd mewn lles yn digwydd o ganlyniad i gael swydd; awgryma'r dystiolaeth ei fod yn gysylltiedig â bod yn gyfranogwr yn Rhaglen Esgyn.